

Cronfa Bensiynau Clwyd

Adroddiad Stiwardiaeth

Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Yn unol â Chod Stiwardiaeth y DU 2020



Tudalen Cynnwys

Rhagair	3
Egwyddor 1	4
Pwrpas a Llywodraethu.....	4
Egwyddor 2	10
Pwrpas a Llywodraethu.....	10
Egwyddor 3	23
Pwrpas a Llywodraethu.....	23
Egwyddor 4	26
Pwrpas a Llywodraethu.....	26
Egwyddor 5	32
Pwrpas a Llywodraethu.....	32
Egwyddor 6	34
Dull Buddsoddi.....	34
Egwyddor 7	47
Dull Buddsoddi.....	47
Egwyddor 8	58
Dull Buddsoddi.....	58
Egwyddor 9	61
Ymgysylltu	61
Egwyddor 10	70
Ymgysylltu	70
Egwyddor 11	77
Ymgysylltu	77
Egwyddor 12	79
Arfer hawliau a chyfrifoldebau	79
Geirfa.....	87

Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno trydydd Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol Cronfa Bensiynau Clwyd (y "Gronfa") ar gyfer y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Rydym wedi bod yn frwd ers tro dros fuddsoddi'n gynaliadwy a phwysigrwydd stiwardiaeth weithredol. Fel cefnogwr Cod Stiwardiaeth y DU, mae'n bwysig i ni gynnal ein safonau uchel a pharhau i ddangos y gwaith a wnaed dros y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn egluro sut yr aethom ati i gyflawni ein rhwymedigaethau stiwardiaeth a amlinellir yn Natganiad ein Strategaeth Fuddsoddi a'n Polisi Buddsoddi Cyfrifol.

Rydym wedi parhau i gynnal ein gwerthoedd buddsoddi cyfrifol ac yn parhau i weithredu er budd pennaf ein haelodau drwy ymdrechu i wella ein polisiâu a'n hamcanion er mwyn lliniaru unrhyw risgiau y gallem eu hwynebu yn y dyfodol. Rydym wedi datblygu ar y cynnydd a gyflawnwyd yn flaenorol drwy chwilio am gyfleoedd i ychwanegu gwerth ar gyfer ein haelodau, yn enwedig yn y maes Lleol / Effaith.

Dyma rai o gyflawniadau allweddol y Gronfa dros gyfnod yr adolygiad:

1. Mabwysiadu 'Polisi Gwaharddiadau' ffurfiol mewn perthynas â'n daliadau ecwiti rhestredig.
2. Parhau â'n hymrwymadau i gyfleoedd buddsoddi Marchnadoedd Preifat er mwyn cyflawni ein targed i fuddsoddi yn y maes Lleol / Effaith.
3. Parhau i fonitro a datblygu tuag at ein targed sero net erbyn 2045, yn ogystal â'n targedau datgarboneiddio dros dro ar gyfer daliadau ecwiti rhestredig.

Un o'n prif amcanion yw buddsoddi'n gyfrifol er lles ein haelodau; bydd hyn yn rhoi hyder i'n haelodau bod ein buddsoddiadau'n cael eu buddsoddi mewn modd sy'n gwneud gwahaniaeth. Arweiniodd ein hymgysylltiad â Phartneriaeth Pensiwn Cymru ("y Bartneriaeth") at lansio Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy yn 2023 i bob aelod o'r Bartneriaeth fuddsoddi ynddi, ac mae'n enghraifft allweddol o'r modd yr ydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau fel buddsoddwr cyfrifol. Rydym bellach wedi cyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi dyraniad targed o 15% o gyfanswm ein hasedau yn y Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â Phartneriaeth Pensiwn Cymru sy'n gyfrifol am ymgysylltu gyda'r rheolwyr buddsoddi ar ran Cronfeydd Pensiynau CPLIL Cymru, gan gynnwys ein Cronfa ni. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymgysylltu'n gyson gyda rheolwyr dros y cyfnod; trafodir yr ymgysylltiadau hyn ymhellach yn yr adroddiad.

Rydym yn falch o'n gwaith a'n gweithgarwch stiwardiaeth dros y cyfnod, ac yn edrych ymlaen at barhau â'r gwaith da dros y 12 mis nesaf.

Y Cyngorydd Dan Rose

Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Egwyddor 1

Pwrrpas a Llywodraethu

“Mae pwrrpas, credoau buddsoddi, strategaeth a diwylliant y llofnodwyr yn galluogi stiwardiaeth sy’n creu gwerth hirdymor i gleientiaid a buddiolwyr, gan arwain at fuddion cynaliadwy i’r economi, yr amgylchedd a chymdeithas.”

1.1 Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhan o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (“CPLIL”). Ei phwrrpas yw darparu buddiannau marwolaeth ac ymddeol i tua 50,000 o aelodau, sy’n cynnwys gweithwyr llywodraeth leol (ac eithrio athrawon, yr heddlu a diffoddwyr tân) yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, a gweithwyr cyrff cymwys eraill sy’n darparu gwasanaethau tebyg.

1.2 Cyngor Sir y Fflint yw’r “awdurdod gweinyddu” neu’r “rheolwr cynllun” sy’n gyfrifol am reoli’r Gronfa ar ran ein holl fudd-ddeiliaid. Mae’r gwaith allweddol o wneud penderfyniadau a rheoli’r Gronfa wedi cael ei ddirprwyo gan y Cyngor i Bwyllgor Cronfa Bensiynau ffurfiol (gyda chynrychiolwyr sy’n gyflogwyr ac yn aelodau’r cynllun) a gefnogir gan Banel Ymgynghorol Pensiynau. Mae strwythur manwl a threfn dirprwyo awdurdod ein cronfa i’w gweld yn adran 2.14 yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Dylanwadir ar lawer o’n diwylliant gan gynrychiolaeth eang ar ein Pwyllgor, y Bwrdd Pensiwn Lleol a’r Swyddogion sy’n rheoli’r Gronfa.

1.3 Mae’r Gronfa yn rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru, sef cronfa asedau gyfunol sy’n gwasanaethu pob un o’r wyth o gronfeydd CPLIL yng Nghymru. Dros amser, rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o’n hasedau yn trosglwyddo i’r gronfa gyfunol hon, a fydd yn galluogi’r Gronfa i elwa ar arbedion effeithlonrwydd drwy arbedion maint. Gan hynny, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bartner pwysig iawn i ni.

1.4 Ein hamcan cyffredinol yw sicrhau y gallwn dalu holl fuddion yr aelodau pan fyddant yn ddyledus. Ein nod yw cyflawni enillion buddsoddi sy’n uwch na’r gyfradd sydd wedi’i chynnwys yn y gwerthusiad o’n dyledion gan Actiwari’r Gronfa i sicrhau y gallwn gyflawni hyn, yn ogystal â helpu cadw cyfraniadau’r cyflogwyr yn fforddiadwy. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn taro’r cydbwysedd cywir rhwng perfformiad cyson hirdymor buddsoddiadau a’r amcanion cyllido.

1.5 Datganiad o Fwriad y Gronfa yw:

- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy’n darparu gwasanaeth rhagorol i’n holl gwsmeriaid sy’n canolbwyntio ar y cwsmer, sydd ag enw da ac sy’n gredadwy
- meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth o risg a llywodraethu ariannol, a darparu gwasanaethau nodedig o’r safon uchaf o fewn adnoddau’r gyllideb
- gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion gydag ymagwedd sy’n credu yn ein gallu i gyflawni.

Datblygwyd y Datganiad o Fwriad i arwain rheolaeth pob agwedd ar y Gronfa, gan gynnwys sut y buddsoddir asedau.

1.6 Ein nodau ar gyfer llywodraethu'r Gronfa yw:

- Gweithredu er budd pennaf ein haelodau a'n cyflogwyr
- Bod â threfniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso penderfyniadau deallus ar sail cyngor, polisiau a strategaethau priodol
- Sicrhau y rheolir y Gronfa Bensiynau, ac y darperir ei gwasanaethau, gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arferion gorau
- Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut y bwriadwn eu cyflawni drwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus
- Sicrhau y caiff cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau eu gwarchod a'u cynnal

Mae'r nodau hyn yn berthnasol i bob agwedd ar reoli'r Gronfa, gan gynnwys buddsoddiadau a Stiwardiaeth.

1.7 Amlinellir ein credoau o ran Buddsoddi Cyfrifol yn Natganiad ein Strategaeth Fuddsoddi. Mae gennym gyfres benodol o greddau o fewn Datganiad ein Strategaeth Fuddsoddi i'n harwain wrth wneud penderfyniadau. Amlinellir y credoau hyn isod:

- Dyletswydd ymddiriedol y Gronfa yw gweithredu er budd pennaf ei haelodau a'i chyflogwyr. Mae'r Gronfa'n cydnabod bod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn creu risgiau a chyfleoedd i'w pherfformiad ariannol, a bydd yn cyfrannu at y nodweddion risg ac elw. O ganlyniad, cred y Gronfa y dylid ystyried y ffactorau hyn yn ei Strategaethau Ariannu a Buddsoddi a drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.
- Mae'r Gronfa'n fuddsoddwr hirdymor, gydag addewidion pensiwn am nifer o flynyddoedd. O ganlyniad, mae'n ceisio darparu enillion cynaliadwy hirdymor.
- Mae'r Gronfa'n ceisio integreiddio ystyriaethau ESG ar draws yr holl ddryaniadau asedau.
- Mae'r Gronfa'n ceisio defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weithredu'r Buddsoddiad Cyfrifol.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod bod tryloywder ac atebolrwydd yn agweddau pwysig ar fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol a bydd yn dangos hyn drwy gyhoeddi ei pholisi a'i gweithgarwch Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer y Gronfa.
- Mae gan y Gronfa ddyletswydd i weithredu ei chyfrifoldebau stiwardiaeth (pleidleisio ac ymgysylltu) yn effeithiol, drwy ddefnyddio ei dylanwad fel buddsoddwr hirdymor i annog cyfrifoldeb corfforaethol.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod risg ariannol sylweddol peidio â bod yn Fuddsoddwr Cyfrifol, ac mae'n ceisio sicrhau bod y risg hon yn cael ei lliniaru drwy ei Pholisi Buddsoddi a'i weithrediad.

- Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddiadau Cymdeithasol/Effaith, a all gael effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol yn ogystal â bodloni ei hamcanion ariannol, a bydd yn parhau i wneud buddsoddiadau pwrpasol i gefnogi'r nod hwn.

1.8 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rôl y Gronfa fel stiward cyfalaf a'r angen i sicrhau safonau uchaf llywodraethu, gan hyrwyddo cyfrifoldeb corfforaethol yn y cwmnïau gwaelodol y byddwn yn buddsoddi ynddynt. Credwn fod hyn yn y pen draw yn diogelu buddiannau ariannol y Gronfa a'n haelodau. Rydym wedi ymrwymo i arfer yr hawliau perchnogaeth sydd ynghlwm wrth ein buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu ein cred y dylai perchnogion asedau cyfrifol gynnal trosolwg o'r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt, gan gydnabod bod gweithredoedd y cwmnïau'n effeithio nid yn unig ar eu cwsmeriaid a'u cleientiaid, ond yn ehangach ar eu gweithwyr, budd-ddeiliaid eraill a chymdeithas yn fwy cyffredinol.

Mae gennym ddiwylliant o ymroddiad, cydweithrediad a sicrhau ein bod yn ystyried ein haelodau wrth wneud unrhyw benderfyniadau. Mae ein swyddogion wedi ymroi rhan sylweddol o'u bywyd gwaith i'r Gronfa, ac maent wastad yn ymdrechu i sicrhau y bodlonir amcanion y Gronfa. Mae yna gydweithio cadarn o fewn y tîm a chymuned ehangach y CPLIL. Nod ein strategaeth gyfathrebu yw sicrhau bod y budd-ddeiliaid yn cael gwybodaeth berthnasol ac eglur a'u bod yn deall buddion y cynllun. Mae ein strategaeth gyfathrebu hefyd yn ystyried gwahanol anghenion y grwpiau budd-ddeiliaid, er mwyn adlewyrchu amrywiaeth ein budd-ddeiliaid.

Yn 2019, cynhaliodd y Gronfa adolygiad llawn o'i Pholisi Buddsoddi Cyfrifol ar y cyd â'r adolygiad cyffredinol o'r dyraniad asedau strategol. Y targed ar gyfer yr adolygiad hwn oedd ailddatgan credoau presennol y Gronfa, ategu'r rhain gyda safbwyntiau ychwanegol lle bo hynny'n briodol ac ystyried ffyrdd y gellid gweithredu'r safbwyntiau hyn.

Yn adolygiad 2019, bu i'r Gronfa bennu nifer o gredoau lefel uchel a osodwyd dros y polisïau manylach. Roedd hyn yn cyfleu agwedd gyffredinol y Gronfa at fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol. Rydym bellach yn adolygu'r polisi Buddsoddi Cyfrifol ar y cyd ag unrhyw ddiweddariadau i Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi i sicrhau bod y polisïau'n parhau i fod yn briodol ac yn adlewyrchu safbwyntiau diweddaraf y Gronfa a phrif ganllawiau'r farchnad, megis yr 'Institutional Investors Group on Climate Change (IIGCC)' pan fo'n briodol.

Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi

Yn 2023, bu i ni adolygu ein strategaeth fuddsoddi gyffredinol yn dilyn canlyniadau'r adolygiad strategaeth fuddsoddi deirblwydd. O ganlyniad, asesodd y Swyddogion ein dyraniad Lleol/Effaith, a chytunwyd i gynyddu'r dyraniad strategol o 6% i 8%. Mae'r cynnydd yn y dyraniad yn cyd-fynd â'n credoau Buddsoddi Cyfrifol ac yn dystiolaeth bellach o'n hymrwymiad i wneud newidiadau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ("ESG") cadarnhaol ar ran ein budd-ddeiliaid pan fo hynny'n bosib. Cytunodd y Pwyllgor ar Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi yng nghyfarfod mis Mawrth 2024.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Awst 2023, bu i ni gytuno ar 'Bolisi Gwaharddiadau' ffurfiol mewn perthynas â'r daliadau ecwiti rhestredig yn dilyn trafodaeth fanwl lle'r aethom drwy gamau'r 'Polisi Gwaharddiadau'. Cytunwyd ar Ddatganiad terfynol y Strategaeth Fuddsoddi, yn cynnwys y 'Polisi Gwaharddiadau', gan y Pwyllgor a'r Cyflogwyr. Er gwybodaeth, mae'r Polisi Gwaharddiadau i'w weld yn adran 7.4, ac yn dangos bod y Gronfa'n parhau i ddatblygu o ran buddsoddi cyfrifol.

Ddiwedd Chwefror 2024, rhagorwyd ar y trothwy lefel cyllido o 110%, ac arweiniodd hyn at i'r Pwyllgor gytuno i leihau risg y strategaeth fuddsoddi drwy ostwng amlygiad ecwiti targed y Gronfa o 45% i 35% o gyfanswm asedau'r Gronfa. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn adran 4.9.

1.9 Mae ein Polisi presennol yn cefnogi ein hamcanion Buddsoddi Cyfrifol penodol ynghyd ag amcanion penodol cyllido a buddsoddi, sef:

- Sicrhau bod ein strategaeth at y dyfodol, ein gweithgarwch rheoli buddsoddiadau a'n gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynaliadwyedd;
- Sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cyd-fynd â'r pontio i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau carbon deuocsid sero net erbyn 2045;
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaliadwyedd a gweithio gydag eraill i wella ein heffeithiolrwydd wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.

Rydym wedi ymrwymo i bontio i economi carbon isel, ac felly wedi pennu targed o gyflawni sero net erbyn 2045 neu'n gynt.

1.10 Mae ein hamcanion wedi'u hamlinellu yn Natganiad y Strategaeth Fuddsoddi. Mae crynodeb i'w gweld isod o'r amcanion penodol sy'n ymwneud â chyllido a rheoli buddsoddiad y Gronfa:

- Cyflawni a chynnal asedau sy'n hafal i 100% o rwymedigaethau o fewn terfyn amser y cytunir arno, gan gadw o fewn terfynau risg rhesymol.
- Pennu gofynion cyfraniadau'r cyflogwyr, gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a chryfder cyfamod pob cyflogwr, gyda'r nod o sicrhau bod y cyfraniad y gofynnir amdano gan y cyflogwyr mor rhagweladwy ag sy'n bosib.
- Gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr, ceisio sicrhau digon o elw dros ben ar fuddsoddiadau o'i gymharu â'r twf mewn rhwymedigaethau.
- Taro'r cydbwysedd priodol rhwng perfformiad buddsoddi cyson hirdymor a'r amcanion ariannu.
- Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol drwy fabwysiadu amcanion cyllido penodol i bob cyflogwr.
- Sicrhau y gellir cwrdd â gwariant arian parod net os/pan gyfyd yr angen.
- Cadw swm dyledion nad oes modd eu hadennill mor isel ag sy'n bosib wrth derfynu cyfranogiad cyflogwyr.

- Sicrhau bod ei strategaeth at y dyfodol, ei gweithredoedd rheoli buddsoddiadau a'i gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynaliadwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r pontio i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau carbon deuocsid sero net erbyn 2045.
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaliadwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.
- Ceisio defnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y dewis cyntaf ar gyfer buddsoddi asedau'r Gronfa, cyn belled â'i bod yn gallu bodloni gofynion amcanion a strategaeth fuddsoddi'r Gronfa (gan gynnwys gofynion cynaliadwyedd), o fewn costau hirdymor derbynol i ddarparu'r buddion disgwyledig, ac yn amodol ar barhau i fod yn hyderus yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth.

Mae'r camau gweithredu allweddol a'r meysydd ffocws a nodwyd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi'u cynnwys yng **Nghynllun Busnes** y Gronfa, er mwyn cyd-fynd â nodau ac amcanion allweddol y strategaeth hon.

1.11 Mae Cyngor Sir y Fflint yn dirprwyo ei benderfyniadau i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd sy'n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gronfa, gan gynnwys gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllido, buddsoddi a gweinyddu, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn ar waith. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pum Cyngorydd o Gyngor Sir y Fflint a phedwar aelod cyfetholedig sy'n cynrychioli cyflogwyr ac aelodau cynllun y Gronfa. Mae gan bob aelod hawliau pleidleisio cyfartal. Bydd gan bob aelod gyfnod penodol yn y rôl, a bennir gan etholiadau awdurdod lleol ar gyfer y Cyngorwyr etholedig. Fodd bynnag, yn amodol ar fodloni meini prawf eu rolau, gellir ailbenodi aelodau presennol. Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys dau gynrychiolwr ar ran y cyflogwyr, dau gynrychiolwr ar ran aelodau'r cynllun ac un aelod annibynnol sy'n gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau. Mae gan bob un o aelodau'r Bwrdd Pensiwn hawl i fynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac estynnir gwahoddiad iddynt gymryd rhan.

1.12 Rydym wedi ymrwmo i adrodd yn erbyn Cod Stiwardiaeth y DU. Fel aelod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Bartneriaeth a rheolwyr y cronfeydd gwaelodol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Robeco fel darparwr pleidleisio ac ymgysylltu, ac maent yn helpu diweddarau a chynnal polisi pleidleisio ac egwyddorion ymgysylltu sy'n cyd-fynd â Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF). Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwmo ar hyn o bryd i God Stiwardiaeth y DU 2020 y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC).

1.13 Fel rhan o ddiwygiad buddsoddi'r Llywodraeth, rydym wedi cymryd rhan yn natblygiad y Bartneriaeth i gyfuno buddsoddiadau 8 cronfa CPLIL Cymru. Er mai'r Gronfa sy'n gyfrifol am bob penderfyniad ar bolisi a dyrannu asedau strategol, y Bartneriaeth sy'n gyfrifol am eu gweithredu. Rydym wedi ymrwmo i gyfuno ein buddsoddiadau gyda'r Bartneriaeth, ac yn cydnabod bod heriau ynghlwm â hyn yn ogystal â chyfleoedd sylweddol i wella ein dull o Fuddsoddi'n Gyfrifol. Rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i ddatblygu ei pholisi a'i hamcanion Buddsoddi Cyfrifol, ac yn hyderus y

byddant yn ein galluogi i weithredu ein polisiau ein hunain. Bydd y Gronfa'n gweithio gyda'r Bartneriaeth i ddatblygu eu polisiau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol i Gronfa Pensiynau Clwyd.

1.14 Mae ein dull ni, yn unol â'r credoau uchod, wedi llwyddo i gynhyrchu canlyniadau gwell na'r meincnod, gan wella lefel y cyllid, a mynd i'r afael â phryderon ESG mewn modd sy'n gadael y Gronfa mewn sefyllfa gadarn wrth iddi weithio i ddatblygu polisiau ESG mwy penodol yn 2023/24 a thu hwnt.

- Lefel cyllid ddisgwyliedig y Gronfa ar 31 Mawrth 2024 oedd tua 109%, sy'n welliant ar tua 91% ar 31 Mawrth 2019.
- Mae gan y Gronfa ddyraniad ar gyfer strategaethau Lleol / Effaith o fewn y portffolio Marchnadoedd Preifat, a enillodd 6.4% a 22.4% y flwyddyn dros y cyfnodau un a thair blynedd, yn y drefn honno.

Egwyddor 2

Pwrrpas a Llywodraethu

“Mae trefniadau llywodraethu, adnoddau a chymhellion llofnodwyr yn cefnogi stiwardiaeth”

2.1 Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa), er budd gweithwyr a chyn-weithwyr Cyngor Sir y Fflint, dau awdurdod lleol arall (Wrecsam a Sir Ddinbych) a phedwar deg naw (49) o gyflogwyr mawr a bach eraill yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

2.2 Y prif weithgarwch sy'n rhan o reoli'r Gronfa yw gwneud a rheoli buddsoddiadau a gweinyddu taliadau buddion y cynllun. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, rydym yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) 2013, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac amrywiol ofynion deddfwriaethol eraill.

2.3 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei holl fusnes, gan gynnwys busnes y Gronfa, yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i reoli'n gywir a bod trefniadau priodol yn eu lle i ddefnyddio'r arian yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon. Rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau bod y Gronfa yn cael ei rheoli i ddarparu'r gwerth gorau.

2.4 Mae fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys cyfres sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion arferion da a phrosesau rheoli, sy'n cefnogi athroniaeth gweithrediadau'r Cyngor, y safonau mae'n ei osod, yr ymddygiad mae'n ei ddisgwyl a'r egwyddorion mae'n eu dilyn.

2.5 Er mwyn helpu sicrhau bod y fframwaith llywodraethu'n gadarn, mae'r Cyngor yn cydnabod y pwyslais a roddir ar lywodraethu corfforaethol gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol (y Cod) sy'n diffinio'r egwyddorion sy'n sail i lywodraethu'r sefydliad. Mae hwn yn cyd-fynd ag egwyddorion y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Fframwaith Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE): Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Mae'r Cod yn llunio rhan o gyfansoddiad y Cyngor a gellir ei weld ar wefan y Cyngor. Mae gweithrediad y Gronfa yn cael ei lywodraethu gan y cod hwn. Mae'r Gronfa'n cynhyrchu ei Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ei hun sydd yn yr adroddiad blynnyddol. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn cynhyrchu ei Ddatganiad Llywodraethu Blynnyddol ei hun, ac mae'r ddau ddatganiad yn adolygu effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli.

2.6 Mae ein Polisi Llywodraethu yn pennu ein nodau a'n hamcanion llywodraethu a'n trefniadau llywodraethu, gan gynnwys ein strwythur llywodraethu a'n gweithdrefnau gweithredol ar gyfer dirprwyo cyfrifoldebau.

2.7 Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd (y Pwyllgor). Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 5 o gynghorwyr y Cyngor a 4

aelod cyfetholedig, sy'n cynrychioli'r 2 awdurdod lleol arall, cyflogwyr eraill ac aelodau'r cynllun. Mae'r Pwyllgor yn cael cyngor gan Banel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd (y Panel), sy'n cynnwys swyddogion y Cyngor a chynghorwyr y Gronfa.

2.8 Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am holl faterion y Gronfa, gan gynnwys llywodraethu, strategaethau buddsoddi a chyllido, cyfrifeg, ymgysylltu gydag aelodau'r cynllun a chyflogwyr, cyfathrebu a gweinyddu. Y Pwyllgor sy'n pennu polisiau'r Gronfa ac yn gyfrifol amdanynt. Swyddogion y Gronfa a'r Panel Ymgynghorol, y mae'r Pwyllgor yn dirprwyo'r gwaith o redeg y Gronfa o ddydd i ddydd iddynt, sy'n rhoi'r polisiau y mae'r Pwyllgor yn eu pennu ar waith. Mae gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd bwerau dirprwyedig i reoli'r Gronfa o ddydd i ddydd. Rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid, sy'n aelod o'r Panel Ymgynghorol, sicrhau rheolaeth ariannol briodol y Gronfa yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2.9 Yn ogystal, yn unol â deddfwriaeth, mae gennym Fwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) i helpu'r Gronfa fodloni ei gofynion statudol a rheoleiddiol, gan sicrhau trefniadau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon yr un pryd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys dau gynrychiolydd sy'n aelodau, dau gynrychiolydd sy'n gyflogwyr y cynllun (nad ydynt yn gyflogwyr Cyngor Sir y Fflint fel awdurdod gweinyddu) a Chadeirydd annibynnol. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn a gyhoeddir fel rhan o'n Hadroddiad a Chyfrifon Blynnyddol. Rydym yn falch o'r berthynas gydweithredol rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor, y credwn ei bod yn fuddiol iawn i'n budd-ddeiliaid, gan gynnwys mewn perthynas â Stiwardiaeth. Er enghraifft, pan ofynnwyd i ni wneud sylwadau ar themâu'r Stiwardiaeth gan ddarparwr pleidleisio ac ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru (Robeco) yn ystod y flwyddyn, bu i ni sicrhau ein bod yn ystyried barn y Bwrdd yn ogystal â barn y Pwyllgor. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais rydym yn ei roi ar stiwardiaeth yn ogystal â'n nod o sicrhau bod barn ein holl fudd-ddeiliaid yn cael ei chynrychioli'n briodol.

2.10 Rydym yn adrodd yn fanwl ar sut mae'r Gronfa'n glynu at y gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â llywodraethu bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynnyddol. Rydym yn ceisio mynd gam ymhellach na'r gofynion deddfwriaethol a sicrhau ein bod yn dilyn yr arferion gorau, gan gynnwys canllawiau'r Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ystod y flwyddyn, bu i ni ddatblygu polisiau ychwanegol penodol i'r Gronfa, megis ein polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ein polisi Parhad Busnes a'r strategaeth Seiber. Rydym hefyd yn cyhoeddi polisiau llywodraethu'r Gronfa, sydd ar gael ar wefan y Gronfa drwy ddilyn y ddolen hon: [Polisiau Cronfa Bensiynau Clwyd](#).

2.11 Un enghraifft o'r strwythur a'r polisiau llywodraethu hyn ar waith yw buddsoddiad y Gronfa yn Q-Energy Fund V, ac mae mwy o fanylion am hyn i'w gweld yn 7.11. Argymhellodd Mercer, ein cynghorwyr buddsoddi, ein bod yn buddsoddi yn Q-Energy Fund V ar sail ein hanghenion buddsoddi. Aeth y swyddogion â'r argymhelliad hwn at Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r Swyddog Adran 151, sy'n rhoi'r gymeradwyaeth derfynol ac sydd â chyfrifoldeb dirprwyedig. Mae hyn yn sicrhau bod pob proses diwydrwydd dyladwy wedi'i chwblhau a bod y buddsoddiad yn parhau i fod er budd gorau ein nodau.

2.12 Er mwyn cefnogi'r broses wneud penderfyniadau, mae gan y Gronfa Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau sy'n berthnasol i bob aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, y Bwrdd Pensiwn a'r uwch swyddogion. Dyrennir adnoddau sylweddol i hyfforddiant, a gaiff ei ddarparu mewn gwahanol fformatau, megis ar lein, yn hybrid neu wyneb yn wyneb, drwy sawl dull, gan gynnwys:

- Cyfres o sesiynau cynefino i aelodau newydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn
- Sesiynau hyfforddiant penodol i'r Gronfa gan swyddogion, cyngorwyr a rheolwyr buddsoddi, weithiau fel rhan o gyfarfodydd y Pwyllgor
- Cynadleddau, seminarau a sesiynau/digwyddiadau hyfforddiant eraill a drefnir yn allanol.

Mae costau a threuliau sy'n ymwneud â hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo yn cael eu talu'n uniongyrchol neu'n cael eu had-dalu gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Gall aelodau cyfetholedig Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn dderbyn taliadau am fynd i gyfarfodydd (gan gynnwys digwyddiadau hyfforddiant) fel y manylir yng Nghynllun Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Cyngor Sir y Fflint a Phrotocol y Bwrdd Pensiwn.

Mae'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau wedi'i gydweddu i fodloni Cod CIPFA a gofynion MiFID II, ac mae ynddo amrywiaeth o amcanion a thargedau sy'n cynnwys cynefino, hyfforddiant hanfodol ac ymwybyddiaeth gyffredinol, ac adroddir ar y rhain ym mhob Pwyllgor. Cynhelir asesiad o'r anghenion hyfforddi yn rheolaidd i helpu llunio cynlluniau hyfforddi'r dyfodol.

2.13 Mae swyddogion y Gronfa wedi cymryd rhan mewn amrywiol sesiynau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, nid yn unig i gadw eu gwybodaeth am sector y cynllun pensiwn llywodraeth leol yn gyfredol, ond hefyd i'w wella. Mae'r tabl isod yn cynnig enghreifftiau o sesiynau hyfforddi y mae o leiaf un o swyddogion y Gronfa, aelodau'r pwyllgor ac aelodau'r bwrdd wedi eu mynychu, sydd wedi eu helpu gyda stiwardiaeth y Gronfa:


Dyddiad yr Hyfforddiant	Disgrifiad o'r Hyfforddiant	Themâu Allweddol a Drafordwyd
26 Ebrill 2023	Cronfa Bensiynau Clwyd: Hyfforddiant ar Lywodraethu Buddsoddiadau	• Trosolwg dan arweiniad swyddog o sefyllfa gyllido hanesyddol y Gronfa, ei strategaeth fuddsoddi a'i strwythur llywodraethu. • Hyfforddiant dan arweiniad ymgynghorydd ar rôl y pwyllgor mewn perthynas â gwneud penderfyniadau am fuddsoddi. • Hyfforddiant a thrafodaeth dan arweiniad ymgynghorydd ar fuddsoddi'n gyfrifol ac uchelgeisiau dadfuddsoddi.

2 Mai 2023	Fframwaith Dadfuddsoddi'r Gronfa	• Adolygiad o'r fframwaith dadfuddsoddi dan arweiniad ymgynghorydd (ecwitiau rhestredig). Yn cynnwys amcanion, dadansoddiad buddsoddi, goblygiadau cyllido, goblygiadau metrig carbon, ystyriaethau gweithredu a diweddariad arfaethedig i Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi.
3 Mai 2023	Trefniadau Dyrannu Asedau'n Dactegol a Buddsoddi'n Gyfrifol y Gronfa	• Diweddariad a thrafodaeth dan arweiniad ymgynghorydd ar y dewisiadau arfaethedig ar gyfer polisi dadfuddsoddi. • Trosolwg dan arweiniad swyddog o amcanion cyllido a buddsoddi'r Gronfa, ei phroses gwneud penderfyniadau buddsoddi a'i Dyraniad Asedau Tactegol. • Hyfforddiant dan arweiniad ymgynghorydd ar ddyrannu asedau'n dactegol, perfformiad a phontio i fod yn garbon sero net.
8 Mehefin 2023	Partneriaeth Pensiwn Cymru Ch1: Marchnadoedd Preifat a chyfleoedd i godi'r gwastad/datblygu	• Gwybodaeth am Gynnyrch ▪ Dosbarthiadau Asedau Marchnadoedd Preifat – Eiddo / Ecwiti Preifat ▪ Cyfleoedd i godi'r gwastad / datblygu
26 Mehefin 2023	Cynhadledd Awdurdod Lleol PLSA	• Themâu'r gynhadledd: ▪ Rhagolwg buddsoddi ar gyfer cynlluniau yn dilyn helynt diweddar y farchnad ac yng nghyd-destun y bygythiad parhaus o ddirwasgiad. ▪ Sut y gall y CPLIL sicrhau cynaliadwyedd gweithredol pan fo cynlluniau byth a hefyd yn cael eu gwthio i wneud mwy gyda llai. ▪ Sut y gall cynlluniau gyfathrebu gyda chyflogwyr a chynilwyr yn ystod yr argyfwng costau byw. ▪ A beth sydd nesaf o ran ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

		(ESG), dangosfyrddau pensiynau a'r ddadl am godi'r gwastad.
11 Gorffennaf 2023	Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun: Cod Tryloywder y Bwrdd	• Cod Tryloywder Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun
7 Medi 2023	Uwchgynhadledd Buddsoddiadau a Phensiynau LGC	• Trafod y problemau a'r heriau difrifol sy'n wynebu'r CPLIL, gan gynnwys amrywiol broblemau buddsoddi, cynaliadwyedd, llifau arian, amrywiaeth a chynhwysiant.
13 Rhagfyr 2023	Partneriaeth Pensiwn Cymru Ch3: Adrodd	• Adrodd ar Berfformiad Buddsoddiadau ac Adroddiadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)
28 Chwefror 2024	Materion Buddsoddi a Chynllun Hyfforddiant	• Trafodaeth/dadl am ganfyddiadau, dewisiadau ac argymhellion yr Adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi. • Trafodaeth am anghenion hyfforddiant a fformat adrodd yn y dyfodol.
28 Chwefror 2024	Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gronfa	• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gronfa a'r CPLIL ehangach
5 Mawrth 2024	Partneriaeth Pensiwn Cymru Ch4: Deall y Farchnad a Gofynion Rheoleiddio	• Deall y Farchnad a Gofynion Rheoleiddio ▪ Cynnydd cronfeydd cyfunol CPLIL eraill a Chyfleoedd i Gydweithio ▪ Canllawiau Cyfuno
14 Mawrth 2024	Seminar Buddsoddi LGC 2024	• Dyma rai o uchafbwyntiau'r sesiwn: ▪ Y sawl sy'n pennu sefyllfa'r farchnad economaidd yn trafod y tueddiadau diweddar a'r rhagolygon at y dyfodol ▪ Y cyfnod cyn Prisiad 2025 - y farn ddiweddaraf ▪ Gweithdai'n canolbwyntio ar arloesi o ran buddsoddi gydag enillion ▪ Archwilio'r ddyletswydd ymddiriedol – ai dyma gonglfaen y CPLIL neu rywbeth i guddio tu ôl iddo?

2.15 Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017, ac mae'n gyfuniad o'r wyth cronfa CPLIL (Awdurdodau Cyfansoddol), gan gynnwys Cronfa Bensiynau Clwyd, ar draws Cymru gyfan. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn un o wyth cronfa gyfunol CPLIL genedlaethol. Cyn sefydlu Partneriaeth Pensiwn Cymru, roedd yr wyth Awdurdod Cyfansoddol yng Nghymru eisoes wedi bod yn cydweithio, ac wedi penodi BlackRock fel un rheolwr goddefol ar eu cyfer ym mis Mawrth 2016. Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru.



Is-grwpiau Partneriaeth Pensiwn Cymru (mae swyddogion Cronfa Bensiynau Clwyd i gyd ar is-grwpiau):

- **Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol:** yn gyfrifol am greu a darparu Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â chysylltu gyda darparwr pleidleisio ac ymgysylltu'r Partneriaeth (Robeco). Mae'r grŵp yn cyfarfod ddwywaith y chwarter, yn goruchwyllo ac yn gyfrifol am stiwardiaeth pob un o Gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac yn cynnwys swyddogion Cronfa Bensiynau Clwyd.
- **Is-grŵp Risg:** yn gyfrifol am fonitro, cynnal a gweithredu Cofrestr a Pholisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter.
- **Is-grŵp Marchnadoedd Preifat:** yn gyfrifol am greu a datblygu Is-gronfa/gronfeydd Marchnadoedd Preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob pythefnos ar hyn o bryd.

- **Is-grŵp Caffael:** yn gyfrifol am ymarferion caffael. Bydd Aelodau'n newid yn dibynnu ar yr ymarfer caffael. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn ôl yr angen.

Gwybodaeth bellach am Bartneriaeth Pensiwn Cymru:

- Cyngor Sir Gâr yw awdurdod cynnal Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Hymans Robertson: cynghorydd y Bartneriaeth
- Burges Salmon: cynghorydd cyfreithiol y Bartneriaeth
- Robeco: darparwr pleidleisio ac ymgysylltu
- Waystone: gweithredwr y gronfa gyfunol
- Northern Trust: ceidwad, ymddiriedolwr, asiantaeth drosglwyddo a gweinyddwr y Gronfa
- Bfinance: Cynghorydd Dyrannu

Ffynhonnell: Partneriaeth Pensiwn Cymru partneriaethpensiwncymru.org

2.16 Swyddogion Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae'r swyddogion allweddol sy'n gyfrifol am faterion buddsoddi Cronfa Bensiynau Clwyd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Philip Latham** Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
Mae ganddo dros 28 mlynedd o brofiad gyda Chronfa Bensiynau Clwyd
- **Debbie Fielder** Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (bellach wedi ymddeol)
Mae ganddi dros 24 mlynedd o brofiad gyda Chronfa Bensiynau Clwyd
- **Ieuan Hughes** Swyddog Buddsoddi Graddedig Dan Hyfforddiant
Mae ganddo dros 5 mlynedd o brofiad ac mae wrthi'n astudio ar gyfer y Dystysgrif Rheoli Buddsoddiadau (IMC) er mwyn gwella ei sgiliau
- **Dave Bateman** Cyfrifydd y Gronfa Bensiynau
Cyfrifydd Cymwysedig C.I.M.A gyda blwyddyn o brofiad gyda Chronfa Bensiynau Clwyd a 27 mlynedd o brofiad blaenorol o fewn adrannau Cyllid awdurdodau lleol.

Gan ragweld ymddeoliad Dirprwy Bennaeth y Gronfa, bu i ni benodi Ieuan Hughes i'r tîm yn 2019, ac mae wedi cael ei hyfforddi ym mhob maes i helpu cefnogi sgiliau a gwybodaeth hanesyddol o fewn y Gronfa a sicrhau parhad i'r dyfodol. Dros y 12 mis diwethaf, mae wedi ymgymryd â chyfrifoldebau buddsoddi ychwanegol ar ôl dangos ei fod yn gallu cefnogi'r Gronfa'n llwyddiannus yn ei gweithgarwch buddsoddi. Mae'r penodiad wedi helpu cynnal y wybodaeth fuddsoddi leol sydd ei hangen i gydweithio â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a'i herio, ar yr un pryd â chefnogi portffolio Marchnadoedd Preifat helaeth y Gronfa, sy'n canolbwyntio'n gryf ar fuddsoddi Lleol / Effaith. Mae'r asedau hyn wedi bod yn allweddol o ran cael effaith leol gadarn ar y gymuned, fel y mae ein dadansoddiad diweddaraf gyda 'The Good Economy' yn ei ddangos. Mae uchafbwyntiau allweddol y buddsoddiadau hyn i'w gweld yn adran (6.11).

Mae Swyddogion y Gronfa'n defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad gyda chymorth eu cynghorwyr i argymhell polisi a strategaeth i'r Pwyllgor Pensiynau. Mae swyddogion yn helpu trefnu a darparu hyfforddiant i'r Pwyllgor ym mhob pwnc gan gynnwys, ond heb fod yn

gyfyngedig i fuddsoddiadau, buddsoddi cyfrifol, stiwardiaeth, rheoli risg, llywodraethu. Drwy hyn, sicrhau bod y Pwyllgor yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i wneud penderfyniadau gwybodus ar bob mater yn ymwneud â'r Gronfa.

Mae swyddogion a gweithwyr fel rheol yn cael cyflog a strwythur buddion sylfaenol nad yw'n cynnwys tâl ar sail perfformiad. Nid oes angen unrhyw gymhellant pellach arnynt gan fod yr holl swyddogion yn credu yn niwylliant a gwerthoedd y Gronfa, ac wedi ymrwymo i redeg y Gronfa mewn ffordd gyfrifol. Gwelir enghraifft o hyn o fewn y portffolio Marchnadoedd Preifat; dim ond i fuddsoddiadau Effaith y mae'r swyddogion yn ystyried ymrwymo cyfalaf, er mwyn canolbwyntio ar y canlyniadau gorau er lles y gymdeithas a chreu effaith gadarnhaol yn lleol.

Mae swyddogion yn cydweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar bob mater sy'n ymwneud â chyfuno ac felly'n rhan fawr o wneud penderfyniadau mewn meysydd megis creu is-gronfeydd newydd, pleidleisio ac ymgysylltu, a monitro rheolwyr cyfunol presennol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn darparu sesiynau hyfforddiant, ac mae llawer o'r rhain yn agored i bob un o aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd.

Mae'r Gronfa'n ystyried cyfuno mwy o asedau gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, a fydd yn galluogi'r Gronfa i ddefnyddio adnoddau'r Bartneriaeth mewn meysydd fel pleidleisio, ymgysylltu a stiwardiaeth. Yn y pen draw, bydd hyn yn lleihau'r pwysau y mae'r Gronfa yn ei wynebu ar hyn o bryd o ran adnoddau.

Fel rhan o gylch gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru i ddarparu strategaeth y Gronfa, mae'r Bartneriaeth hefyd yn gyfrifol am sicrhau y darperir polisi ymgysylltu'r Gronfa. Caiff y cyfrifoldeb hwn ei ddirprwyo ymhellach i Robeco, sydd wedi'u penodi i ymgysylltu ar ran y Bartneriaeth, ac felly'r Gronfa. Mae swyddogion y Gronfa'n rhan o is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth sy'n adolygu gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu ar ran y Gronfa. Mae swyddogion y Gronfa'n ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r rheolwyr Marchnadoedd Preifat i ddod i ddeall sefyllfaoedd diweddaraf y cronfeydd hyn, sut maent yn gweithredu amcanion allweddol ac unrhyw gynlluniau at y dyfodol. Mae aelodaeth y Gronfa o Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF) yn sicrhau bod y Gronfa'n annog ymgysylltiad gyda chwmnïau nad yw'r Gronfa'n berchen arnynt, gan ymestyn stiwardiaeth y system ariannol ehangach ymhellach.

2.17 Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Prif nod Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yw cyflawni swyddogaethau Cyngor Sir y Fflint fel Rheolwr Cynllun ac Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd yn unol â deddfwriaeth y CPLIL.

Nid yw aelodau **Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd** yn ymddiriedolwyr y Gronfa, ond mae ganddynt ddyletswyddau ymddiriedol a chyfraith gyhoeddus i gyflogwyr ac aelodau cynllun y Gronfa, sy'n cyfateb i gyfrifoldebau ymddiriedolwyr yn y sector preifat.

Mae'n bosib y bydd y Pwyllgor hefyd yn dirprwyo ystod gyfyngedig o'i swyddogaethau i un neu fwy o swyddogion Cyngor Sir y Fflint, dan Gynllun Dirprwyo ffurfiol, sy'n sicrhau penderfyniadau prydlon ar lefel briodol.

Ni chaiff unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint fel cyflogwr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiynau Clwyd eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan sicrhau gwahaniaeth amlwg rhwng cyfrifoldebau'r cyflogwr a rhai Rheolwr y Cynllun. Mae gan y Gronfa hefyd bolisi Gwrthdaro Buddiannau sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau'n cyfarfod bum gwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys naw aelod, fel a ganlyn:

- Pump o Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint a bennir gan y Cyngor.
- Pedwar aelod cyfetholedig sy'n cynnwys:
 - Un o Gynghorwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a bennir gan y Cyngor hwnnw.
 - Un o Gynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych, a bennir gan y Cyngor hwnnw.
 - Un Cynrychiolydd ar ran Cyflogwyr eraill y Cynllun (nid cyrff derbyn) yng Nghronfa Bensiynau Clwyd.
 - Un Cynrychiolydd ar ran aelodau cynllun Cronfa Bensiynau Clwyd (a enwebir gan y Cyd-undebau Llafur).

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu dirprwyon enwebedig ar gyfer aelodau Cyngor Sir y Fflint yn unig, ar yr amod eu bod yn bodloni polisi gwybodaeth a sgiliau'r Gronfa Bensiynau. Mae Cynghorwyr Cyngor Sir y Fflint yn cael eu penodi'n flynyddol. Fel arall, mae cylch gorchwyl yr aelodau'n amrywio o bedair i chwe blynedd. Mae'n bosib i aelodau gael eu hailbenodi am dymhorau pellach.

Mae gan bob aelod yr un hawliau pleidleisio, sy'n sicrhau y gall cynrychiolwyr ar ran cyflogwyr ac aelodau'r cynllun gyfrannu'n gyfartal i strategaethau'r Gronfa, gan gynnwys mewn perthynas â buddsoddi a stiwardiaeth a sut y darperir y rhain.

2.18 Swyddog Adran 151: y Rheolwr Cyllid Corfforaethol

Dan fodel gweithredu cyfredol y Cyngor, mae rôl y Prif Swyddog Cyllid (A151) wedi'i dirprwyo i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Felly, mae gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyfrifoldeb statudol dros weinyddiad cyllidol priodol Cronfa Bensiynau Clwyd, yn ychwanegol at Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Swyddog Adran 151 yn gymwys gyda CIPFA ac â phrofiad addas i arwain y swyddogaeth ariannol.

2.19 Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd

Sefydlwyd Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd i ddarparu cyngor a chynnig argymhellion i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, ac i ymgymryd ag unrhyw faterion a ddirprwyir iddo gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- Y Rheolwr Corfforaethol: Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Prif Swyddog Cyllid Cyngor Sir y Fflint
- Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
- Yr Ymgynghorydd Buddsoddi, Mercer
- Actwari'r Gronfa, Mercer
- Cynghorydd Annibynnol, Aon

2.20 Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Er mwyn bodloni gofynion y Llywodraeth i leihau costau sy'n ymwneud â buddsoddi, mae wyth awdurdod gweinyddu CPLIL Cymru, gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint, wedi ymrwymo i Gytundeb Rhwng Awdurdodau i gyfuno asedau cronfeydd pensiwn. Un rhan allweddol o'r ffordd y mae'r gronfa gyfunol yn gweithredu yw drwy benodi Gweithredwr Cynllun Contract Awdurdodedig i wneud buddsoddiadau ar ran yr awdurdodau gweinyddu. Cytunwyd ar hyn yng nghyfarfod Cyngor Sir y Fflint ar 1 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad a'r atodiadau i'w gweld [yma](#).

Dros y cyfnod adrodd, cynhaliodd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ymarfer caffael i benodi Gweithredwr Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi "Gwahoddiad i Dendro" a oedd yn nodi cwestiynau ansoddol a seiliedig ar bris i'r ymgeiswyr eu hateb. Cynhaliwyd proses werthuso fanwl yn cynnwys cynrychiolwyr o'r wyth awdurdod cyfansoddol a Hymans Robertson (cynghorydd trosolwg Partneriaeth Pensiwn Cymru). Yn dilyn y broses hon, cytunodd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu i ailbenodi Waystone i rôl y Gweithredwr.

Mae gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad y Gweithredwr
- Gwneud penderfyniadau ar is-gronfeydd dosbarth asedau i'r Gweithredwr sicrhau eu bod ar gael i weithredu strategaethau buddsoddi unigol yr wyth Cronfa
- Darparu atebolrwydd am reoli'r Gronfa Gyfunol i'r Cronfeydd hynny sy'n rhan ohoni
- Adrodd ar y Gronfa Gyfunol i Lywodraeth y DU a budd-ddeiliaid eraill
- Cael trosolwg o Weithgor Swyddogion

Ein cynrychiolydd ni ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yw Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Yn ei absenoldeb/ei habsenoldeb, bydd yr Is-gadeirydd yn gweithredu fel Dirprwy.

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob Awdurdod Gweinyddu yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae gan bob aelod sy'n bresennol yn y Cyd-bwyllgor Llywodraethu hawl i bleidleisio ac mae gan bob aelod yr un hawliau pleidleisio.

Mae Cyngor Sir Gâr yn gweithredu fel Cyngor Cynnal y gronfa gyfunol, sy'n golygu mai ef sy'n gyfrifol am bethau fel y canlynol:

- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt
- Darparu adnoddau a chyfleusterau gweinyddol, a gwasanaethau llywodraethu a gweinyddu
- Llunio contractau ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau
- Ymgysylltu gyda'r Gweithredwr

2.21 Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cefnogi ac yn cynghori'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar eu cais, yn ogystal ag ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r cytundeb cyfuno a godir gan Swyddogion Adran 151 neu Swyddogion Monitro unrhyw un o'r awdurdodau.

Mae pob awdurdod yn dirprwyo dau swyddog i'r Gweithgor Swyddogion. O ran Cronfa Bensiynau Clwyd, mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa rai o'n swyddogion sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion. Mae hawl gan Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro pob awdurdod i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion.

Mae'r rhestr lawn o gyfrifoldebau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, y Gweithgor Swyddogion a'r Cyngor Cynnal wedi'i chynnwys yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

2.22 Y Bwrdd Pensiwn

Yn unol â deddfwriaeth, rydym wedi sefydlu Bwrdd Pensiwn lleol i helpu gyda'r canlynol:

- sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r CPLIL ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun, a'r gofynion a bennir mewn perthynas â'r CPLIL gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- sicrhau y caiff y Gronfa Bensiynau ei llywodraethu a'i gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon

Nid un o bwyllgorau Cyngor Sir y Fflint yw'r Bwrdd, felly mae'n cynnig elfen o annibyniaeth i oruchwylio rheolaeth y Gronfa. Yn ymarferol, mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Pwyllgor a swyddogion y Gronfa, ac yn cynnig her a mewnbwn adeiladol i strategaethau a threfniadau llywodraethu'r Gronfa, gan gynnwys Stiwardiaeth.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn gyfrwng pwysig er mwyn gallu ystyried safbwyntiau budd-ddeiliaid allweddol y Gronfa, h.y. aelodau (buddiolwyr) a chyflogwyr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys pum aelod fel a ganlyn:

- Dau Gynrychiolydd ar ran y Cyflogwyr
- Dau Gynrychiolydd ar ran Aelodau'r Cynllun, yr enwebir un ohonynt gan y cyd-undebau llafur
- Un Aelod Annibynnol sy'n gweithredu fel Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn.

Mae gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn, ac eithrio'r Aelod Annibynnol, hawliau pleidleisio unigol, ond y disgwyl yw y bydd y Bwrdd Pensiwn yn dod i gonsensws, cyn belled ag y bo hynny'n bosib.

Ystyrir bod cyfarfod y Bwrdd Pensiwn yn gworwm pan fydd o leiaf tri o'r pum aelod yn bresennol, gan gynnwys o leiaf un Cynrychiolydd ar ran y Cyflogwyr, un Cynrychiolydd ar ran Aelodau'r Cynllun a'r Aelod Annibynnol.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn ddatgan, wrth gael eu penodi ac ym mhob cyfarfod, unrhyw fuddiannau a allai arwain at wrthdaro buddiannau mewn perthynas â materion y Gronfa Bensiynau neu'r eitemau ar y rhaglen.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cyfarfod o leiaf ddwywaith a dim mwy na phedair gwaith ym mhob blwyddyn galendr yn ystod busnes arferol. Mae'n bosib trefnu cyfarfodydd ychwanegol.

Egwyddor 3

Pwrrpas a Llywodraethu

“Mae llofnodwyr yn rheoli unrhyw wrthdaro o ran buddiannau er mwyn blaenoriaethu budd pennaf cleientiaid a buddiolwyr”

3.1 Mae gwrthdaro buddiannau wedi bodoli erioed ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau awdurdod gweinyddu CPLIL, yn ogystal ag ar gyfer cynghorwyr cronfeydd CPLIL. Yn syml, mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd gan nifer o'r rhai sy'n rheoli neu'n cynghori cronfeydd CPLIL nifer o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft fel aelod o'r cynllun, fel gweithiwr neu aelod etholedig cyflogwr sy'n rhan o'r CPLIL, neu fel cynghorydd ar gyfer mwy nag un o awdurdodau gweinyddu'r CPLIL. Yn ogystal â hynny, efallai y bydd gan un o'r unigolion hyn gysylltiadau personol, busnes neu gysylltiadau eraill sy'n gwrthdaro, neu sydd i'w gweld yn gwrthdaro, gyda'u rôl o reoli neu gynghori cronfeydd CPLIL.

3.2 Mae gan awdurdodau gweinyddu'r CPLIL ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus ac ymddiriedol i weithredu er budd pennaf buddiolwyr y cynllun a'r cyflogwyr sy'n rhan ohono. Nid yw hyn yn golygu na all yr unigolion hynny sy'n rhan o reoli'r Gronfa ddal rolau neu gyfrifoldebau eraill, a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib, felly mae'n arfer da cofnodi sut y bydd gwrthdaro neu ddarpar wrthdaro o'r fath yn cael ei reoli.

3.3 Mae'r Gronfa'n cydnabod y gallai gwrthdaro godi ac wedi cynhyrchu Polisi Gwrthdaro Buddiannau, er nad yw hynny'n ofyniad cyfreithiol. Mae ein Polisi'n nodi sut y caiff gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosib eu nodi a'u rheoli gan y rhai sy'n gysylltiedig â rheoli a llywodraethu'r Gronfa, yn uniongyrchol neu mewn modd cynghorol. Sefydlwyd y Polisi i roi arweiniad i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn, swyddogion a chynghorwyr, a'i nod yw sicrhau nad yw'r unigolion hynny'n ymddwyn yn amhriodol nac yn creu argraff eu bod wedi ymddwyn yn amhriodol. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ddilyn arferion gorau wrth lywodraethu, gan annog tryloywder a lleihau'r risg o unrhyw ragfarn wrth wneud penderfyniadau neu wrth reoli'r Gronfa. Mae hefyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol wrth i sefyllfaoedd ddatblygu.

3.4 Mae ein Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn berthnasol i holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn, gan gynnwys cynrychiolwyr aelodau a chyflogwyr y cynllun. Mae'n berthnasol i Dîm Rheoli'r Gronfa Bensiynau ac uwch swyddogion eraill sydd ynghlwm â rheoli'r Gronfa. Mae'r Polisi'n dirprwyo'r cyfrifoldeb cyffredinol o weithredu ei gofynion i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd hefyd yn monitro gwrthdaro posib ar gyfer pob swyddog sy'n ymwneud â rheolaeth ddyddiol y Gronfa Bensiynau ac yn tynnu eu sylw at y Polisi hwn, fel y maent yn ei ystyried yn briodol.

3.5 Rhaid ystyried y Polisi hwn a'r mater o wrthdaro buddiannau yn gyffredinol yng ngoleuni rôl pob unigolyn, p'un a yw hon yn rôl reoli, cynghori neu gynorthwyo, gan gynnwys cyfrifoldebau sy'n cynrychioli'r Gronfa ar bwyllgorau, grwpiau a chyryff eraill.

3.6 Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i holl gynghorwyr a chyflenwyr y Gronfa, boed hynny'n cynghori'r Bwrdd Pensiwn, Pwyllgor y Gronfa Bensiynau neu swyddogion y Gronfa.

3.7 Mae'r Polisi i'w weld ar wefan y Gronfa
cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx

3.8 Yn ogystal â hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cytuno ar Bolisi Gwrthdaro Buddiannau sy'n berthnasol i'r rheiny sydd ynghlwm â'r Bartneriaeth, gan gynnwys aelodau'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu (sy'n cynnwys Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd).

3.9 Mae ein Polisi'n cynnwys gweithdrefnau (a amlinellir isod) y mae'n rhaid i bob unigolyn y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt eu dilyn. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau (gan gynnwys aelodau cyfetholedig) yn dilyn a chadw at ofynion Rhan 3 Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Sir y Fflint sy'n ymwneud â thrin a datgelu rhai cysylltiadau personol sy'n rhagfarnu. Ar gyfer yr aelodau hynny, efallai y bydd datgeliadau dan y polisi hwn yn ychwanegol at ddatgeliadau dan God Ymddygiad y Cyngor.

3.10 Caiff swyddogion Cronfa Bensiynau Clwyd eu cyflogi gan y Cyngor ac maent yn destun trefniadau tâl arferol. Nid yw'r swyddogion yn derbyn unrhyw dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad, nac unrhyw gymhelliant i fuddsoddi gyda dosbarthiadau asedau penodol neu reolwyr buddsoddi. Dim ond am y Gronfa Bensiynau y mae Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a'r swyddogion eraill yn gyfrifol, ac nid oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau eraill o fewn eu rolau mewn perthynas â'r Cyngor.

3.11 Yn 2021, penodwyd Debbie Fielder, Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, i fwrdd Pensions for Purpose fel Cyfarwyddwr Anweithredol. Mae Pensions for Purpose yn ceisio hybu arferion gorau mewn perthynas â meysydd buddsoddi. O ganlyniad, diweddarodd Debbie ei datganiad Gwrthdaro Buddiannau a rhoddodd wybod i bawb a oedd angen gwybod am y penodiad.

Beth mae'n rhaid ei wneud	Sut bydd hyn yn cael ei wneud
Cam 1: Nodi buddiannau sydd neu a allai achosi gwrthdaro yn y lle cyntaf	Wrth gael eu penodi i'w rôl neu pan fydd y Polisi hwn yn dechrau, os yw ar ôl hynny, bydd pob unigolyn yn cael copi o'r Polisi hwn a bydd rhaid iddynt lenwi Datganiad Cysylltiad. Bydd y wybodaeth yn y datganiadau hyn yn cael eu casglu ynghyd yng Nghofrestr Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa Bensiynau.
Cam 2: Parhau i hysbysu am, a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib	Ar ddechrau unrhyw un o gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, y Bwrdd Pensiwn neu gyfarfod ffurfiol arall lle trafodir materion yn ymwneud â'r gronfa bensiynau, bydd y Cadeirydd yn gofyn i bawb sy'n bresennol, y mae'r Polisi hwn

	yn berthnasol iddynt, ddatgan unrhyw wrthdaro newydd posib. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a hefyd yng Nghofrestr Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa. Yn ogystal, bydd fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr ar gael drwy Bennaeth y Gronfa Bensiynau i Gadeirydd pob cyfarfod cyn y cyfarfod hwnnw os bydd angen. Ar ddechrau cyfarfodydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, bydd eitem ar y rhaglen a fydd yn gofyn i Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau dan God yr Aelodau mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen. Os bydd unrhyw un yn credu fod ganddo ef/hi neu aelod arall gysylltiad gwirioneddol neu bosib sy'n gwrthdaro, fel y diffinnir gan y Polisi hwn, ag eitem o fusnes mewn cyfarfod, rhaid iddynt roi gwybod i'r Cadeirydd a Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd cyn y cyfarfod, os yn bosib, neu ddatgan hynny'n glir yn y cyfarfod ar y cyfle cyntaf posib. Dylai'r Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, benderfynu wedyn a oes angen i'r unigolyn â chysylltiad gwirioneddol neu bosib adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth am y mater perthnasol neu ymatal rhag pleidleisio ar y mater. Os sylwir ar wrthdaro o'r fath y tu allan i'r cyfarfod, rhaid hysbysu Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, ac os yw'n ymwneud â busnes unrhyw gyfarfod, Cadeirydd y cyfarfod hwnnw hefyd. Bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd lle bo'n briodol, yn ystyried unrhyw gamau angenrheidiol i reoli'r gwrthdaro gwirioneddol neu bosib. Os cafwyd gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosib, gall Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ofyn am gyngor proffesiynol yn ôl eu doethineb (megis cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro) ar sut i fynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro a nodwyd. Rhaid cofnodi unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosib a'r camau a gymerwyd yng Nghofrestr Gwrthdaro Buddiannau'r Gronfa ac yng nghofnodion y cyfarfod os cafodd ei godi yn y cyfarfod.
Cam 3: Adolygiad cyfnodol o wrthdaro gwirioneddol a phosib	O leiaf unwaith bob 12 mis, bydd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn darparu copi i bob unigolyn y mae'r Polisi hwn yn berthnasol iddynt o'u datganiad o faterion sy'n achosi gwrthdaro buddiannau o ran y Gronfa Bensiynau. Bydd pob unigolyn yn cadarnhau bod eu gwybodaeth yn gywir neu'n amlygu unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud.

Egwyddor 4

Pwrrpas a Llywodraethu

“Mae llofnodwyr yn nodi ac yn ymateb i risgiau systemig ar draws y farchnad i hyrwyddo system ariannol sy’n gweithio’n dda”

4.1 Mae Rheoliad Buddsoddi 7(2) (C) y CPLIL yn ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd ddisgrifio eu hymagwedd at risg o fewn eu portffolio buddsoddi, gan gynnwys rhoi crynodeb o’r risgiau allweddol a manylion yr ymagwedd at liniaru’r risg (pan fo hynny’n bosib neu’n briodol).

4.2 Amcanion buddsoddi allweddol y Gronfa yw ceisio cael digon o elw buddsoddi dros ben o’i gymharu â thwf rhwymedigaethau i fodloni’r amcanion cyllido’n barhaus, gan gynnal cydbwysedd priodol rhwng perfformiad buddsoddi cyson hirdymor a’r amcanion cyllido.

4.3 Pennir proffil risg ac elw strategol cyffredinol y Gronfa ar hyn o bryd drwy ei ddyraniad asedau strategol. Wrth sefydlu ein dyraniad asedau strategol hirdymor, neu ein meincnod strategol, y ffactorau allweddol yw lefel gyffredinol yr elw a geisir, lefel isaf y risg sy’n gyson â hyn, ac effaith arallgyfeirio wrth leihau’r risg hon ymhellach. Ar lefel mandad neu ddosbarth asedau, pwysiadau dosbarth asedau, meincnodau priodol a thargedau perfformiad terfynol yw’r blociau adeiladu allweddol wrth lunio strategaeth gyffredinol y Gronfa. Rydym yn cydnabod bod stiwardiaeth dda yn golygu rheoli risgiau’n dda, ac mae gan y Gronfa Bolisi Rheoli Risgiau a Chofrestr Risgiau, sydd ill dau wedi’u diweddarau’n ddiweddar.

4.4 Mae’r Polisi Rheoli Risgiau yn amlinellu’n glir sut mae’r Gronfa’n nodi, yn rheoli ac yn monitro’r holl risgiau y mae’n eu hwynebu. Mae’r polisi hefyd yn amlinellu ei amcanion, sef:

- integreiddio rheoli risgiau yn niwylliant a gweithgareddau dyddiol y Gronfa
- codi ymwybyddiaeth o’r angen i reoli risgiau ymysg pawb sy’n gysylltiedig â rheoli’r Gronfa (gan gynnwys cynghorwyr, cyflogwyr a phartneriaid eraill)
- rhagweld ac ymateb yn gadarnhaol i newid
- lleihau’r tebygolrwydd o ganlyniadau negyddol ar gyfer y Gronfa a’i budd-ddeiliaid
- sefydlu a chynnal fframwaith a gweithdrefnau cadarn er mwyn adnabod, dadansoddi, asesu a rheoli risgiau, ac adrodd am, a chofnodi digwyddiadau, yn seiliedig ar arferion gorau
- sicrhau bod y fethodoleg rheoli risgiau’n cael ei gweithredu’n gyson ar draws holl weithgareddau’r Gronfa Bensiynau, gan gynnwys prosiectau a phartneriaethau.

4.5 Mae gan y Gofrestr Risgiau adran benodol ar gyfer Risgiau Cyllido a Buddsoddi (gan gynnwys cyfrifo ac archwilio). Mae risgiau asedau/buddsoddiadau penodol a amlygir yn y Gofrestr Risgiau yn cynnwys rhai sy’n ymwneud â marchnadoedd buddsoddi, methiant rheolwyr i gyflawni eu hamcanion, methu cyfleoedd y farchnad, a hylifedd. Caiff y Gofrestr Risgiau ei hadolygu bob mis bellach, gyda’r risgiau allweddol yn cael eu hystyried yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a’r Panel Ymgynghorol.

4.6 Er mwyn ein galluogi i reoli risg a chyflawni ein hamcanion, mae'r Gronfa'n ceisio cydymffurfio â'r canlynol:

- Cyhoeddiad Rheoli Risg CIPFA
- Elfennau rheoli risg canllawiau Egwyddorion Llywodraethu Cyfuno Buddsoddiadau CIPFA
- Elfennau rheoli risg Deddf Pensiynau 2004 a Chod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau (a chanllawiau perthnasol eraill)

4.7 Bydd y Pwyllgor yn trafod y risgiau y mae'r Gronfa'n eu hwynebu a sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli. Dyma'r naw categori risg sydd yn adran gyllid a buddsoddi'r Gofrestr Risg ar hyn o bryd:

- Mae cyfraniadau'r cyflogwyr yn anfforddiadwy a/neu'n ansefydlog
- Mae yna ostyngiad yn lefel y cyllid, sy'n cynyddu'r diffyg / lleihau'r arian dros ben
- Nid yw targedau buddsoddi'n cael eu cyflawni, sy'n arwain at ostwng diddyledrwydd / cynyddu cyfraniadau
- Mae gwerth rhwymedigaethau'n cynyddu wrth i chwyddiant/arenillion y farchnad symud yn anghyson â rhagdybiaethau actiwaraid
- Mae gwerth rhwymedigaethau/cyfraniadau yn newid gan fod y ddemograffeg yn anghyson â'r rhagdybiaethau
- Nid yw'r amcanion a/neu strategaethau buddsoddi a/neu gyllido yn addas at y diben mwyach
- Dim digon o asedau hylifol neu arian parod i dalu buddion
- Colli incwm cyflogwyr a/neu'r cyflogwyr eraill yn dod yn gyfrifol am dalu eu diffygion
- Mae Strategaeth Fuddsoddi Hirdymor y Gronfa yn methu cyflawni ei hamcanion a'i huchelgais fel Buddsoddwr Cyfrifol.

4.8 Mae Datganiad ein Strategaeth Fuddsoddi hefyd yn mynd i'r afael â risgiau perthnasol eraill megis risg diddyledrwydd a pharu, risg rheolwyr, risg hylifedd, risg wleidyddol, risg llywodraethu corfforaethol, risg ddeddfwriaethol, risg y farchnad (risg arian cyfredol, risg cyfraddau llog a risg chwyddiant). Yn y pen draw, mae'r Gronfa'n ceisio rheoli'r risg hon drwy'r polisi strategol, sy'n sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu hamrywio ar draws ystod o farchnadoedd a dosbarthiadau o asedau sydd â chydberthyniad isel â'i gilydd, ac ar draws detholiad o reolwyr.

4.9 Yn 2014, bu i ni sefydlu'r Fframwaith Rheoli Risg ac Arian Parod. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:

- Monitro Lefelau Cyllido
- Rhagfantoli Atebolrwydd
- Portffolio Ecwiti Synthetig
- Rhagfantoli Arian Cyfred
- Strategaeth rheoli sicrwydd cyfochrog

Yn dilyn adolygiad strategaeth 2023, ailenwyd y fframwaith yn Fframwaith Reoli Risgiau ar ôl datblygu sefyllfa strategol ar wahân ar gyfer arian parod a hylifedd, er mwyn cefnogi taliadau buddion aelodau a defnyddio buddsoddiadau Marchnadoedd Preifat.

Monitro Lefelau Cyllido

Cyn mis Mawrth 2024, roedd gan y Gronfa drothwy lefel cyllido o 110%, gyda Mercer yn monitro'r lefel gyllido fras bob dydd ac yn adrodd yn ffurfiol i'r Grŵp Rheoli Risg a Chyllido bob mis. Pe bai'r monitro dyddiol bras yn dangos bod y trothwy 110% wedi'i gyrraedd, byddai proses y cytunwyd arni yn cael ei dilyn (fel yr amlinellwyd yn y ddogfen "Dirprwyo Swyddogaethau i Swyddogion gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau") er mwyn cadarnhau'n ffurfiol p'un ai oedd y trothwy wedi'i gyrraedd a p'un ai oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r strategaeth.

Ddiwedd mis Chwefror 2024, torrwyd y trothwy lefel cyllido o 110%, a sbardunodd drafodaethau yn y Grŵp Rheoli Risgiau a Chyllido i gadarnhau'r toriad trothwy yn ffurfiol. Cyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor, a chafodd ei gadarnhau ganddo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Ar sail y camau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw yn y ddogfen Dirprwyo Swyddogaethau i Swyddogion gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, cytunodd y Pwyllgor i leihau risg y strategaeth fuddsoddi drwy ostwng amlygiad ecwiti targed y Gronfa o 45% i 35% o gyfanswm asedau'r Gronfa.

Rhaglen rhagfantoli atebolrwydd, yn rheoli risg chwyddiant a chyfradd llog y Gronfa

Ym mis Mawrth 2014, bu i ni sefydlu rhaglen rhagfantoli atebolrwydd a oedd yn cynnwys risgiau chwyddiant a chyfraddau llog. Cytunwyd ar 'lwybr targed' i gynyddu lefel yr amddiffyniad ar sail trothwyon arenillion y farchnad, i sicrhau bod risgiau'n cael eu lleihau ar adegau ffafriol. Ers mabwysiadu'r llwybr targed, mae nifer o drothwyon marchnad wedi'u rhoi ar waith.

Fel rhan o gylch adolygu prisiad actiwaraid a strategaeth fuddsoddi 31 Mawrth 2022, cynhaliodd swyddogion ac ymgynghorwyr actiwaraid a buddsoddiad y Gronfa adolygiad o'r llwybr targed, gan wneud newidiadau i'r gyfradd llog a'r trothwyon chwyddiant er mwyn ystyried newidiadau i amodau'r farchnad.

Yn dilyn argyfwng giltiau 2022, cyflwynwyd rheoliad sy'n golygu bod rhagfantoli cyfraddau llog a chwyddiant wedi dod yn fwy dwys o ran cyfalaf. O ystyried hyn a gofynion hylifedd ehangach y Gronfa, mae fframwaith trothwy'r farchnad wedi'i oedi ar hyn o bryd. Ers 31 Mawrth 2024, mae'r Gronfa'n targedu amlygiad cyfraddau llog a chwyddiant o tua 29% a thua 19% o asedau'r Gronfa, yn y drefn honno.

Portffolio ecwiti synthetig, yn dod i gysylltiad ag ecwitiaïau gan ragfantoli'r risg negyddol

Bu i ni roi strategaeth ecwiti synthetig ar waith er mwyn cynyddu ei botensial elw disgwyledig mewn ffordd sy'n effeithlon o ran cyfalaf. Er mwyn rheoli'r risgiau negyddol

sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ecwiti synthetig, rhoddwyd strategaeth diogelu ecwiti sefydlog ar waith, i warchod rhag gostyngiadau yn y farchnad ecwiti ar y datgeliad ecwiti. Roedd hyn yn ei le rhwng Ebrill 2017 a Mai 2018.

Ym mis Mai 2018, rhoddwyd strategaeth ddiogelu ddeinamig newydd ar waith. Mae hwn yn cynnig mwy o hyblygrwydd a llai o lywodraethu parhaus o'i gymharu â'r dull sefydlog blaenorol, gan ei fod yn caniatáu i'r strwythur addasu'n haws i amodau newidiol y farchnad.

Bu i ni ychwanegu amlygiad ecwiti synthetig ychwanegol ddiwedd 2022, i ddisodli'r ecwitiau ffisegol a werthwyd i ddarparu sicrwydd cyfochrog i'r portffolio LDI. Sefyllfa tymor byr yw'r ecwiti synthetig hwn er mwyn cynnal ein dyraniad strategol i ecwiti. Cafwyd gwared â hwn dros 2024, gan daro'r trothwy lefel cyllido o 110%.

Strategaeth rhagfantoli arian cyfred

Ym mis Awst 2019, bu i ni roi strategaeth rhagfantoli arian cyfred ar waith i leihau'r risg y byddai punt gryfach yn gostwng yr elw ar ein daliadau ecwiti tramor ffisegol, ar ôl i'r sterling fod yn gwanhau'n gyson hyd yma. Fel deiliaid asedau tramor, rydym wedi elwa'n sylweddol ar y cwmp mewn sterling yn dilyn refferendwm yr UE, ac roeddem eisiau lleihau risg arian cyfred drwy gloi cyfran o'r enillion a wnaed hyd yma.

Strategaeth rheoli sicrwydd cyfochrog

Mae'r strategaethau uchod yn defnyddio deilliadau ac felly'n galw am roi sicrwydd cyfochrog o'r neilltu er mwyn cefnogi'r sefyllfaedd ac amddiffyn y Gronfa (a chyd-bartion) rhag y risg o ddiffygdalu. Mae angen cydbwysedd rhwng dal digon o sicrwydd cyfochrog i gefnogi'r strategaethau yn erbyn symudiad arwyddocaol a sydyn mewn marchnadoedd, yn erbyn dal gormod fel ei fod yn llesteirio adenillon y Gronfa.

Er mwyn rheoli'r cydbwysedd hwn, rhoddodd y Gronfa strategaeth rheoli sicrwydd cyfochrog ar waith. Sicraodd hyn bod y Gronfa'n dal y swm gofynnol o sicrwydd cyfochrog i gefnogi'r strategaethau, gydag unrhyw sicrwydd cyfochrog dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn cronfeydd arenillion uwch y gellir eu gwerthu'n sydyn pe bai angen mwy o sicrwydd cyfochrog. Helpodd hyn i gynhyrchu enillion ychwanegol a lleihau baich y llywodraeth ar y Gronfa, gan arwain at well effeithlonrwydd.

Bu i'r rheoliad a gyflwynwyd yn dilyn argyfwng giltiau 2022 gryfhau'r gofynion o ran sicrwydd cyfochrog, ac ers 31 Mawrth 2024, mae holl sicrwydd cyfochrog y Gronfa bellach yn cael ei ddal o fewn y portffolio Insight fel arian parod a giltiau. Rydym yn asesu'r sicrwydd cyfochrog yn y portffolio Insight bob mis ac yn trefnu sicrwydd cyfochrog dros ben i fodloni anghenion hylifedd a llif arian parod yn ôl yr angen. Gellir symud sicrwydd cyfochrog dros ben i'r dyraniad hylifedd strategol a'i fuddsoddi mewn cronfeydd ag arenillion uwch er mwyn cynhyrchu elw ychwanegol.

4.10 Fel Cronfa, rydym yn cydnabod bod newid hinsawdd yn cyflwyno risg ariannol systemig y mae'n rhaid mynd i'r afael â hi, ac ers sawl blwyddyn bellach, mae ein polisi Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn ganolbwynt allweddol. Mae ein polisi yn amlinellu'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol isod:

- Gwerthuso a rheoli cysylltiad â charbon;
- Nodi cyfleoedd buddsoddi cynaliadwy;
- Gwella datgeliad cyhoeddus ac adrodd;
- Mynd ati i ymgysylltu ar risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG);
- Cod Stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC).

4.11 Mae'r amcanion cyfrifol isod yn amlinellu'r amcanion o fewn Datganiad diwygiedig y Strategaeth Fuddsoddi:

- Sicrhau bod ei strategaeth at y dyfodol, ei gweithredoedd rheoli buddsoddiadau a'i gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynaliadwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r pontio i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau carbon deuocsid sero net erbyn 2045.
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaliadwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.
- Ceisio defnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel dewis cyntaf i fuddsoddi asedau'r Gronfa, yn ddibynnol arni'n gallu bodloni gofynion strategaeth ac amcanion buddsoddi'r Gronfa (gan gynnwys gofynion cynaliadwyedd), o fewn costau hirdymor derbyniol i ddarparu'r buddion disgwylidig, ac yn amodol ar barhau i fod yn hyderus yn nhrefniadau llywodraethu'r Bartneriaeth.

4.12 Mae canllawiau Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn nodi y dylai awdurdodau gweinyddu ymrwymo i'r Cod, ac yn datgan sut maent yn gweithredu'r egwyddorion ar sail "cydymffurfio neu egluro". Yn ymarferol, rydym yn parhau i gymhwyso gofynion y Cod drwy ei drefniadau gyda'i reolwyr asedau a drwy aelodaeth o LAPFF. Fel aelod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru, rydym yn disgwyl i'r Bartneriaeth a rheolwyr y cronfeydd gwaelodol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel darparwr pleidleisio ac ymgysylltu ac maent yn helpu i lunio a chynnal polisi pleidleisio ac egwyddorion ymgysylltu sy'n cyd-fynd â LAPFF. Yn ogystal, mae Robeco'n gyfrifol am weithredu'r polisi pleidleisio ac adrodd arno.

4.13 Rydym wedi parhau i ymgysylltu dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf gyda chydweithwyr awdurdodau lleol, rheoleiddwyr a chyrff diwydiannol fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i wella gweithrediad marchnadoedd ariannol, gan gynnwys parhau ein haelodaeth barhaus â LAPFF a'r Gymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes (PLSA). Rydym yn ymgysylltu â phob un o'n rheolwr asedau a benodwyd yn uniongyrchol i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cynaliadwyedd, ac un ffordd y gall y diwydiant rheoli cronfeydd ddangos ei fod o ddifrif am ei gyfrifoldebau yw ymrwymo i Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (UN PRI). Mae gofyn i gwmnïau sydd wedi ymrwymo i UN PRI ymrwymo i chwech o egwyddorion sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori egwyddorion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) ym mhob agwedd o'u gwaith.

4.14 Rydym wedi ymgysylltu a chyfranogi'n gyson mewn mentrau gyda LAPFF drwy'r aelodaeth. Ni oedd yr ail aelod i ymuno â LAPFF yng Nghymru, gan ddod yn aelod yn y 2000au cynnar.

4.15 Rydym wedi parhau i fod yn rhan weithgar ac wedi cyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi yng Nghronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy newydd y Bartneriaeth ym mis Mehefin 2023. Roedd swyddogion y Gronfa yn rhan bwysig o ddatblygu Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy'r Bartneriaeth, ynghyd â chronfeydd Cymreig eraill. Rydym wedi dangos ein huchelgais a'n cymhelliant i hyrwyddo buddsoddiad cynaliadwy ledled Cymru, a fydd o fudd i Gronfa Bensiynau Clwyd yn ogystal â chronfeydd Cymreig eraill sydd wedi buddsoddi ym Mhartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn Egwyddor 10.1.

4.16 Nid ydym yn gosod unrhyw ddisgwyliadau penodol ar gyfer y Bartneriaeth, ond mae swyddogion y Gronfa yn weithgar o fewn gweithgorau'r Bartneriaeth, megis yr Is-weithgor Buddsoddi Cyfrifol. Mae hyn yn gadael i ni gymryd rôl weithgar wrth lunio a thrafod penderfyniadau am gynhyrchu'r is-gronfeydd newydd sydd ar gael i bob awdurdod cyfansoddol yng Nghymru.

Y disgwyliad o ran rheolwyr asedau heb eu cyfuno yw y bydd Mercer yn argymhell y rheolwyr hynny â'r sgorau ESG uchaf, ym marn Mercer, i ddyrannu ein cyfalaf iddynt. Drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, bu i ni gynnal cyfarfodydd dethol rheolwyr Marchnadoedd Preifat gyda chymorth Mercer, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi Lleol / Effaith. Rydym yn disgwyl i Mercer gynnig dewisiadau cynaliadwy a charbon isel i'n buddsoddiadau drwy ei Ddyraniad Asedau Tactegol pan fo hynny'n bosib. Ceir tystiolaeth o hyn drwy argymhellid Mercer i newid yr LGIM North American Equity Index Fund i'r LGIM Future World North American Equity Index Fund – GBP Currency Hedged. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn adran 7.6.

Egwyddor 5

Pwrrpas a Llywodraethu

“Mae llofnodwyr yn adolygu eu polisiau, yn sicrhau eu prosesau ac yn asesu effeithlonrwydd eu gweithgareddau”

5.1 Caiff gweithdrefnau a pholisiau'r Gronfa eu hadolygu'n rheolaidd gan ein swyddogion, Pwyllgor, Panel Ymgynghorol ac mewn rhai sefyllfaoedd, gan y Bwrdd Pensiynau. Mae'r adolygiadau hyn yn cefnogi ein gweithgarwch stiwardiaeth. Caiff Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi a Datganiad y Strategaeth Gyllido eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Pensiynau, a'u hadolygu o leiaf bob tair blynedd, i gyd-fynd â phrasiad actiwaraid teirblwydd y Gronfa. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi cael eu hadolygu'n amlach yn y blynnyddoedd diwethaf, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod ein polisiau'n parhau i fod yn briodol ac yn datblygu wrth i amgylchiadau newid. Nod yr adolygiad o Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi a Datganiad y Strategaeth Gyllido yw nodi a gweithredu unrhyw welliannau i brosesau er mwyn adlewyrchu mentrau sy'n datblygu / dod i'r amlwg yn y diwydiant neu newidiadau statudol gofynnol. Gall yr adolygiad o'r polisiau hyn arwain at ddrafftio polisiau a gweithdrefnau pellach. Er enghraifft, gall swyddogion y Gronfa / Mercer ychwanegu atynt fel y byddant yn ei ystyried yn briodol. Mae ein polisiau diweddaraf i'w gweld ar wefan y Gronfa drwy ddilyn y ddolen isod: Mae gan **Bolisiau Cronfa Bensiynau Clwyd** a phob strategaeth a pholisi allweddol gyfnod adolygu penodol.

5.2 Bydd swyddogion y Gronfa'n mynd ati'n rheolaidd i adolygu gwybodaeth a ddarperir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â gweithgarwch stiwardiaeth. Caiff y wybodaeth hon, ynghyd ag adroddiadau perthnasol eraill am bleidleisio ac ymgysylltu, ei rhannu gyda'r Pwyllgor bob chwarter.

5.3 Rydym wedi ymrwymo i adolygu cydymffurfiaeth y Gronfa â Chod Stiwardiaeth diweddaraf y Cyngor Adrodd Ariannol, a disgwyliwn i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a rheolwyr y cronfeydd gwaelodol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel darparwr pleidleisio ac ymgysylltu, ac maent yn helpu diweddarau a chynnal polisi pleidleisio ac egwyddorion ymgysylltu sy'n cyd-fynd â LAPFF. Yn ogystal, mae Robeco yn gyfrifol am roi'r polisi pleidleisio ar waith ac adrodd arno.

5.4 Rydym yn defnyddio sawl ffordd o geisio sicrwydd mewn perthynas â stiwardiaeth y Gronfa, er enghraifft:

- Caiff Adroddiad Blynnyddol a Datganiadau Ariannol y Gronfa eu harchwilio'n allanol; cafwyd barn archwilio ddiamod am y cyfrifon diweddaraf i gael eu harchwilio ar gyfer Mawrth 2023, a oedd yn gynrychioli “barn deg a chywir” o drafodion ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn a chydbwysedd yr asedau a'r dyledion ar ddiwedd y flwyddyn.
- Bydd ein swyddogion yn cynnal adolygiad blynnyddol yn erbyn Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, er mwyn nodi cydymffurfiaeth a methiant i gydymffurfio.

- Bydd y Gronfa'n mynd ati'n rheolaidd i gomisiynu adolygiad o effeithiolrwydd, gan ofyn i aelodau'r Pwyllgor/Bwrdd am eu barn am effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Gronfa.
- Bydd y cynghorydd annibynnol yn cynnal adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Gronfa, yn erbyn fframwaith llywodraethu arferion gorau Aon. Drwy geisio sicrwydd allanol gan drydydd parti annibynnol, gall y Gronfa a'i budd-ddeiliaid fod yn hyderus o gael barn ddiduedd a diragfarn o effeithiolrwydd ein prosesau stiwardio.
- Pan fydd angen adnewyddu contractau, byddwn yn dilyn polisïau caffael llym y Cyngor fel yr amlinellir yn Rheolau Sefydlog Contractau Sir y Fflint, sy'n cynnwys polisi ar gaffael cyfrifol i sicrhau bod pob caffaeliad gwerth uchel yn canolbwyntio ar ddarparu gwerth am arian a chyflawni buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol.
- Ar y cyfan, mae gan ein polisïau a'n strategaethau amcanion a mesurau wedi'u diffinio'n glir, sy'n llywio cynnwys yr adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor.

5.5 Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Hymans Robertson yn Gyngorwyr Goruchwylio. Mae eu rôl yn cynnwys goruchwylio a chynnig cyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwyr, agweddau buddsoddi strategol a chefnogaeth rheoli prosiectau. Un o rolau parhaus y Cyngorydd Goruchwylio yw asesu sut y rheolir yr Is-gronfeydd a phrofi'r prosesau a ddefnyddir, fel yr amlinellir uchod. Mae Hymans yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion.

5.6 Mae'r Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol wedi gweithio ar ddatblygu adroddiadau ar nodweddion risg ESG a hinsawdd yr Is-gronfeydd, ac mae'n bwriadu cyflwyno'r wybodaeth hon i'r awdurdodau cyfansoddol. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu paratoi'n annibynnol ar yr adroddiadau a ddarperir gan y rheolwr buddsoddi, sy'n golygu eu bod yn cadarnhau'r wybodaeth sydd ar gael fel arall. Mae Robeco hefyd yn darparu adroddiadau chwarterol ar weithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu, a rannwyd gyda'r awdurdodau cyfansoddol.

Egwyddor 6

Dull Buddsoddi

“Mae Llofnodwyr yn cymryd anghenion buddiolwyr a chleientiaid i ystyriaeth ac yn rhoi gwybod iddynt am weithgarwch a chanlyniadau eu stiwardiaeth a’u buddsoddiad”

6.1 Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhan o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sef cynllun gwasanaeth cyhoeddus statudol sy’n darparu buddion diffiniedig i’w aelodau wedi’u seilio ar eu henillion a hyd eu gwasanaeth, a chaiff ei weinyddu gan Gyngor Sir y Fflint ar ran yr holl gyflogwyr yn y Gronfa. Caiff buddion eu hariannu gan gyfraniadau aelodau a chyflogwyr ac enillion buddsoddiadau. Fodd bynnag, mae buddion aelodau wedi’u gwarantu, felly waeth sut mae’r buddsoddiadau’n perfformio, bydd yr aelodau’n dal i gael eu pensiynau, gyda’r baich yn disgyn ar y trethdalwyr yn y pen draw os nad yw’r enillion o’r buddsoddiadau’n ddigon i dalu pensiynau’r dyfodol.

6.2 Nid ydym yn ceisio barn yr aelodau am stiwardiaeth, ond byddwn yn ymgynghori â’r Cyflogwyr wrth bennu neu adolygu polisiau. Mae Pwyllgor y Gronfa hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo strategaeth fuddsoddi a Datganiad Strategaeth Fuddsoddi’r Gronfa. Fel y soniwyd eisoes, mae’r Pwyllgor yn cynnwys 5 Cynghorydd a 4 aelod cyfetholedig, y mae un ohonynt yn cynrychioli aelodau cynllun y Gronfa.


Mae’r Gronfa a’i swyddogion wedi ymdrechu erioed i ystyried buddsoddi cyfrifol, ond maent yn nodi na fyddent yn dilyn gweithgarwch buddsoddi cyfrifol pe bai disgwyl iddo wrthdaro â chyfrifoldeb ymddiriedol y Gronfa.

Drwy bortffolio Effaith y Gronfa, rydym wedi dangos ei bod wedi gallu cyflawni perfformiad cadarnhaol cryf yn ogystal â chael effaith gadarnhaol. Cynhyrchodd y portffolio hwn elw o +6.4% a +22.4% dros y cyfnodau o 1 a 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2024, yn y drefn honno. Mae buddsoddiadau o’r fath wedi ceisio cefnogi’r cymunedau lleol yng Nghymru. Mae un o’r buddsoddiadau diweddaraf yng Nghronfa Ynni Glân Cymru *Capital Dynamics* yn enghraifft dda o’r buddsoddiadau y mae’r Gronfa wedi’u gwneud i gynhyrchu enillion ariannol a chael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth achos hon i’w gweld yn adran 7.12.


6.3 Er bod y rhan fwyaf o’r aelodau’n weithwyr (neu’n gyn weithwyr) yr awdurdod lleol, gall gweithwyr eraill ymuno â’r cynllun os ydynt yn darparu gwasanaethau ar ran (neu ochr yn ochr â) gwasanaethau awdurdodau lleol, megis contractwyr, cymdeithasau tai ac elusennau.

6.4 Adeg prisiad 31 Mawrth 2022, roedd yna tua 50,000 o aelodau. Y tri awdurdod unedol yw cyflogwyr mwyaf Cronfa Bensiynau Clwyd, gan gynrychioli 83% o gyfanswm yr aelodau ar ddyddiad y prisiad diwethaf. Mae'r aelodaeth fesul categori a chyflogwr i'w gweld yn y siartiau isod:

Aelodaeth yn ôl Cyflogwr



Rhaniadau'r Aelodau



Ffynhonnell: Mercer. Ar 31 Mawrth 2024, yn seiliedig ar y data a ddarparwyd ar gyfer y prisiad actiwaraid ar 31 Mawrth 2022.

6.5 Mae dyraniad strategol y Gronfa, ynghyd â'r asedau a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2024, i'w weld isod:

Dosbarth Asedau	31 Mawrth 2024 (£m)	31 Mawrth 2024 (%)	Dyraniad Strategol (%)
Ecwiti Byd-eang ¹	344.5	13.9	15.0
Cronfeydd Rhagfantoli	121.1	4.9	0.0
Portffolio Dyraniad Tactegol	283.3	11.4	11.0
Credyd Aml-ased	251.5	10.2	12.0
Fframwaith Rheoli Risg	653.2	26.4	28.0
Arian Parod Strategol a Hylifedd	125.1	5.1	5.0
Eiddo Tirol (Marchnadoedd Preifat)	113.6	4.6	4.0
Lleol / Effaith (Marchnadoedd Preifat)	142.8	5.8	8.0
Coed / Amaethyddiaeth (Marchnadoedd Preifat)	9.5	0.4	0.0
Ecwiti Preifat (Marchnadoedd Preifat)	219.7	8.9	8.0
Isadeiledd (Marchnadoedd Preifat)	148.3	6.0	6.0
Dyledion Preifat (Marchnadoedd Preifat)	62.6	2.5	3.0
Cyfanswm Cronfa Bensiynau Clwyd	2,475.2	100.0	100.0

Ffynhonnell: Rheolwyr Buddsoddi. Mae'n bosib na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu.

¹Mae hwn yn cynnwys dyraniad targed o 15% i Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn adran 6.8.

* Mae'r cyfansymiau'n cynnwys asedau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru ac asedau heb eu cyfuno; mae'r tabl nesaf yn dangos y rhaniadau o ran asedau cyfunol a heb eu cyfuno.

6.6 Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn erbyn Cronfeydd Eraill:


Asedau Cyfunol	31 Mawrth 2024 (£miliwn)	Pwysau (%)	Pwysau Strategol (%)
Ecwiti Byd-eang ¹	344.5	13.9	15.0
Credyd Aml-ased	251.5	10.2	12.0
Ecwiti Preifat y Bartneriaeth (Marchnadoedd Preifat)	16.5	0.7	8.0**
Isadeiledd y Bartneriaeth (Marchnadoedd Preifat)	15.4	0.6	6.0**
Dyledion Preifat y Bartneriaeth (Marchnadoedd Preifat)	4.7	0.2	3.0**
Cyfanswm Asedau'r Bartneriaeth	632.7	25.6	44.0
Asedau Heb eu Cyfuno			
Cronfeydd Rhagfantoli	121.1	4.9	0.0
Portffolio Dyraniad Tactegol	283.3	11.4	11.0
Eiddo Tirol (Marchnadoedd Preifat)	113.6	4.6	4.0
Lleol / Effaith (Marchnadoedd Preifat)	142.8	5.8	8.0
Coed / Amaethyddiaeth (Marchnadoedd Preifat)	9.5	0.4	0.0
Ecwiti Preifat (Marchnadoedd Preifat)	203.2	8.2	8.0 ²
Isadeiledd (Marchnadoedd Preifat)	132.8	5.4	6.0 ²
Dyledion Preifat (Marchnadoedd Preifat)	57.9	2.3	3.0 ²
Fframwaith Rheoli Risg	653.2	26.4	28.0
Arian Parod Strategol a Hylifedd	125.1	5.1	5.0
Cyfanswm yr Asedau nad ydynt yn rhai'r Bartneriaeth	1,842.5	74.4	73.0
Cyfanswm Asedau	2,475.2	100.0	100.0

Ffynhonnell: Rheolwyr Buddsoddi. Mae'n bosib na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu.

Sylwch: Mae arian parod yn cynrychioli arian parod yn y Cyfrif Banc Ymddiriedolwyr. Mae asedau cyfunol yn ymwneud ag asedau a fuddsoddwyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

¹Mae hwn yn cynnwys dyraniad targed o 15% i Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy. Rhagor o wybodaeth yn adran 6.8.² mae'r dyraniad targed yn cynnwys asedau cyfunol a heb eu cyfuno

6.7 Rhaniadau Daearyddol



Ffynhonnell: Rheolwyr Buddsoddi. Mae'n bosib na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu. Mae'r cyfansymiau'n ffigurau bras wedi'u seilio ar ddadansoddiad lefel uchel o asedau dan reolaeth ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r siartiau uchod yn dangos rhaniadau daearyddol yr asedau presennol dan reolaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ar 31 Mawrth 2024.

Asedau cyfredol y Gronfa a fuddsoddwyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru oedd tua 26%, sy'n golygu bod tua 74% o'r asedau wedi'u buddsoddi y tu allan i'r gronfa gyfunol.

Marchnadoedd Preifat

6.8 Rydym wedi ymrwymo erioed i wneud penderfyniadau cyfrifol a gweithredu mewn modd cyfrifol. Yn 2012, bu i ni ymgysylltu â'r rheolwyr ar faterion yn ymwneud ag ESG drwy anfon arolygon at yr holl reolwyr Marchnadoedd Preifat ar faterion o'r fath. Yn 2017, roedd gennym bolisi cynaliadwyedd ar waith, a hynny cyn i unrhyw ofyniad ffurfiol am un ddod i rym. Ar y pryd, roeddem yn cefnogi buddsoddiadau oedd â ffocws cryf ar effaith / cynaliadwyedd a bu i ni gynyddu ein dyraniad i isadeiledd o 4% i 8%, gan roi pwyslais amlwg ar ynni glân. Bu i ni hefyd ysgrifennu at bob rheolwr Ecwiti Preifat ac asedau gwirioneddol i ganfod sut roedd y buddsoddiadau cyfredol yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (UNSDG).

6.9 Mae gennym ddyraniad targed o 8% ar hyn o bryd i fuddsoddiadau Lleol/Effaith yn ein portffolio Marchnadoedd Preifat. Gellir gwneud buddsoddiadau o fewn y portffolio Marchnadoedd Preifat Lleol/Effaith yn unrhyw ddosbarth asedau, cyn belled â bod gan y strategaeth naill ai ffocws amlwg ar Effaith neu fandad i fuddsoddi'n lleol o fewn y Deyrnas Unedig. Pan fo'n bosib, ystyrir buddsoddiadau lleol i Gymru.

Y tu hwnt i'r portffolio Lleol/Effaith, rydym hefyd yn ymdrechu i wneud buddsoddiadau sydd â ffocws ar effaith neu gynaliadwyedd ar draws y portffolio Marchnadoedd Preifat ehangach (Ecwiti Preifat, Dyledion Preifat, Isadeiledd ac Eiddo Tirol) pan fo hynny'n bosib, yn amodol ar y cyfleoedd buddsoddi priodol sydd ar gael yn y farchnad.

Mae stiwardiaeth wedi'i integreiddio ym mhroses ddethol y rheolwyr drwy broses sgorio ESG Mercer. Mae hon yn edrych ar yr arferion ESG (amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol) sydd ar waith ar lefel y rheolwr a'r gronfa, ac yn rhoi sgôr i'r strategaeth rhwng ESG1 ac ESG4 (ESG1 yw'r sgôr uchaf ac ESG4 yw'r isaf). Rhaid i bob strategaeth yr ystyrir ei chynnwys ym mhortffolio Marchnadoedd Preifat y Gronfa fod wedi cael sgôr o ESG2 o leiaf gan Mercer.

Buddsoddiadau a wnaed yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

Rheolwr Marchnad Breifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Q-Energy Private Equity	Q-Energy Fund V	~10
Ambienta	Ambienta Sustainable Credit Opportunities	~10
Bridges Fund Management	Bridges Property Alternatives Fund VI	10
Mercer	Mercer Private Investment Partners VII – Global Impact	40

Sylwch: ~Pan fo'n briodol, mae symiau ymrwymiad mewn Ewros (€) a Doleri'r UDA (\$) wedi'u trosi'n symiau ymrwymiad mewn Sterling (£) gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid adeg cyflawni'r ymrwymiad.

Mae manylion pellach am y 5 ymrwymiad i'w gweld yn Egwyddor 7.

6.10 Cyn gwneud ymrwymladau Marchnadoedd Preifat, byddwn yn derbyn adroddiad ymchwil gan Mercer ar bob ymrwymiad posib. Yn yr adroddiadau hyn, rhoddir sgôr ESG i bob cronfa ac mae adran arbennig yn yr adroddiad ar gyfer ESG. Byddwn yn cymryd y sgoriau hyn i ystyriaeth wrth benderfynu a ydym am ymrwymo i reolwr Marchnadoedd Preifat penodol ai peidio.

6.11 Rydym wedi defnyddio 'The Good Economy' (TGE) am yr ail flwyddyn i asesu effaith gymdeithasol buddsoddiadau Marchnadoedd Preifat y Gronfa sydd wedi'u seilio yn lleol ac ar leoedd ar 31 Mawrth 2024. Gan ddefnyddio Fframwaith Adrodd ar Effaith yn Seiliedig ar Le y TGE, mae TGE wedi mapio a dosbarthu cyfraniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygiad economaidd cynhwysol y mae portffolio buddsoddiadau'r Gronfa yn eu gwneud. Mae hyn yn caniatáu i'r Gronfa gyfleu ei heffaith gymdeithasol yn eglur ac yn effeithiol i fudd-ddeiliaid y Gronfa. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod ein hasedau wedi gallu gwneud y canlynol:

- Cefnogi 73 o fusnesau drwy ecwiti neu gyllido dyled, gydag 20 ohonynt yng Nghymru.
- Mae'r busnesau hyn yn cyflenwi dros 15,280 o swyddi, sef 8% o'r swyddi yng Nghymru.
- Creu o leiaf 1,380 o swyddi newydd, gydag 11% ohonynt mewn busnesau yng Nghymru.
- Creu 2,540 o gartrefi i dros 6,300 o bobl. Mae 26% o'r cartrefi'n Fforddiadwy.
- Cefnogi cartrefi pobl hŷn ar gyfer hyd at 338 o breswylwyr.
- Darparu llety i tua 1,700 o fyfyrwyr.
- Cefnogi 35 o gyfleusterau addysgol, gan gynnwys 2 ysgol Anghenion Addysg Arbennig ("AAA").
- Creu lleoedd i 2,804 o blant ychwanegol mewn ysgolion meithrin.
- Cefnogi 3 cyfleuster iechyd ac 1 cyfleuster dŵr a gwastraff.

- Cefnogi 67 prosiect eiddo tirol, gyda 36 ohonynt yn rhai masnachol sy'n cefnogi mannau cyflogaeth i tua 7,440 o bobl (28% yn yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yn y DU).
- Cefnogi 662 o swyddi Cyflog Byw Gwirioneddol parhaol a 109 o rai tymhorol.
- Ymrwymo tua £50 miliwn i ddatblygu prosiectau ynni glân yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau pellach o sut mae'r buddsoddiadau'n cefnogi Cymru, a'r DU, i'w gweld yn adroddiad llawn TGE.

6.12 Rydym yn defnyddio dull hirdymor mewn perthynas â'n strategaethau buddsoddi a chyllido, o ystyried natur hirdymor y taliadau i fuddiolwyr dros sawl degawd. Prif amcan buddsoddi'r Gronfa felly yw cyflawni elw buddsoddi dros ben digonol o'i gymharu â thwrf rhwymedigaethau i ddiwallu'r amcanion cyllido a amlinellir uchod yn barhaus, gan gynnal cydbwysedd priodol rhwng perfformiad buddsoddiadau cyson hirdymor a'r amcanion cyllido. Golyga hyn ein bod yn defnyddio dull hirdymor o fuddsoddi yn reddfodol er mwyn cydweddu ein buddsoddiadau gyda'n dyledion hirdymor.

6.13 Pennir ein strategaethau yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr sy'n gyflogwyr ac yn aelodau'r cynllun. Mae gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn hefyd y cyfle i ddylanwadu ar y strategaethau buddsoddi wrth iddynt gymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Yn ogystal, rhennir Datganiad y Strategaeth Buddsoddi a Datganiad y Strategaeth Gyllido â phob cyflogwr fel rhan o'r ymgynghoriad.

6.14 Roeddem yn ddylanwad allweddol yn y penderfyniad i ychwanegu aelod cyfetholedig ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu i sicrhau bod cynrychiolaeth aelodau'r cynllun ar y corff sy'n ymgymryd â gwaith ymgysylltu ar ran y Gronfa.

6.15 Mae ein Strategaeth Gyfathrebu i'w gweld yma:

cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx

Nod y Strategaeth Gyfathrebu hon yw sicrhau bod aelodau'r cynllun yn deall buddion y cynllun a bod yr holl fudd-ddeiliaid yn cael gwybod am ddatblygiadau o fewn y Gronfa Bensiynau, a bydd cyfathrebu effeithiol hefyd yn helpu cynnal gweithrediad effeithlon y Cynllun. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

6.16 Mae cyfathrebu effeithiol yn hyrwyddo'r CPLIL fel budd, felly'n lleihau effaith gwybodaeth gamarweiniol yn y cyfryngau.

6.17 Rydym yn cyhoeddi ein Strategaeth Gyfathrebu ar lein, gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Gwella profiadau ac ehangu'r hunanwasanaeth i aelodau
- Nodi ffyrdd mwy doeth o weithio mewn perthynas â chyfathrebu
- Symleiddio'r iaith a chyfathrebu'n fwy cryno
- Adfywio hunaniaeth weledol y Gronfa
- Ehangu sianeli darparu i aelodau
- Datblygu dull o ymgysylltu yn ôl segmentau

6.18 Ein hamcanion pennaf mewn perthynas â chyfathrebu yw:

- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y Cynllun a darparu digon o wybodaeth fel bod budd-ddeiliaid yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Cyfathrebu mewn ffordd eglur a chryno.
- Sicrhau ein bod yn defnyddio'r dull mwyaf priodol o gyfathrebu, gan ystyried anghenion amrywiol y gwahanol fudd-ddeiliaid, ond gan ddefnyddio gohebiaeth electronig yn y lle cyntaf pan fo gwneud hynny'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Chwilio am ffyrdd cost-effeithlon ac amgylcheddol gyfrifol o gyfathrebu drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth.
- Gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau cyfathrebu'n rheolaidd a llunio cyfryngau cyfathrebu'r dyfodol mewn ffordd briodol.

O ran cyfathrebu gydag aelodau, mae'r Gronfa'n awyddus i ddefnyddio gweithgarwch ymgysylltu i:	O ran cyfathrebu gyda chyflogwyr, mae'r Gronfa'n awyddus i ddefnyddio gweithgarwch ymgysylltu i:
• Gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion y cynllun pensiwn a sut mae'n gweithio. • Annog aelodau i gymryd perchnogaeth o'u pensiwn a deall buddion ehangach y cynllun pensiwn. • Cynnal a datblygu profiadau cadarnhaol i aelodau ar bob cam o'u taith, ble bynnag y bônt ar eu taith. • Lleihau'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb a galwadau ffôn.	• Gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r wybodaeth y mae'r Gronfa ei hangen gan gyflogwyr. • Annog aelodau i gymryd perchnogaeth o'r data a helpu eu gweithwyr i ddeall buddion ehangach y cynllun pensiwn. • Cynnal a datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r cyflogwyr beth bynnag fo'u maint neu eu harbenigedd o ran pensiynau. • Rheoli'r Gronfa'n fwy effeithiol ar gyfer y Gronfa a'r cyflogwyr.

6.19 Rydym yn cyfathrebu gyda'n haelodau drwy sawl dull, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r isod. Ein gwefan a'n Hadroddiadau Blynyddol yw'r ddau brif ddull o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am weithgarwch buddsoddi a stiwardiaeth y Gronfa:

Dull Cyfathrebu	Disgrifiad
Gwefan	Mae ein Gwefan Gymraeg neu Saesneg ar gael i bawb. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y Gronfa a'r CPLIL. Gall aelodau lawrlwytho gwybodaeth a ffurflenni'r cynllun. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun hefyd i'w gweld ar wefan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cenedlaethol yn

	www.lgpsmember.org (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Rhaid i wefan Cronfa Bensiynau Clwyd gydymffurfio â safonau cenedlaethol mewn perthynas â hygyrchedd y wefan a strwythur y cynnwys.
Hunanwasanaeth Aelodau (HWA)	Mae'r Hunanwasanaeth Aelodau ar gael i aelodau cynllun y Gronfa. Mae'n galluogi aelodau i fewngofnodi i ardal ddiogel ar y we i weld y wybodaeth sydd ar eu cofnod yn y Gronfa. Mae rhai o'r cyfleusterau sydd ar gael i aelodau'n cynnwys: gallu diweddarau eu manylion personol, diweddarau datganiadau mynegi dymuniad grant marwolaeth, cyfrifo amcangyfrifon ymddeol ac adolygu Datganiadau Buddion Blynnyddol ar lein. Rhennir gohebiaeth electronig yn uniongyrchol ag aelodau'r cynllun drwy'r cyfleuster Hunanwasanaeth Aelodau; bydd aelodau fel arfer yn cael hysbysiad dros e-bost yn gofyn iddynt fewngofnodi i'r Hunanwasanaeth Aelodau i weld y wybodaeth berthnasol.
Datganiad Buddion Blynnyddol	Dosbarthir y datganiadau hyn bob blwyddyn i aelodau gweithredol a gohiriedig y cynllun. Rhennir y datganiadau hyn gydag aelodau drwy eu cyfrifon Hunanwasanaeth Aelodau ac mae modd eu lawrlwytho hefyd. Bydd rhaid i'r aelod wneud cais i ni anfon datganiad papur i gyfeiriad eu cartref.
Newyddlenni Cyffredinol	Rydym yn cyhoeddi newyddlen gyfnodol o'r enw Penpal i aelodau sy'n cyfrannu, gan dynnu eu sylw at wybodaeth fel newidiadau i reolau'r cynllun, ac mae'n cynnwys Ffeithiau a Ffigyrau pwysig o'r Adroddiad Blynnyddol. Cyhoeddir y newyddlen unwaith y flwyddyn. Rydym hefyd yn anfon newyddlen unwaith y flwyddyn at bensiynwyr y Gronfa o'r enw Pytiau Pensiwn Clwyd. Caiff hon ei hanfon fel arfer gyda'r hysbysiad cynnydd pensiynau blynnyddol ac mae'n egluro sut y caiff y gyfradd pensiynau flynyddol newydd ei chyfrifo. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyfoes, e.e. mewn perthynas â'r gyllideb a budd-daliadau'r Wladwriaeth.
Adroddiad Blynnyddol	Mae'r Adroddiad Blynnyddol yn cael ei gyhoeddi i amlygu perfformiad y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hefyd yn cynnwys datganiadau sy'n ymwneud ag egwyddorion buddsoddi, strategaeth ariannu, risg, llywodraethu, archwilio a gweinyddu. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

6.20 Er mwyn sicrhau bod cyflwyniad y strategaeth gyfathrebu yn datblygu, rydym eisiau sicrhau ein bod yn bodloni ei hamcanion, sydd wedi'u nodi yn adran 6.17. Byddwn yn gwneud hyn drwy fonitro'r cynnydd fel y gwelir isod:

Amcan/Mesur	Monitro	Targedau penodol
Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cynllun/Gronfa a sut mae'n gweithio.	- Adborth drwy grwpiau gwrandio ac arolygon blynyddol i aelodau a chyflogwyr. Casglu adborth anffurfiol pan anfonir unrhyw wybodaeth allan. - Monitro cwynion a chanmoliaethau mewn negeseuon e-bost a galwadau ffôn i'r Gronfa gan aelodau a chyflogwyr.	Arolygon: 90% yn ymatebion cadarnhaol.
Meithrin a chynnal profiadau cadarnhaol i aelodau/perthynas gadarnhaol â chyflogwyr.	- Adborth drwy arolygon blynyddol penodol i aelodau a chyflogwyr a grwpiau gwrandio: targed o 90% o ymatebion cadarnhaol. - Monitro cwynion a chanmoliaethau mewn negeseuon e-bost a galwadau ffôn i'r Gronfa gan aelodau.	
Sicrhau ein bod yn defnyddio'r modd mwyaf priodol o gyfathrebu, gan ystyried anghenion amrywiol y gwahanol fudd-ddeiliaid.	Adborth drwy grwpiau gwrandio ac arolygon blynyddol penodol i aelodau a chyflogwyr.	

• Annog aelodau / cyflogwyr i gymryd perchnogaeth o'u pensiwn / y wybodaeth angenrheidiol.	• Olrhain y defnydd o fideos a phodlediadau. • Olrhain cofrestriadau â MSS (aelodau). • Olrhain faint o bobl sy'n dilyn y dolenni yn yr holl negeseuon ar-lein. • Monitro'r defnydd o'r wefan.	• Defnydd o fideos, podlediadau, cyfathrebu ar lein a'r wefan – cynnydd parhaus. • Cofrestriad â MSS: cynnydd o 5% y flwyddyn yn y gyfran o aelodau sy'n cofrestru, gyda tharged hirdymor o 75% o bob aelod gweithredol a gohiriedig wedi cofrestru.
• Lleihau'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb a galwadau ffôn gan aelodau'r cynllun.	• Olrhain galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb aelodau.	• Gostyngiad parhaus.
• Rheoli'r Gronfa'n fwy effeithiol ar gyfer y Gronfa a'r cyflogwyr. • Chwilio am ffyrdd cost-effeithlon ac amgylcheddol gyfrifol o gyfathrebu drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth.	• Monitro llwyth gwaith y Tîm Gweinyddu mewn perthynas ag ymholiadau neilltuol. • Olrhain negeseuon e-bost, galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb aelodau. • Olrhain cofrestriadau â MSS (aelodau). • Sicrhau defnydd gorfodol o i-Connect gan bob cyflogwr. • Olrhain faint o bobl sy'n dilyn y dolenni yn yr holl negeseuon ar-lein.	• Ymholiadau neilltuol, negeseuon e-bost, galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb – gostyngiad parhaus. • Cofrestriad â MSS: cynnydd o 5% y flwyddyn yn y gyfran o aelodau sy'n cofrestru, gyda tharged hirdymor o 75% o bob aelod gweithredol a gohiriedig wedi cofrestru. • Cofrestriad ag i-Connect: 100% o'r cyflogwyr.
• Arfarnu effeithiolrwydd cyfathrebu'n gyson a llunio cyfryngau cyfathrebu'r dyfodol mewn ffordd briodol.	• Adolygu'r cynllun a'r strategaeth gyfathrebu'n rheolaidd ar sail y gwaith monitro y soniwyd amdano uchod.	

6.21 Fel y nodwyd eisoes yn adran 6.15, dylai'r Strategaeth Gyfathrebu ddiweddaraf olygu bod cyfran fwy o fudd-ddeiliaid yn derbyn gohebiaeth berthnasol a phenodol, ac yn deall buddion y cynllun, gan leihau'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb (dros y we neu fel arall) a galwadau ffôn sy'n aneffeithlon ac yn dangos diffyg cyfathrebu amgen effeithiol.

Yn dilyn rhoi'r Strategaeth Gyfathrebu ddiweddaraf ar waith dros gyfnod 2022/2023:

- Dosbarthwyd arolygon boddhad i bob aelod a chyflogwr. Roedd nifer yr ymatebion gan aelodau ychydig yn uwch na meincnod y diwydiant o 5%, sy'n gadarnhaol.
- Fel rhan o'r arolwg boddhad, gofynnwyd i aelodau'r cynllun roi eu manylion os hoffent wirfoddoli i fod yn rhan o Grŵp Ffocws Cyfathrebu. Gwirfoddolodd cyfanswm o 73 o aelodau, o bob math o aelodaeth. Mae llythyrau cydnabod wedi cael eu hanfon gyda manylion camau gweithredu'r grŵp ffocws cyntaf (os yw'n berthnasol i'w haelodaeth).

Egwyddor 7

Dull Buddsoddi

“Mae llofnodwyr yn integreiddio stiwardiaeth a buddsoddiad mewn modd systematig, gan gynnwys materion llywodraethu, cymdeithasol ac amgylcheddol materol, a’r newid yn yr hinsawdd, i gyflawni eu cyfrifoldebau.”

7.1 Rydym yn cydnabod bod risgiau ESG (gan gynnwys newid hinsawdd) yn peryglu sefydlogrwydd cyffredinol yr economi a’r wlad, a allai gael effaith ar aelodau, cyflogwyr a daliadau’r portffolio. Er nad oes rhaid i’r Gronfa ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd, mae’r Pwyllgor yn credu bod ystyried y risgiau hyn yn hanfodol ar gyfer y Gronfa fel buddsoddwr cynaliadwy hirdymor. Yn ogystal â chreu risg, mae ESG hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i wneud buddsoddiadau dethol sy’n cyflawni’r enillion gofynnol, gan gael effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol ar yr un pryd, fel isadeiledd amgylcheddol ac ynni glân.

7.2 Mae ein Pwyllgor Pensiynau’n credu y dylid ystyried risgiau ESG (gan gynnwys newid hinsawdd) fel blaenoriaeth barhaus ac y dylid rheoli’r risgiau hynny yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor fel yr amlinellir yn ei gredoau buddsoddi. Mae ystyriaethau ESG yn rhan hanfodol o’n strategaeth fel buddsoddwr hirdymor ac fe’u hystyriwyd fel rhan o adolygiad tair blynedd y strategaeth a gynhaliwyd ddiwedd 2022/ddechrau 2023. Un newid allweddol mewn perthynas ag ystyried risgiau ESG oedd yr ymrwymiad newydd o 15% i Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru.

7.3 Bydd y Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn cefnogi ein hamcanion Buddsoddi Cyfrifol penodol gyda’r amcanion cyllido a buddsoddi penodol canlynol:

- Sicrhau bod strategaeth y Gronfa at y dyfodol, ei gweithredoedd rheoli buddsoddiadau a’i gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynaliadwyedd.
- Sicrhau bod buddsoddiadau’r Gronfa’n cyd-fynd â’r pontio i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2045.
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaliadwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi’r egwyddorion hynny ar waith.

7.4 Fel rhan o’n hymrwymiad i Fuddsoddi Cyfrifol, rydym wedi mynd ati i werthuso a rheoli amlygiad carbon ein buddsoddiadau er mwyn helpu sicrhau pontio effeithiol i economi carbon isel. Fel rhan o’r gwaith hwn, mae gan y Pwyllgor strategaeth i gyflawni allyriadau sero net o’i bortffolio buddsoddi. Yn benodol, cytunodd y Pwyllgor ar darged i’r buddsoddiadau yn y Gronfa yn gyffredinol, sef sicrhau allyriadau carbon sero net erbyn 2045, gyda tharged interim o leihau nwyon tŷ gwydr o 50% erbyn 2030. Wrth wraidd yr ymrwymiad hwn, mae gan y Gronfa nifer o dargedau allweddol eraill fel yr amlinellir isod:

Bod y Gronfa yn gyffredinol:

- yn sicrhau bod o leiaf 30% o asedau'r Gronfa wedi'u dyrannu i fuddsoddiadau cynaliadwy erbyn 2030 (gweler egwyddor 4.11 am amcanion cyfrifol pellach o fewn Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi);
- yn ehangu mesuriad allyriadau carbon buddsoddiadau'r Gronfa i gynnwys cymaint o gydrannau'r asedau ag sy'n bosib, ar sail y data dibynadwy a chywir sydd ar gael.

O fewn y portffolio Ecwiti Rhestredig:

- sicrhau gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o 36% erbyn 2025 a 68% erbyn 2030;
- gosod targed o fuddsoddi'r holl bortffolio Ecwiti Rhestredig mewn mandadau cynaliadwy erbyn 2030;
- ymgysylltu â'r llygryddion mwyaf ym mhortffolio Ecwiti Rhestredig y Gronfa fel rhan o strategaeth stiwardiaeth ac ymgysylltu gyffredinol, er mwyn cyflawni:
 - erbyn 2025, bod gan o leiaf 70% o'r cwmnïau mewn sectorau carbon-ddwys strategaethau clir a chredadwy er mwyn cyflawni sero net, neu eu bod wrthi'n ymgysylltu i gyflawni'r amcan hwn.
 - erbyn 2030, bod gan o leiaf 90% o'r cwmnïau mewn sectorau carbon-ddwys strategaethau clir a chredadwy er mwyn cyflawni sero net, neu eu bod wrthi'n ymgysylltu i gyflawni'r amcan hwn.

Byddwn yn monitro'r targedau hyn ac yn adrodd yn eu herbyn o leiaf unwaith y flwyddyn, ac mae'n bosib y byddwn yn eu hadolygu a'u diwygio fel bo'n briodol, yn enwedig i sicrhau bod targedau ac uchelgeisiau yn cyd-fynd â datblygiadau a mentrau cenedlaethol a rhyngwladol.

Er mwyn cynyddu proses ddatgarboneiddio'r Gronfa ar hyd llwybr 2045 at sero net, rydym yn cydnabod y bydd ymgysylltu'n flaenoriaeth o fewn ecwitiai rhestredig o ystyried mai dim ond un gronfa ecwiti rhestredig rydym bellach yn ei dal. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ein dadansoddiad diweddaraf ar fetrigau, ac yn ystyried cyflwyno rhestr darged newydd ar gyfer ymgysylltu ar yr hinsawdd i dargedu ein 10 prif gyfranwyr i ôl troed carbon ar allyriadau cwmpas 1 a 2.

Yn ogystal, rydym wedi dechrau ehangu cwmpas ein dadansoddiad i gynnwys dosbarthiadau asedau pellach mewn Marchnadoedd Preifat, ar ôl datblygu templed newydd yn dilyn canllawiau diweddaraf yr IIGCC. Fel rhan o'r ymarfer hwn, ein nod yw targedu rheolwyr Ecwiti Preifat, Lleol/Effaith, Isadeiledd, Eiddo Tirol a Dyledion Preifat.

Yn ystod y cyfnod, cytunodd y Pwyllgor ar 'Bolisi Gwaharddiadau' mewn perthynas â'r ddaliadau ecwiti rhestredig. Mae'r Polisi Gwaharddiadau i'w weld isod er gwybodaeth.

Polisi Gwaharddiadau

Rydym wedi datblygu fframwaith asesu polisi gwaharddiadau a byddwn yn mynd ati i ddatblygu cynllun i roi'r gwaharddiadau canlynol ar waith:

Bydd y polisi'n gwahardd cwmnïau sy'n torri'r trothwyon canlynol	Amcan Isaf	Uchelgais y Gronfa
[x%] neu fwy o refeniw o fforio, cloddio, echdynnu, dosbarthu a/neu buro glo a choedlo	1%	Yr un fath
[x%] neu fwy o refeniw o Olew: cwmnïau sy'n ymwneud â fforio, echdynnu, puro a/neu ddosbarthu tanwydd olew.	10%	1%
[x%] neu fwy o refeniw o Nwy: cwmnïau sy'n ymwneud â fforio, echdynnu, gweithgynhyrchu neu ddosbarthu cymysgeddau o hydrocarbonau, hydrogen a charbon monocsid sy'n bresennol mewn cyflwr nwyol.	50%	1%

Mae'r polisi uchod yn berthnasol i'r asedau ecwiti rhestredig ffisegol i gychwyn. Y rheswm am hyn yw mai'r rhan hwn o'r portffolio sydd â'r data mwyaf cynhwysfawr a chywir er mwyn dadansoddi a monitro'r polisi mewn ffordd gadarn a chost effeithiol. Nod y Gronfa yw defnyddio'r polisi gwaharddiadau gyda phob rhan o'r portffolio dros amser, ar sail y data cadarn sydd ar gael a pha mor ymarferol yw ei roi ar waith.

Ein nod yw rhoi'r polisi gwaharddiadau "Uchelgais y Gronfa" uchod ar waith. Rydym yn cydnabod mai ychydig o opsiynau sydd yna ar gyfer y polisi hwn ar hyn o bryd. O ganlyniad, rydym wedi sefydlu polisi gwaharddiadau "Amcan Isaf", sy'n unol â'r Meincnod sy'n cydfynd â Chytundeb Paris, ac felly'n haws ei gyflawni.

Rydym yn cydnabod y bydd angen gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru er mwyn rhoi'r polisi gwaharddiadau ar waith. O ystyried natur cronfa gyfunol y buddsoddiadau, byddwn yn defnyddio dull ymdrechion gorau ac yn cydnabod y gallai hyn arwain at ddal cwmnïau nad ydynt yn gyson â'r polisi gwaharddiadau uchod.

7.5 Mae'r Gronfa wedi buddsoddi mewn amrywiaeth eang o ddosbarthiadau asedau gyda gwahanol reolwyr buddsoddi, ond nid yw wedi cynnal unrhyw dendrau ffurfiol yn ystod y cyfnod. Mae'r Gronfa'n symud yn bennaf tuag at asedau sydd wedi'u cyfuno o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ar hyn o bryd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru'n rheoli strategaethau credyd aml-asedau ac ecwiti'r Gronfa, yn ogystal â chyfran o'r mandadau Marchnad Breifat, a cheir manylion am hyn yn adrannau 6.5 a 6.6.

Mae'r Bartneriaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Waystone (gweithredwr y grŵp) a Russell i weithredu'r is-gronfeydd y mae Cronfa Pensiynau Clwyd yn buddsoddi ynddynt.

Mae'r Bartneriaeth hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Robeco i oruchwylio datblygiad polisi a gweithredu camau pleidleisio ac ymgysylltu o fewn y polisiau cytunedig. Y Bartneriaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu cronfeydd a pholisiau priodol ac am barhau i oruchwylio ei bartneriaid.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth a Chronfeydd eraill o fewn y gronfa gyfunol i ddatblygu a phenodi cronfeydd newydd, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Yn ystod 2021/22, roedd swyddogion y Gronfa ynghlwm â chaffael Dyranwyr Marchnadoedd Preifat ar gyfer y Bartneriaeth. Roedd hyn yn cynnwys cytuno ar fanyleb ar gyfer y tendr, gan gynnwys adran ar ESG. Roedd cyfanswm o 25 cwestiwn penodol ar ESG, ac mae enghreifftiau o'r rhain i'w gweld isod:

- A yw eich cwmni wedi ymrwymo i God Stiwardiaeth y DU ar hyn o bryd?
- Beth yw athroniaeth ESG eich cwmni?
- Disgrifiwch sut caiff ESG ei integreiddio i'r broses fuddsoddi.
- A ddefnyddir unrhyw adnoddau neu sefydliadau allanol i ddadansoddi ESG?
- A yw ESG wedi ei ymgorffori mewn adroddiadau?
- A oes gan eich cwmni bolisiau ar waith mewn perthynas ag amrywiaeth a chynhwysiant? Os felly, disgrifiwch a nodwch i ba raddau y caiff eu heffaith ei holrhain.
- A oes gan eich cwmni bolisiau ar waith mewn perthynas â hawliau dynol ac atal caethwasiaeth fodern? Os felly, nodwch ddisgrifiad ac unrhyw gynlluniau i'w datblygu ymhellach.
- A yw eich cwmni'n cefnogi ac yn adrodd yn erbyn y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)?

Roedd y broses gaffael a sefydlu Dyranwyr Marchnadoedd Preifat i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn dal i gael ei datblygu yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae mwyafrif y dyranwyr Marchnadoedd Preifat wedi cael eu dethol, gyda'r Gronfa'n dyrannu drwy'r dyranwyr hyn i Ecwiti Preifat, Isadeiledd, Dyledion Preifat ac Eiddo Tirol. Fodd bynnag, mae rhai dyraniadau sy'n ymwneud â buddsoddiadau Lleol/Effaith yn cael eu gwneud y tu allan i'r gronfa gyfunol. Rydym wedi parhau i gymryd argymhellion gan ein Ymgynghorydd Buddsoddi, sef Mercer, mewn perthynas â dyraniadau i'w gwneud i gronfeydd Marchnadoedd Preifat i sicrhau bod y Gronfa'n cynnal ei phwysidiadau strategol. Rydym wedi mandadu na cheir gwneud dyraniadau ond i gronfeydd sydd â sgôr buddsoddi gan Mercer o ESG1 neu ESG2 (sef y ddwy sgôr ESG uchaf sydd gan Mercer), yn ogystal â phroses ddiwydrwydd dyladwy drylwyr o ran buddsoddi sy'n ofynnol ar gyfer pob un o ddyraniadau'r Gronfa. Bu i ni hefyd gydweithio â Mercer dros y flwyddyn i barhau i gefnogi'r broses o fonitro ei reolwyr Marchnadoedd Preifat yn barhaus. Bu i ni drefnu cyfres o gyfarfodydd gyda'r rheolwyr, wyneb yn wyneb a dros y we. Anfonwyd rhestr o gwestiynau a holiadur meintiol i'r rheolwyr cyn y cyfarfodydd hyn. Roeddent yn canolbwyntio ar gasglu data buddsoddi cyfrifol a metrig carbon, pan oedd hynny'n bosib, gan y rheolwyr Marchnadoedd Preifat. Mae'n hysbys bod diffyg data ar gael mewn Marchnadoedd Preifat, ac rydym yn eiriolwr dros ddarparu mwy o ddata a thryloywder. Bydd y gwaith hwn yn

parhau yn y blynyddoedd i ddod gan fod bylchau'n parhau yn y data mewn rhai asedau etifeddol.

7.6 O fewn portffolio'r Dyraniad Asedau Tactegol (sy'n defnyddio dull strategaeth ddynamig i fanteisio ar gyfleoedd buddsoddi byrdymor), yr ethos yw cydymffurfio â pholisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa neu egluro unrhyw eithriadau angenrheidiol i allu gweithredu'n effeithiol.

Os oes yna gronfa â sgôr Mercer ESG1 neu ESG2 o fewn y dosbarth asedau a argymhellir ar blatfform Mobius, dylai Mercer naill ai argymell y gronfa honno neu egluro'n ysgrifenedig y rhesymeg y tu ôl i ddewis cronfeydd heblaw rhai â sgôr ESG.

Ym mis Tachwedd 2023, argymhellodd Mercer ein bod yn trosi ein daliadau yn yr LGIM North American Equity Index Fund i'r LGIM Future World North American Equity Index Fund – GBP Currency Hedged. Mae buddsoddi mewn cronfeydd sy'n canolbwyntio ar ESG yn cefnogi ein huchelgeisiau sero net cyffredinol drwy ddyrannu cyfalaf i gwmnïau â mwy o ffocws cynaliadwy. Mae gan gronfa Future World well metrigau carbon, gan ei fod yn canolbwyntio ar gwmnïau sydd ag arferion cynaliadwy a llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.


7.7 Rydym wastad wedi ceisio gweithredu ag ystyriaeth briodol mewn perthynas â'n buddsoddiadau ac yn cydnabod y bydd angen i'n dull Buddsoddi Cyfrifol ddatblygu'n barhaus, o ystyried cyflymder y newid o ran effaith a dealltwriaeth o faterion ESG a'r byd newidiol sydd ohoni. Oherwydd y ffocws cynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol o fewn y diwydiant buddsoddi, mae ffordd o feddwl ac arferion gorau'n parhau i ddatblygu, ac mae'r Gronfa wedi ymrwymo i sicrhau bod ei dull yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol. Bydd Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa'n cael ei adolygu'n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd, fel rhan o unrhyw adolygiad strategol o ddyraniad asedau'r Gronfa, neu yn ôl yr angen yn sgil gofynion rheoliadol newidiol, neu i fynd i'r afael â materion penodol a all godi.

7.8 Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Bartneriaeth ac awdurdodau cyfansoddol eraill o fewn y gronfa gyfunol i ddatblygu a phenodi cronfeydd newydd. Enghraifft ddiweddar o hyn oedd creu Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru, yr ydym wedi buddsoddi ynddi ers hynny ar 20 Mehefin 2023. Bu i ni gydweithio â chronfeydd partner eraill Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn ogystal â'r Bartneriaeth a Russell, i ddylunio manyleb fanwl ar gyfer y Gronfa. Ers hynny, mae sawl cronfa Gymreig wedi buddsoddi yn y gronfa newydd y bu'r swyddogion yn rhan fawr o'i datblygu. Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru dros £1 biliwn o asedau dan ei rheolaeth, sy'n ganlyniad gwych i Gymru gyfan ac yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad cywir at fuddsoddi mewn dyfodol cynaliadwy i ni oll.

7.9 Ochr yn ochr â'r Bartneriaeth, rydym yn disgwyl bod pob rheolwr buddsoddi a gyflogir o fewn y Bartneriaeth yn ystyried y newid yn yr hinsawdd a risgiau ESG eraill yn drylwyr yn eu proses o wneud penderfyniadau. Ystyrir hyn hefyd gan Russell fel rhan o'u gwerthusiad o reolwyr buddsoddi wrth ddylunio strwythur y gronfa, ac yn barhaus drwy adroddiadau blynyddol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae enghraifft o sut caiff yr ystyriaethau hyn eu cynnwys yng ngwerthusiad cychwynnol a pharhaus rheolwyr y

cronfeydd gwaelodol i’w gweld yn y fframwaith enghreifftiol, ac mae rhagor o wybodaeth i’w gweld yn nogfen gyflwyno **Cod Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru**.

Illustration of Russell evaluation framework



7.10 Rydym wedi ymrwymo i gyfuno asedau gyda'r Bartneriaeth pan fo hynny’n bosib, ac wedi buddsoddi’n ddiweddar yn natrysiadau Marchnadoedd Preifat y Bartneriaeth sydd bellach ar gael i fuddsoddi ynddynt. O ganlyniad, rydym wedi gwneud ymrwymïadau i Gronfa Isadeiledd y Bartneriaeth, cronfeydd Ecwiti Preifat y Bartneriaeth a Chronfa Dyledion Preifat y Bartneriaeth. Yn ystod y cyfnod, mae pob un o Gronfeydd Marchnadoedd Preifat y Bartneriaeth wedi hawlio cyfalaf am y tro cyntaf. Mae’r tablau canlynol yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr ymrwymïadau hyn a’r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd dros y flwyddyn.

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw’r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Cronfa Ecwiti Preifat	£80m
Disgrifiad o’r Ymgysylltiad		
Mae un o fuddsoddiadau’r Bartneriaeth mewn Cronfa Ecwiti Preifat sy’n canolbwyntio ar drawsnewid ynni, gan dargedu nifer o themâu, sy’n cynnwys: trydaneiddio; ynni adnewyddadwy; storio ynni; a digideiddio. Mae ystyriaethau ESG yn cael eu hintegreiddio i’r thesis a’r broses fuddsoddi. Mae Schrodgers yn asesu’r Partner Cyffredinol a’r gronfa ei hun i nodi meysydd i’w gwella, gan ystyried arferion cyfredol a gosod cynllun ôl-fuddsoddi y gellir ei asesu’n barhaus. Mae Schrodgers wedi nodi nifer o feysydd stiwardiaeth, y bydd y rheolwr yn parhau i adrodd arnynt ac y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru eu defnyddio i fonitro cynnydd:		

Lefel Partner Cyffredinol:

- Annog y tîm i ychwanegu uchelgeisiau sy'n ymwneud yn benodol â buddsoddi effaith yn ei bolisi ESG, o ystyried natur thematig y Gronfa
- Annog y tîm i fod yn fwy gweithredol mewn mentrau diwydiant
- Anogaeth i benodi un swyddog ESG pwrpasol

Lefel y Gronfa:

- Ymgysylltu'n weithredol i safoni asesiadau risg hinsawdd ymhellach
- Monitro PAI ac ansawdd a pherfformiad data effaith ac ymgysylltu yn ôl yr angen
- Ymgysylltu'n weithredol wrth ymadael o safbwynt effaith, gan ddilyn yr Egwyddorion Gweithredu ar gyfer Rheoli Effaith

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Cronfa Dyledion Preifat	£50m
Disgrifiad o'r Ymgysylltiad		
Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi buddsoddi mewn Cronfa Dyledion Preifat sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy ac isadeiledd i ariannu'r trawsnewid ynni a chefnogi datgarboneiddio, gyda disgwyl i gredyd yn gyffredinol fod yn ffynhonnell fawr o gyfalaf i ariannu datgarboneiddio yn fyd-eang. Yn ystod y broses ddiwydrwydd dyladwy cyn buddsoddi, nododd y rheolwr gyfleoedd ymgysylltu i helpu cwmnïau portffolio fodloni disgwyliadau amgylcheddol a chymdeithasol y gronfa. Er enghraifft, mae'r rheolwr yn cynnig gwasanaeth mesur mewn partneriaeth ag ymgynghorydd ESG trydydd parti er mwyn i gwmnïau portffolio fesur eu hól troed carbon gweithredol. O ystyried yr angen cynyddol i ddata am hinsawdd fod ar gael mewn Marchnadoedd Preifat, mae hon yn fenter i'w chroesawu. Mae'r rheolwr hefyd wedi ceisio unrhyw gyfleoedd cydweithredol yma, gan weithio mewn partneriaeth â rheolwr Partneriaeth Pensiwn Cymru arall ar yr ochr Ecwiti Preifat i helpu cwmni portffolio gwaelodol fesur ei allyriadau nwyon tŷ gwydr a chofnodi rhestr o ddata ôl-troed carbon gweithredol.		

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Cronfa Isadeiledd	£64m
Disgrifiad o'r Ymgysylltiad		
Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn buddsoddi mewn cronfa buddsoddi effaith, sy'n buddsoddi mewn trawsnewid ynni gyda'r nod o liniaru newid yn yr hinsawdd ac osgoi allyriadau carbon. Yn unol â diffiniad y Rhwydwaith Buddsoddi Effaith Byd-eang o effaith, mae'r rheolwr yn ceisio creu effaith gymdeithasol/amgylcheddol gadarnhaol a mesuradwy ochr yn ochr ag elw ariannol. Mae nifer o asedau'r gronfa eisoes yng Nghymru, gyda disgwyl i nifer o gwmnïau fuddsoddi yng Nghymru hefyd. Mae'r prosiectau'n cwmpasu nifer o feysydd sy'n sylfaenol i drawsnewid ynni: • Cerbydau trydan: gosodwr pwyntiau gwefru yn y DU sy'n bwriadu ehangu ei weithrediadau i Gymru • Gwynt: datblygu safleoedd gwynt ar y tir yng Nghymru, gan helpu i ddarparu ynni gwyrdd glân o fewn a thu hwnt i Gymru • Opsiynau eraill yn lle tanwydd ffosil : targedu enwau diwydiannol Cymru i ddefnyddio hydrogen gwyrdd fel defnydd crai cemegol neu ynni yn lle tanwyddau ffosil • Dosbarthu ynni: gweithredwr rhwydwaith dosbarthu annibynnol, sydd eisoes wedi buddsoddi mewn cysylltiadau grid yng Nghymru gyda phiblinell berthnasol ar gyfer mwy o fuddsoddiad		

7.11 Fel y soniwyd yn egwyddor 6.9, rydym wedi cynyddu ei hymrwymadau'n sylweddol i bortffolios sy'n canolbwyntio ar Effaith o fewn mandadau Marchnadoedd Preifat. Mae'r tablau canlynol yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr ymrwymadau hyn.

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Q-Energy Private Equity	Q-Energy Fund V	~10
Disgrifiad o ESG/Effaith y gronfa		
Mae Qualitas Energy V (Q-Energy V) yn sefydliad byd-eang sy'n buddsoddi mewn paneli ffotofoltäig solar tir llwyd a thir glas, ynni solar crynodedig, gwynt, Systemau Storio Ynni mewn Batris (BESS), nwy naturiol adnewyddadwy ac asedau ynni hydrodrydanol mewn gwledydd yr OECD risg isel yn Ewrop - Sbaen, Yr Almaen, y DU, Gwlad Pwyl a'r Eidal - a Chyfangiroedd America - Chile a'r Unol Daleithiau.		

Mae Q-Energy V yn Gronfa Erthygl 9 dan y Rheoliad Datgelu Cyllid Cynaliadwy (SFDR) a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol i nifer o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig: NDC 7 (ynni fforddiadwy a glân), NDC 8 (gwaith boddhaol a thwf economaidd), NDC 9 (diwydiant, arloesi a seilwaith), NDC 13 (gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd), NDC 15 (bywyd ar y tir) a NDC 16 (heddwch, cyfiawnder a sefydliadau cryf). Mae Qualitas Energy wedi ymrwymo i integreiddio fframweithiau ESG ar bob cam o'r broses fuddsoddi ac mae'n ymdrechu i integreiddio egwyddorion cynaliadwy yn y prosesau gwneud penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn creu gwerth hirdymor.

Sylwch: ~Pan fo'n briodol, mae symiau ymrwymiad mewn Ewros (€) a Doleri'r UDA (\$) wedi'u trosi'n symiau ymrwymiad mewn Sterling (£) gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid adeg cyflawni'r ymrwymiad.

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Ambienta	Ambienta Sustainable Credit Opportunities Fund I	~10

Disgrifiad o ESG/Effaith y gronfa

Ambienta Sustainable Credit Opportunities SCSp (AmSCO) yw Cronfa gyntaf Ambienta sy'n canolbwyntio ar fenthyca i "Hyrwyddwyr Amgylcheddol" sydd wedi'u lleoli yn Ewrop. Mae'r Gronfa'n rhoi pwyslais mawr ar gwmnïau y mae disgwyl iddynt fod yn fuddiolwyr tueddiadau amgylcheddol seciwlar hirdymor. Mae AmSCO yn ystyried cynnig benthyciadau i gwmnïau Ewropeaidd sy'n dod o fewn dwy thema sylfaenol yn unig: Effeithlonrwydd Adnoddau a Rheoli Llygredd, ac mae'n buddsoddi mewn cwmnïau sy'n targedu cyfraniadau i faterion amgylcheddol y mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig yn mynd i'r afael â nhw.

Mae ymagwedd Ambienta at ESG yn canolbwyntio ar set craidd o werthoedd ac egwyddorion ac yn cael ei llywodraethu drwy bedair elfen allweddol, sef 1) ymagwedd a gaiff ei llywio gan y bwrdd at y polisi buddsoddi cyfrifol, 2) rhaglen ESG ar Waith gadarn, 3) cymorth penodedig gan y tîm Cynaliadwyedd a Strategaeth mewnol, a 4) system atebolrwydd fewnol ar gyfer integreiddio ESG. Dynodir y Gronfa yn un Erthygl 9 dan reoliad tacsonomeg SFDR yr UE.

Sylwch: ~Pan fo'n briodol, mae symiau ymrwymiad mewn Ewros (€) a Doleri'r UDA (\$) wedi'u trosi'n symiau ymrwymiad mewn Sterling (£) gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid adeg cyflawni'r ymrwymiad.

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Bridges Fund Management	Bridges Property Alternatives Fund VI	10
Disgrifiad o ESG/Effaith y gronfa		
Caiff Bridges Property Alternatives Fund VI (BPAF VI) ei rheoli gan Bridges Fund Management. Mae BPAF VI yn ystyried buddsoddi mewn asedau eiddo tirol lle gellir cyflawni effaith gymdeithasol a/neu amgylcheddol gadarnhaol amlwg. Bydd y Gronfa'n ceisio dyrannu o leiaf 75% o'i buddsoddiadau yn y DU ac Iwerddon a hyd at y 25% sy'n weddill ar draws Gorllewin Ewrop. Ar lefel sector, bydd y Gronfa'n canolbwyntio'n bennaf ar sectorau galwedigaethol sy'n seiliedig ar angen, gan gynnwys gofal iechyd, preswyl a dosbarthiad y filltir olaf carbon isel. Mae'r sectorau hyn sy'n seiliedig ar angen yn cynnwys tai rhad a fforddiadwy a gofal iechyd a llety pobl hŷn. Mae cronfa Bridges yn integreiddio rheoli effaith ac ystyriaethau ESG drwy gydol ei busnes, drwy ei strwythur, ei pholisïau a'i harferion a'i ddull buddsoddi. Mae ganddi dîm Rheoli Effaith penodedig a gaiff ei drefnu ar draws ei strategaethau eiddo tirol ac Ecwiti Preifat. Ym mhob un o'r strategaethau hyn, mae cronfa Bridges y canolbwyntio'n gadarn ar gyflawni effaith ochr yn ochr ag enillion ariannol deniadol. Dynodir y Gronfa yn un Erthygl 9 dan reoliad tacsonomeg SFDR yr UE.		

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Cyfalaf a Fuddsoddwyd (£miliwn)
Mercer	Mercer PIP VII Global Impact	40
Disgrifiad o ESG/Effaith y gronfa		
Mae Mercer PIP VII Global Impact yn Gronfa o Gronfeydd sy'n ddigon hyblyg i fuddsoddi ar draws dosbarthiadau asedau Marchnadoedd Preifat byd-eang. Mae'r Gronfa'n ceisio buddsoddi yn unol â themâu effaith amgylcheddol a chymdeithasol, gan gynnwys newid hinsawdd, planed iach, stiwardiaeth adnoddau, anghenion sylfaenol a lles a grymuso. Mae'n ceisio amlygu'r Cronfeydd gwaelodol i bortffolio amrywiol iawn o gwmnïau ac asedau gyda chymwysterau ESG cadarn. Yn ddaearyddol, disgwylir i'r Gronfa gael ei hamrywio'n eang ar draws Gogledd America a Gorllewin Ewrop, gyda lwfans llai ar gyfer Marchnadoedd Newydd. Er y bydd y Gronfa'n buddsoddi ym mhob un o ddosbarthiadau asedau'r		

Marchnadoedd Preifat, mae Mercer yn disgwyl i fwyafrif llethol y buddsoddiadau gael eu gwneud mewn Ecwiti Preifat ac Asedau Gwirioneddol.

Mae'r Gronfa yn dilyn amrywiaeth o themâu amgylcheddol a chymdeithasol wedi'u mapio yn ôl Nodau Datblygu Cynaliadwy perthnasol y Cenhedloedd Unedig. Yn ychwanegol at yr asesiad cynaliadwyedd rheolaidd sy'n mesur integreiddiad ESG, cynhelir asesiad effaith penodedig er mwyn cysylltu.

buddsoddiadau'n uniongyrchol â'r thema effaith berthnasol. Dynodir y Gronfa yn un Erthygl 8 dan reoliad tacsonomeg SFDR yr UE.

7.12 Cyn y cyfnod adrodd presennol, rydym wedi canolbwyntio ar ymrwymïadau cyfalaf i nifer o fandadau Marchnadoedd Preifat sydd â'r nod o gael effaith gadarnhaol yn yr ardal leol gyfagos. Mae'r tabl isod yn rhoi enghraifft fanwl o un Gronfa o'r fath o fewn ein portffolio Marchnadoedd Preifat:

Rheolwr Marchnadoedd Preifat	Enw'r Gronfa	Gwerth Ased Net Presennol (£miliwn)
Capital Dynamics	Capital Dynamics Clean Energy in Wales	£50m
Disgrifiad o'r Gronfa		
Yn ystod haf 2022, bu i Capital Dynamics lunio partneriaeth gyda Chronfa Bensiynau Clwyd i ddarparu isadeiledd ynni glân yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn caniatáu i Glwyd fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cyfleoedd ynni adnewyddadwy a chyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dargedau sero net a thrawsnewid ynni, sy'n cyd-fynd â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bu i Clwyd ofyn i Capital Dynamics lunio partneriaeth gyda nhw ar sail eu perthynas o dros 25 mlynedd a phrofiad Capital Dynamics yn y sector ynni glân. Mae Clwyd wedi dyrannu £50 miliwn i fuddsoddi mewn pedwar i bump o brosiectau ynni adnewyddadwy ar draws y sbectrwm datblygu, o ddatblygiad cam cynnar i weithredu asedau. Hyd yma, mae £42.7 miliwn wedi ei ymrwymo i dri phrosiect, gyda £19.3 miliwn ohono wedi ei fuddsoddi.		

Egwyddor 8

Dull Buddsoddi

“Mae’r llofnodwyr yn monitro ac yn dal rheolwyr cyfrifon a/neu ddarparwyr gwasanaethau i gyfrif”

8.1 Rydym yn mynd ati i fonitro rheolwyr a darparwyr gwasanaethau gwaelodol i sicrhau eu bod yn darparu’r gwasanaethau yn ôl y disgwyl. Credwn fod hyn yn ffordd effeithiol o fonitro pob parti a’i fod yn hanfodol i hyrwyddo arferion stiwardiaeth da. Mesurir gwaith monitro drwy nifer o ddulliau a eglurir isod.

8.2 Rydym yn monitro ein rheolwyr gwaelodol drwy sgysiau dal i fyny rheolaidd naill ai wyneb yn wyneb neu ar lein a hefyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Pennaeth y Gronfa Bensiynau, Philip Latham, hefyd yn cael cyfarfodydd adolygu blynyddol gyda darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i’r Ymgynghorydd Buddsoddi a’r Cynghorydd Annibynnol. Mae rhagor o wybodaeth i’w gweld isod ar sut y caiff yr adolygiadau eu cwblhau.

8.3 Rydym yn monitro ein hymgyngorydd buddsoddi, Mercer, drwy gyfarfodydd diwrnod buddsoddi misol rheolaidd. Mae Mercer yn darparu adroddiadau perfformiad chwarterol sy’n crynhoi perfformiad rheolwyr unigol a pherfformiad cyffredinol y Cynllun yn erbyn eu meincnodau priodol. Mae Mercer hefyd yn darparu sgoriau cronfa ac ESG pan fyddant ar gael i bob un o’r strategaethau o fewn y portffolio, (gan gynnwys mandadau Marchnadoedd Preifat newydd), ac yn darparu’r ymchwil rheolwyr diweddaraf sydd ar gael gan gynnwys eitemau megis diweddariadau rheolwyr, diweddariadau busnes neu wybodaeth gyffredinol. Yn ogystal, mae Mercer yn darparu adroddiadau economaidd sy’n crynhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad. Ar y cyd â’r portffolio Dyraniad Asedau Tactegol, mae Mercer yn darparu adroddiad misol ar y sefyllfa ddiweddaraf. Mae’r adroddiadau hyn yn cefnogi’r cyfarfodydd diwrnod buddsoddi misol rheolaidd lle mae’r swyddogion yn trafod y sefyllfa ddiweddaraf ac yn gwneud penderfyniadau gweithredol mewn perthynas â’r portffolio. Pan fo gan Mercer a/neu swyddogion y Gronfa bryder am unrhyw un o’r rheolwyr gwaelodol, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i’r rheolwyr hyn, ac os nad yw pethau’n edrych yn gadarnhaol ar gyfer y gronfa/cronfeydd dan sylw, bydd y rhain yn cael eu tynnu o’r portffolio naill ai’n rhannol neu’n gyfan gwbl.

8.4 Er mwyn cydymffurfio â “Gorchymyn Ymchwilio i’r Farchnad Ymgynghori ar Fuddsoddiadau a Rheoli Ymddiriedol 2019” (y Gorchymyn), bu i ni sefydlu rhestr o amcanion strategol ar gyfer ein hymgyngorwyr buddsoddi, Mercer. Gellir diwygio’r amcanion unrhyw bryd ond cânt eu hadolygu o leiaf bob tair blynedd, ac yn dilyn unrhyw newid sylweddol i strategaeth ac amcanion buddsoddi’r Gronfa. Rydym yn monitro cydymffurfiaeth â’r amcanion yn flynyddol ac yn ymgysylltu gyda Mercer i drafod meysydd sy’n gweithio’n dda ac unrhyw feysydd o bryder. Mae enghreifftiau o’r amcanion rydym yn monitro Mercer yn eu herbyn i’w gweld ar y dudalen nesaf.

Rydym yn monitro Mercer yn erbyn sawl amcan, sy'n ffurfio'r "Amcan Cyffredinol", gan gynnwys:

- Sicrhau bod y gwasanaethau'n cyd-fynd â'r Amcanion Cyffredinol
- Amcan y Strategaeth Fuddsoddi
- Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi
- Amcan Buddsoddi Cyfrifol
- Amcan Dethol Rheolwr Buddsoddi
- Amcan Gweithredu
- Portffolio Dyraniad Asedau Tactegol
- Amcan Monitro

8.5 Gwerthusiad Aon

Rydym yn adolygu Aon (y Cynghorydd Annibynnol) yn rheolaidd, gan roi sgôr rhwng 1 a 5 ar sawl amcan, gydag 1 yn golygu bod angen gwelliant sylweddol a 5 yn golygu eu bod yn rhagori ar yr amcan gofynnol yn gyson. Rydym yn sgorio'r darparwr ar restr o amcanion sy'n cynnwys ystod o bynciau, gan gynnwys:

- Amcanion llywodraethu
- Gofynion tendr
- Adnoddau, cyllideb a phrydlondeb

Cynhelir y broses werthuso ar gyfer pob darparwr gwasanaeth i sicrhau bod y Gronfa'n dal pob darparwr gwasanaeth i gyfrif am ddeilliannau ac yn mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella.

8.6 Mae swyddogion y Gronfa'n ymgysylltu'n rheolaidd gyda'r rheolwyr buddsoddi gwaelodol dros e-bost, drwy fideo gynadledda ac mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Dros y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024, mae swyddogion y Gronfa wedi ymgysylltu â phob rheolwr mewn rhyw ffordd. Mae'r rheolwyr buddsoddi'n cynnwys Russell, Man Group, Legal & General, Insight, Capital Dynamics, Foresight a Newcore ac ati. Mae gwneud hyn yn sicrhau ein bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan y rheolwyr ac yn caniatáu i swyddogion dynnu sylw at a chwestiynu unrhyw broblemau a allai godi mewn perthynas â pherfformiad neu weithrediad cyffredinol y cronfeydd.

Cododd un enghraifft allweddol o ymgysylltiad o'r fath dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 ym mis Mawrth 2024, pan ymgysylltodd y swyddogion, gyda chymorth eu hymgyngorydd buddsoddi, Mercer, â rheolwr ecwiti rhestredig y gronfa, Russell, i geisio dod i ddeall yr amlygiad tanwyddau ffosil yn unol â'r Polisi Gwaharddiadau presennol.

8.7 Yn 2022, mewn ymgynghoriad â Mercer, bu i ni ddatblygu templed monitro y byddwn yn ei ddefnyddio i fonitro ein rheolwyr Marchnadoedd Preifat. Yn benodol, mae'r templed yn casglu gwybodaeth gan y rheolwyr am ESG ac Effaith, gan gynnwys:

- A oes gan y rheolwr Bolisi Buddsoddi Cynaliadwy?
- A yw'r rheolwr yn gwneud unrhyw beth i gyfrannu at y targed sero net neu darged penodol o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwyr?

- Ystyriaethau Effaith/ESG a fydd yn helpu gydag adroddiadau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD) a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â Natur (TNFD)
- A yw'r gronfa (neu unrhyw rai o'r buddsoddiadau gwaelodol) yn cyd-fynd ag unrhyw rai o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy? Eglurwch pa rai.
- A yw'r cronfeydd yn destun y Rheoliad Datganiad Cyllid Cynaliadwy? Os felly, nodwch a yw'r gronfa wedi'i chategoreiddio fel Erthygl 6, Erthygl 8 neu Erthygl 9 dan yr SFDR?

Defnyddiwyd y templed monitro dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 fel rhan o'r gwaith parhaus o fonitro'r rheolwyr Marchnadoedd Preifat presennol. Trefnwyd cyfarfodydd rhwng y swyddogion a Mercer yn ystod y cyfnod i adolygu mandadau a chynnal sgwrs er mwyn gallu stiwardio'r mandadau'n effeithiol. Rydym yn parhau i weithio gyda ein rheolwyr Marchnadoedd Preifat i wella sut mae data Buddsoddi Cyfrifol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi wrth i ni edrych ar ehangu'r targedau rydym yn eu gosod ar draws dosbarthiadau asedau eraill. O ganlyniad, bu i ni ymgysylltu â'r rheolwyr gan ddefnyddio ein templed diweddaraf i gael data yn unol â chanllawiau'r IIGCC.

8.8 Mae rheolwyr buddsoddi dewisol Partneriaeth Pensiwn Cymru megis Russell Investments yn darparu datganiadau prisio misol ac adroddiadau perfformiad chwarterol ar gyfer y cronfeydd gwaelodol. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal cyfarfodydd diweddariadau busnes rheolaidd gyda chleientiaid i drafod y wybodaeth ddiweddaraf am gyfuno cronfeydd a thrafod unrhyw ddatblygiadau newydd megis cronfeydd newydd sy'n dod i mewn i'r gronfa gyfunol. Mae swyddogion yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r Bartneriaeth ac yn chwarae rhan allweddol yn yr adborth ar gyfer mandadau presennol a rhai sydd ar y gweill, yn ogystal â phob agwedd ar reoli'r Gronfa. Yn ogystal â'r uchod, rydym hefyd yn cael Adroddiad Pleidleisio ac Ymgysylltu gan Robeco ac Adroddiad Buddsoddi Cyfrifol a Risg yr Hinsawdd gan Hymans Robertson.

Darparwyr gwasanaeth allweddol y Bartneriaeth yw Waystone, Northern Trust a Russell, a'r awdurdod cynnal (Sir Gâr) sy'n gyfrifol am fonitro perfformiad Waystone a Russell. Mae'r awdurdod cynnal yn cynhyrchu adroddiadau a ddosberthir wedyn i'r awdurdodau cyfansoddol unigol. Mae Gweithgor Swyddogion y Bartneriaeth yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddangosyddion perfformiad allweddol bob chwarter, ac yng nghyfarfodydd y Gweithgor, mae awdurdodau cyfansoddol unigol yn cael cyfle i herio perfformiad Waystone a Russell a rhoi eu hadborth.

8.9 Mae ein darparwr datrysiadau buddsoddi a benodwyd drwy'r gronfa gyfunol (Russell) yn adrodd i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu (gweler y diagram yn 2.15) bob chwarter. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad pob un o gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru gan Russell, am bleidleisio ac ymgysylltu gan Robeco, adroddiadau am fenthycia stoc gan Northern Trust (ceidwad) ac 'adroddiadau am fuddsoddi cyfrifol a risg yr hinsawdd' gan Hymans Robertson (fel cynghorydd goruchwylio'r Bartneriaeth). Yn ogystal, mae Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd yn mynychu pob un o gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu lle mae'r darparwyr gwasanaeth hyn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf.

Egwyddor 9

Ymgysylltu

“Mae llofnodwyr yn ymgysylltu â chyhoeddwyr i gynnal neu wella gwerth asedau”

9.1 Rydym yn ymgysylltu gyda’r Bartneriaeth a Russell yn rheolaidd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad, dethol rheolwyr, gwybodaeth am y farchnad a gweithgarwch ymgysylltu. Rydym hefyd yn adrodd i’r Pwyllgor Pensiynau bob chwarter mewn perthynas â pherfformiad y Gronfa a’i rheolwyr gwaelodol yn ogystal ag agweddau eraill ar y Gronfa, gan gynnwys eitemau fel buddsoddi cyfrifol.

9.2 Credwn ei bod yn fuddiol ymgysylltu gyda chwmnïau ynglŷn ag ystod eang o bynciau, felly rydym wedi dirprwyo ein holl hawliau pleidleisio i Bartneriaeth Pensiwn Cymru, sydd yn ei thro wedi penodi Robeco i ymgymryd â gwaith ymgysylltu ar ei rhan. Mae Robeco’n canolbwyntio’n benodol ar chwe maes allweddol wrth ymgysylltu gyda chwmnïau, a nodir y rhain yn Egwyddor 12. Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym hefyd yn datblygu rhestr darged newydd ar gyfer ymgysylltu ar yr hinsawdd, i dargedu ein 10 prif gyfranwyr i ôl troed carbon, er mwyn gallu ymgysylltu ymhellach gyda chwmnïau gwaelodol, a fydd yn ein helpu ar hyd ein llwybr datgarboneiddio pe bai’r gwaith ymgysylltu’n llwyddiannus.

9.3 Caiff Polisi Ymgysylltu Robeco ei ddiweddarau bob blwyddyn, neu’n amlach os bydd angen. Mae gan Robeco dîm penodol o arbenigwyr ymgysylltu a dadansoddwyr pleidleisio sy’n gweithio’n agos gyda dadansoddwyr ymchwil buddsoddi cynaliadwy a rheolwyr portffolios, gan ganolbwyntio’n bennaf ar faterion ESG sy’n arwyddocaol yn ariannol.

9.4 Mae Robeco’n defnyddio tri dull ymgysylltu, sef ymgysylltu corfforaethol, ymgysylltu gwerth ac ymgysylltu uwch.

9.5 Mae ymgysylltu gwerth yn canolbwyntio ar gyfleoedd a risgiau ESG hirdymor sy’n arwyddocaol yn ariannol, gyda’r nod o greu gwerth ar gyfer buddsoddwyr drwy wella trefniadau llywodraethu corfforaethol ac ymddygiad cynaliadwy. Sonnir am ymgysylltu uwch yn Egwyddor 11, ynghyd ag enghraifft o uwchgyfeirio drwy bleidleisio.

9.6 Mae rhaglen berchnogaeth weithredol Robeco’n cynnwys sawl dosbarth asedau a daearyddiaeth. Mewn rhai amgylchiadau, gall ymgysylltiad amrywio ar gyfer portffolios ecwiti ac incwm sefydlog. Er enghraifft, mae ymgysylltiadau ar gyfer portffolios credyd yn debygol o ganolbwyntio ar risgiau ESG negyddol, ond mae ymgysylltiadau ar gyfer y portffolio ecwiti ar y llaw arall yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar risgiau a chyfleoedd ESG a / neu hawliau cyfranddalwyr. Mae Robeco’n nodi nad yw’r rhaglen ymgysylltu uwch yn gwahaniaethu rhwng dosbarthiadau asedau nac arddulliau buddsoddi.

9.7 Mae Robeco’n blaenoriaethu ymgysylltiad drwy ganolbwyntio eu hymdrechion ar grŵp dethol o gwmnïau ar y ffactorau a’r themâu ESG mwyaf arwyddocaol. Mae tîm Perchnogaeth Weithredol Robeco yn dewis pedwar neu bump o themâu ymgysylltu newydd bob blwyddyn ar gyfer y rhaglen ymgysylltu gwerth. Mae’r themâu’n canolbwyntio ar bynciau sy’n arwyddocaol yn ariannol ac yn mynd i’r afael â materion ESG mewn

amrywiaeth o feysydd y mae modd buddsoddi ynddynt yn ogystal ag effaith niweidiol ar gynaliadwyedd. Mae pob thema'n canolbwyntio ar 10 i 15 o gwmnïau ac yn cael eu cynnal dros gyfnod o dair blynedd fel arfer.

9.8 Wrth ddewis achosion ymgysylltu uwch chwarterol Robeco, mae Robeco'n sgrinio'r newyddion am achosion o fynd yn groes i Ddatganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, safonau llafur y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, Egwyddorion Arweiniol y Cenhedloedd Unedig ar Fusnes a Hawliau Dynol, Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig a Chanllawiau Mentrau Amlwladol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Mae Robeco'n sgrinio daliadau portffolio am:

1. ddilysiad o effaith egwyddorion Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig neu Ganllawiau'r OECD ar fudd-ddeiliaid neu'r amgylchedd.
2. difrifoldeb yr achos o fynd yn groes i'r uchod
3. cyfrifoldeb y cwmni am y mater, a'u rheolaeth drosto

Ar gyfer pob ymgysylltiad uwch, diffinnir amcanion ymgysylltu CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol). Mae adfer yn amcan allweddol ar gyfer ymgysylltu uwch ym mhob achos. Mae'r broses ar gyfer dewis thema ymgysylltu uwch yn rhan ffurfiol o bolisi gwaharddiadau Robeco.

9.9 Mae Robeco'n darparu adroddiad ymgysylltu cyfrinachol i Bartneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter, sy'n darparu manylion am weithgarwch ar lefel cyswllt cwmnïau unigol, gan gynnwys y pwnc, yr amcanion ymgysylltu a statws cyffredinol pob ymgysylltiad ar gyfer y cyfnod hwnnw. Pryd bynnag y bydd Robeco'n ymgysylltu â chwmni, megis cyfarfod â rheolwyr, cadeiryddion byrddau, neu ysgrifennu llythyrau i rannu pryderon, cofnodir yr holl wybodaeth yn yr adroddiad ymgysylltu cyfrinachol.

Ymgysylltodd Robeco gyda 69 o gwmnïau ar ran Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystod y cyfnod. Dyma restr o'r pynciau yr ymgysylltwyd arnynt:

- Bioamrywiaeth
- Pontio Hinsawdd Sefydliadau Ariannol
- Llywodraethu Corfforaethol
- Rheoli Adnoddau Naturiol
- Allyriadau Carbon Sero Net
- Cydnabyddiaeth Gyfrifol i Swyddogion Gweithredol
- Ymgysylltiad ar NDC
- Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Diwydrwydd Dyladwy Hawliau Dynol
- Caethwasiaeth Fodern mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae enghreifftiau o'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd gan Robeco i'w gweld ar y dudalen nesaf. Am resymau cyfrinachedd, mae pob enghraifft yn ddienw ar gais y darparwr.

9.10 Enghreifftiau o ymgysylltiad Robeco:

Cronfa:	Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
Thema:	Bioamrywiaeth
Cwmni:	Cwmni Nwyddau Traul Amlwladol Americanaidd
Gweithgarwch:	Galwad ddilynol ynglŷn â dirywiad coedwigoedd
Crynodeb:	

Ar 15 Mawrth, bu i Robeco, ynghyd ag amrywiol fuddsoddwyr eraill, siarad ag Is-lywydd Gohebiaeth Bapur a Chyrchu'n Gyfrifol a swyddog Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol y Cwmni, ynghyd â chynrychiolydd o Swyddfa ei Ysgrifennydd Corfforaethol, er mwyn parhau ein sgwrs am ddull y Cwmni o fynd i'r afael â risgiau dirywio coedwigoedd yng nghoedwig boreal Canada, ar ôl iddynt ddileu eu huchelgais Dim Dirywiad yn ystod haf 2023.

Roedd y drafodaeth wedi'i seilio ar astudiaeth wyddonol a ryddhawyd yn gynharach yn 2024, a oedd wedi canfod dirywiad cronedig yn y goedwig boreal yn sgil y diwydiant torri a thrin coed helaeth, a oedd yn rhoi diwydiant coedwigaeth Gogledd America mewn perygl o fwy o risgiau ffisegol, gan gynnwys tanau gwyllt a chlefydau. Mae'r Cwmni yn ymwybodol o'r astudiaeth a'r risgiau, ond mae'n parhau i gael trafferthion o ystyried yr effaith gronedig ar draws y sector a'u rôl gyfyngedig nhw o'i fewn (yn cyrchu 3% o fwydion coed o Ganada, sy'n un o gyd-gynhyrchion y diwydiant coed). Anogwyd y Cwmni i glywed bod yr ymdrechion ymgysylltu cydweithredol yn ymestyn y tu hwnt i'r cwmni, gyda'r grŵp buddsoddwyr yn ymgysylltu ag amrywiol gwmnïau a sefydliadau eraill yn y rhanbarth ynglŷn â'r pwnc.

Er bod dull y cwmni o gyrchu adnoddau coed o Ganada yn cyd-fynd ag arferion gorau o ran rheoli coedwigoedd, gyda 99% o'r mwydion sy'n tarddu o'r rhanbarthau a drafodwyd (Ontario a Quebec) wedi cael ardystiad yr FSC ac wedi'u dilysu gan y sefydliad nid-er-elw, Preferred by Nature, roedd Robeco yn rhannu ein pryderon am weithgarwch cyrchu yn y rhanbarth yn gyffredinol, o ystyried ei fod yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar goed hŷn. Mae mwydion coed a gyrchir o Ganada yn dod o goed sy'n 100 mlwydd oed neu'n hŷn, sydd yn ei hanfod yn amlygu'r cwmni i ddirywio'r gwerth carbon a bioamrywiaeth helaeth sydd wedi datblygu dros y cyfnod amser hwn yn y rhannau hyn o'r goedwig.

Gofynnodd Robeco i'r Cwmni ddatblygu strategaethau mwy tryloyw i roi'r gorau i ddefnyddio coed hŷn, a ddefnyddir ar gyfer eu cynnyrch ymolchi premiwm am bod ganddynt well amsugnedd. Mewn rhanbarthau eraill, mae'r coed a gyrchir yn llawer iau, gyda lleoliadau eraill yn defnyddio coed sydd rhwng 20 a 7 mlwydd oed. Er eu bod yn agored i'r awgrym, ni

chytunwyd ar unrhyw gamau nesaf nac uchelgeisiau clir i gynyddu tryloywder ar ymdrechion presennol o ran dirywio coedwigoedd, fel a oedd ar gael cyn 2022.

Yn olaf, roedd Robeco'n falch o weld bod Uwch Is-lywydd y WWF sy'n arwain ar Ymgysylltiad y Sector Preifat, wedi ymuno â Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni ym mis Ebrill 2023. Rhannodd Robeco ein cefnogaeth i'r aelod bwrdd newydd, ac roeddent yn falch o glywed am eu harchwiliad manwl cyfredol o weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys ei fusnes coedwigaeth. Bydd Robeco'n trefnu cyfarfod dilynol gyda'r Cwmni ar ôl i'r aelod Bwrdd rannu eu hargraffiadau cyntaf a'u pryderon yn nes ymlaen eleni.

Canlyniad:

Mae'r Cwmni'n ymwybodol o'r risgiau y mae dirywiad cronol i goedwig boreal Canada yn eu hachosi, ond mae'n parhau i wrthwynebu adolygiad o'u cymysgedd cyrchu, sydd, er ei fod yn cael ei gynaeafu yn unol ag arferion gorau masnachol, yn parhau i ddibynnu ar goedwigoedd hŷn am briodweddau papur toiled premiwm. Er y cafwyd trafodaeth gydweithredol, mae Robeco'n parhau i ddal barn negyddol am amgyffrediad y Cwmni o'i gyfrifoldeb, o ystyried nad oes yna unrhyw gynnydd hyd yma o ran y lleihad yn eu hymrwymadau i atal dirywiad coedwigoedd, sef sail yr ymgysylltiad hwn.

Ffynhonnell: Robeco

Cronfa:	Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
Thema:	Llywodraethu Corfforaethol
Sector:	Electroneg
Gweithgarwch:	Dadansoddiad o ddatgeliadau a chasgliad yr ymgysylltiad
Crynodeb:	

Dadansoddodd Robeco eu hymgysylltiad hyd yma gyda'r Cwmni. Adolygodd Robeco eu nodiadau ers cychwyn eu hymgysylltiad yn 2017. Aeth Robeco ati hefyd i adolygu adroddiadau cyhoeddus a chyflwyniadau buddsoddwyr y Cwmni dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf. Gwerthusodd Robeco'r adroddiadau am dystiolaeth bod y Cwmni wedi gweithredu ar ein hargymhellion i wella tryloywder ac atebolrwydd ei fusnes a'i strategaeth ariannol, gan gynnwys metrigau a thargedau perthnasol.

Dechreuodd y Cwmni feintioli "Gwerth Cymdeithasol" eu busnes yn 2019, fel rhan o fenter i ddatblygu gwerth cymdeithasol yn ei berfformiad corfforaethol ar gyfer buddsoddwyr hirdymor. Blaenoriaeth y Cwmni yw dod i ddeall sut mae buddsoddwyr yn gwerthuso perthnasedd ESG, ac yna ymgorffori hynny yn eu strategaeth adrodd. Mae cwmnïau cofion a lled-ddargludyddion angen gwariant cyfalaf sylweddol i barhau i fod yn gystadleuol. Yn 2018, nid oedd y Cwmni wedi cyhoeddi unrhyw ddeunyddiau am eu polisiau adrodd i gyfranddalwyr. Eu prif ddull cyfathrebu

am y pwnc hwn o hyd yw cynnal cyfarfodydd buddsoddwyr a galwadau enillion. Ym mis Hydref 2023, argymhellodd Robeco bod y Cwmni’n gwella ei ddatgeliadau am ei strategaeth ariannol a’i dargedau a’i strategaethau, gan nad yw’r Cwmni’n aml yn darparu unrhyw ganllawiau ar wariant cyfalaf na rheoli cyfalaf.

Canlyniad:

Mae Robeco wedi bod yn ymgysylltu â’r Cwmni i wella ei drefniadau llywodraethu corfforaethol ers 2017. Ym mis Mawrth 2023, cymharodd Robeco gymhareb taliadau difidend y Cwmni o 37% â’i gymheiriaid. Mae Robeco’n fodlon gyda balansau arian parod a thaliadau difidend y Cwmni, ac wedi nodi bod ein hamcan o reoli cyfalaf yn effeithiol.

Ers 2021, mae’r Cwmni wedi mynd ati i adrodd yn gyfannol ar sut y mae’n creu ac yn mesur gwerth cymdeithasol. Cynhaliodd y cwmni hefyd arolwg untro o fuddsoddwyr er mwyn canfod meysydd i’w gwella o ran adrodd. Roedd Robeco’n fodlon gyda datgeliadau’r Cwmni o’i strategaeth fusnes wrth gaffael busnes NAND Intel.

Cymeradwyodd Robeco ddiwydrwydd y Cwmni wrth gyhoeddi datganiadau ariannol archwiliedig yn gynt na’i gymheiriaid, ac wrth benodi ei gyfarwyddwr benywaidd cyntaf, fel datblygiadau cadarnhaol yn ei drefniadau llywodraethu corfforaethol. Nododd Robeco bod yr amcan o ddatgelu strategaeth gorfforaethol yn effeithiol, a bod yr ymgysylltiad cyffredinol yn effeithiol.

Ffynhonnell: Robeco

Cronfa:	Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
Thema:	Llywodraethu Corfforaethol
Sector:	Ynni Adnewyddadwy - Solar
Gweithgarwch:	Galwad gynadledda ynglŷn â diwydrwydd dyladwy cyflenwr
Crynodeb:	

Ar Fawrth y 1af, 2024, cafodd Robeco alwad gyda Phennaeth Cysylltiadau Buddsoddwyr y Cwmni, yn ymchwilio i brosesau diwydrwydd dyladwy hawliau dynol y cwmni, gan ganolbwyntio’n benodol ar archwiliadau ac asesiadau risg cyflenwyr mewn ardaloedd lle mae yna wrthdaro a risg uchel. Nid yw’r Cwmni’n cyrchu deunyddiau o Xinjiang, Tsieina, gan ei fod yn canolbwyntio ar optimeiddwyr yn hytrach na modiwlau PV. Fodd bynnag, gydag ehangiad ei fusnes storio, mae cadwyn gyflenwi’r Cwmni’n cael ei amlygu i ardaloedd eraill lle mae yna wrthdaro a risg uchel, fel Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo.

Mae dull gweithredu’r Cwmni yn cynnwys cynnal archwiliadau ar y safle ar gyfer cyflenwyr haen 1 dethol, sy’n cynrychioli dros 80% o’u gwariant uniongyrchol, a hynny unwaith bob dwy flynedd. Pwysleisiodd y Cwmni bod cael gweithgynhyrchwyr contract a phresenoldeb cyson staff

y Cwmni ei hun ar y safle, gyda haen ychwanegol o archwiliadau'n cael eu cynnal gan ei dîm ei hun, yn galluogi iddo gadw gwell golwg ar brosesau o'i gymharu â'i gymheiriaid yn y diwydiant. Er nad yw cadw golwg well ynddo'i hun yn sicrhau ansawdd asesiad y cyflenwyr, gall helpu gydag ymateb yn gyflym i effeithiau gwirioneddol a phosib ar hawliau dynol. Mynegodd Robeco ddiddordeb mewn cael mwy o ddealltwriaeth o fanylion proses archwilio cyflenwyr y Cwmni, fel eitem ddilynol ar gyfer y sgwrs nesaf.

Mae cyflenwyr haen 1 y Cwmni fel arfer yn cynnwys endidau amlwladol mawr a restrir yn gyhoeddus. Mae'r Cwmni'n partneru'n strategol ag endidau cyfrifol o'r fath fel cyflenwyr, yn aml yn gwmnïau byd-eang Americanaidd amlwg gyda chodau ymddygiad caeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at safonau cydymffurfio. Mae'r Cwmni yn aml yn cynnig arweiniad i gyflenwyr ar fesurau cywirol mewn perthynas â diogelwch ac amodau'r gweithlu, ac anaml iawn y ceir achosion o dorri cyswllt. Fodd bynnag, bu iddo ddiddymu un contract gwasanaeth glanhau oherwydd adroddiadau o droseddau hawliau dynol o fewn eu gweithlu, fel y nodwyd yn ei Adroddiad Cynaliadwyedd yn 2022. Bydd Robeco'n holi yn ein sgwrs nesaf sut y daeth hyn i'r amlwg.

Ymholodd Robeco ymhellach am broses asesu risg y Cwmni, yn enwedig o ran ardaloedd lle mae yna wrthdaro a risg uchel. Wrth i'r Cwmni ehangu ei fusnes storfeydd batris, mae cyrchu cobalt yn peri her, gan fod dros 70% o gyflenwad y byd yn dod o Weriniaeth Ddemocrataidd Congo. Eglurodd y Cwmni ei fod yn defnyddio ymgynghorwyr allanol i ddiffinio rhanbarthau lle mae yna 'wrthdaro' neu 'risg uchel'. Ystyrir cyflenwyr fel Samsung, sy'n cyrchu o Weriniaeth Ddemocrataidd Congo, yn risg uchel, ac mae'r Cwmni'n gofyn iddynt gadw at y Broses Sicrhau Mwynau Cyfrifol (RMAP) er mwyn gwarantu arferion cyrchu cyfrifol. Er na allai'r Cwmni ddarparu canran benodol, dywedodd bod mwyafrif helaeth y cobalt yn cael ei gyrchu gan gyflenwyr a restrir ar y RMAP. Mae'r Cwmni wrthi'n diweddarau'r broses o asesu cyflenwyr yn fewnol ar hyn o bryd. Ymhellach, cadarnhaodd y Cwmni y caiff y rhestr o fwyndoddwyr/purwyr sydd mewn perygl o dorri hawliau dynol ei diweddarau bob blwyddyn, gan gynnwys cynnal asesiadau ar y lefel risg ar y cyd ag ymgynghorwyr trydydd parti. Mae disgwyl i fanylion mwy cynhwysfawr am yr ymdrechion hyn gael eu hamlinellu yn yr adroddiad cynaliadwyedd sydd ar y gweill. Soniodd y Cwmni hefyd ei fod yn ystyried cynnal archwiliadau dethol o gyflenwyr haen 2 i sicrhau cydymffurfiaid, er nad yw amserlen cyflwyno'r rhain wedi'i chadarnhau. Mae'r Cwmni hefyd yn ymgysylltu â'i gymheiriaid yn y diwydiant drwy fentrau cydweithio i gyfnwid arferion gorau mewn cyrchu cyfrifol. Mae'n galonogol dysgu bod y Cwmni'n cymryd sawl cam i wella ei broses diwydrwydd dyladwy. Mae Robeco'n bwriadu olrhain y cynnydd yn ein sgwrs nesaf.

Holodd Robeco hefyd am effaith ddisgwyliedig deddfwriaeth arfaethedig yr UE ar wahardd cynnyrch a wnaed gyda llafur dan orfodaeth. Nid yw'r Cwmni'n disgwyl llawer o effaith, gan eu bod yn mynnu nad oes achosion o lafur dan orfodaeth yn rhan o'u cadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, mae'r Cwmni'n cydnabod y gallai rheoliadau o'r fath arwain at yr angen am brotocolau mewnol mwy cadarn a phrosesau olrhain mwy manwl. Er y gellir rhagweld y cynnydd mewn costau a gysylltir â bodloni gofynion rheoleiddiol, dywedodd y Cwmni na fyddai pob un o'i gwsmeriaid yn gwerthfawrogi prosesau olrhain mwy manwl a/neu costau o'r fath yn cael eu hadlewyrchu ym mhrisiau ei gynnyrch.

Canlyniad:

Mae Robeco wedi'i galonogi gan rai o'r camau y mae'r Cwmni wedi'u cymryd i wella'r broses diwydrwydd dyladwy hawliau dynol ymhellach, fel y diweddariad i asesiad y cyflenwyr a'r archwiliadau arfaethedig o gyflenwyr haen 2. Mae Robeco'n bwriadu olrhain cynnydd y gwelliannau hyn, yn ogystal ag amserlenni allweddol. Am y tro, mae Robeco'n parhau i adrodd cynnydd gwastad ar yr holl amcanion ymgysylltu.

9.11 Mae Polisi Ymgysylltu Robeco'n cydymffurfio'n llawn â gofynion Cyfarwydddeb Hawliau Cyfranddalwyr Ewropeaidd II (SRD II). Gellir dod o hyd i fanylion llawn Polisi Ymgysylltu Robeco ym [Polisi Stiwardiaeth Robeco](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Mae asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rhan o'r ymgysylltiad ehangach hwn.

9.12 Rydym yn parhau i ymgysylltu â rheolwyr y cronfeydd gwaelodol yn rheolaidd dros e-bost, dros y ffôn, neu drwy gyfarfodydd ar lein neu wyneb yn wyneb.

Un enghraifft o ymgysylltiad o'r fath yn ystod y cyfnod oedd pan fu i ni gysylltu â'r rheolwyr Dyraniad Asedau Tactegol gwaelodol er mwyn dod i ddeall metrigau ESG allweddol parhaus pob cronfa; rydym yn cynnal yr ymgysylltiad hwn bob tro y byddwn yn cychwyn cronfa newydd o fewn y Dyraniad Asedau Tactegol.

9.13 Mae cyflwyniad adroddiad stiwardiaeth llawn diweddaraf Robeco i'w weld yma [Polisi Stiwardiaeth Robeco](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Bydd Robeco'n adrodd yn erbyn y cod stiwardiaeth yn flynyddol.

9.14 Fel y soniwyd eisoes, mae'r Gronfa'n aelod o LAPFF. "Mae'r LAPFF yn hyrwyddo llywodraethu corfforaethol o safon uchel i ddiogelu cronfeydd pensiwn awdurdod lleol yn hirdymor" (Ffynhonnell: LAPFF). Mae gan LAPFF dros 80 o aelodau ar hyn o bryd, gydag asedau sydd werth dros £350 biliwn. Mae LAPFF yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau gyda'r nod o annog newid. Mae rhagor o wybodaeth am LAPFF i'w gweld yma: lapfforum.org/about (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

9.15 Mae gan y Gronfa ddaliadau gyda sawl rheolwr y tu allan i Bartneriaeth Pensiwn Cymru, sy'n ymgysylltu â chwmnïau ar ran y Gronfa. Amlinellir enghreifftiau o'r ymgysylltu a wnaed dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 yn y tabl isod:

Cronfa:	Cronfa Ragfantoli Man Group
Thema:	Newid Hinsawdd
Cwmni:	Nippon Steel Corp
Gweithgarwch:	Ymgysylltu – strategaeth ddatgarboneiddio

Crynodeb:

Nippon Steel Corp yw gwneuthurwr dur mwyaf Japan ac un o'r mwyaf yn fyd-eang. Mae gan y cwmni darged lleihau allyriadau o 30% erbyn 2030 ac mae ei strategaeth ddatgarboneiddio wedi'i seilio ar ffwrneisiau chwyth â chwistrellir â hydrogen (technoleg sy'n dod o dan brosiect COURSE 50) a ffwrneisiau arc drydan. Pryderon nodedig COURSE 50 yw bod glo'n parhau i fod yn un o brif gynhwysion y broses a bod cyfran o'r lleihad mewn allyriadau cysylltiedig yn dibynnu ar ddal a storio carbon. Mae buddsoddwyr yn ffafrio ffwrneisiau arc drydan sy'n rhedeg ar ynni cyfan gwbl adnewyddadwy, ac mae'r dechnoleg hon yn dechrau cael ei chyflwyno gan rai cymheiriaid byd-eang.

Bu i grŵp buddsoddwyr sy'n cynnwys Man Group, Storebrand, Corporate Action Japan ac a gydlynir gan yr Australasian Center for Corporate Responsibility ("ACCR"), ymgysylltu gyda'r cwmni cyn ei gyfarfod cyffredinol blyneddol. Cynhaliwyd sawl cyfarfod gyda'r rheolwyr i drafod uchelgais y targedau presennol, y strategaeth i'w cyflawni, a p'un a oedd y mentrau presennol i'w rheoli drwy'r polisi cydnabyddiaeth ariannol yn cyd-fynd yn ddigonol â'r nodau hyn.

Canlyniad:

Yn dilyn misoedd o ymgysylltu, croesawodd y grŵp cyfranddalwyr gyhoeddiad y Cwmni am well ymrwymadau hinsawdd. Gweithiodd y cwmni'n adeiladol i wella'r uchelgais mewn perthynas â datblygu gwybodaeth yn fewnol er mwyn newid o brosesau ffwrnais chwyth i brosesau ffwrnais arc drydan i gynhyrchu dur. Yn ogystal, croesawyd datganiad gan y cwmni bod angen cyflenwad sefydlog o hydrogen gwyrdd ac ynni gwyrdd (ynni adnewyddadwy) fel mewnbyn allweddol i gyflawni ei darged o fod yn garbon niwtral. Ym mis Mehefin, cynhaliodd y tîm Stiwardiaeth gyfarfod dilynol wyneb yn wyneb â'r cwmni, ac mae momentwm yr ymgysylltiad hwn wedi parhau yn 2024.

Cronfa:	Cronfa Ragfantoli Man Group
Thema:	Newid Hinsawdd
Cwmni:	Electronic Power Development ("J-Power")
Gweithgarwch:	Ymgysylltu – targedau lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwyrdd yn unol â Chytundeb Paris
Crynodeb:	

Er bod J-Power, sef gweithredwr ynni glo mwyaf a chweched cyfleustod ynni mwyaf Japan, wedi ymrwymo'n gyhoeddus i drawsnewid i fod yn garbon niwtral, dengys tystiolaeth fod yna fwlch sylweddol rhwng ei strategaeth ddatgarboneiddio a nodau Cytundeb Paris. Nid yw'r cwmni wedi diffinio amserlen ar gyfer lleihau'r defnydd o asedau glo domestig, sy'n gam hanfodol tuag at gyflawni llwybr sero net, y dylai economïau datblygedig fel Japan anelu at ei gyrraedd erbyn

2035, yn ôl yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol (IEA). Yn 2022, lluniwyd cynghrair rhwng Man Group a'r ACCR, HSBC Global Asset Management ac Amundi, ac roedd gan bob un ohonynt bryderon unigol mewn perthynas ag ymrwymïadau hinsawdd J-Power. Yn dilyn hyn, bu i Man Group, fel rhan o'r grŵp buddsoddwyr newydd ei lunio, gyd-ffeilio'r cynigion cyfranddalwyr hinsawdd cyntaf dan arweiniad grŵp buddsoddwyr sefydliadol yn Japan. Gwnaed y penderfyniad i ffeilio yn dilyn cyfres o gyfarfodydd gyda'r cwmni a chyfnewid llythyrau yn amlinellu disgwyliadau'r grŵp buddsoddi. Yn ystod y broses, daeth yn amlwg nad oedd y cwmni'n barod i fodloni'r gofynion hyn.

Yn 2023, am yr ail flwyddyn yn olynol, targedodd y gynghrair y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol drwy ffeilio dau benderfyniad cyfranddalwyr i alw ar y Cwmni i osod a datgelu targedau lleihau allyriadau tymor byr a thymor canolig credadwy, sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris, a datgelu sut mae polisiâu cydnabyddiaeth ariannol yn cymhell cynnydd yn erbyn targedau lleihau allyriadau. O ystyried y gwahaniaeth sylweddol rhwng strategaeth ddatgarboneiddio J-Power a'r nodau a bennwyd gan Gytundeb Paris, ar y cyd â diffyg cynnydd o bwys gan y cwmni yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2022, nododd y grŵp buddsoddwyr hefyd eu bwriad i bleidleisio yn erbyn ail-ethol y cyfarwyddwr sy'n bennaf gyfrifol am strategaeth hinsawdd y cwmni, sef y Cyfarwyddwr Cynrychiadol (Is-lywydd Gweithredol) Hitoshi Kanno.

Canlyniad:

Cafodd y penderfyniadau cyfranddalwyr gefnogaeth o 21% a 15%, yn y drefn honno, a oedd yn cynrychioli galwad gadarn gan gyfranddalwyr J-Power i gryfhau strategaeth ddatgarboneiddio'r cwmni ac i barhau i ymgysylltu er mwyn monitro ymateb y cwmni i'r materion hyn. Roedd lefel anghydfod y cyfranddalwyr tuag at Hitoshi Kanno yn uwch na'r cyfartaledd a welwyd ar gyfer aelodau eraill y bwrdd.

Egwyddor 10

Ymgysylltu

“Mae llofnodwyr yn cymryd rhan mewn ymgysylltiadau cydweithredol i ddylanwadu ar cyhoeddwyr yn ôl yr angen”

10.1 Bu i ni gymryd rhan yn natblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i gyfuno buddsoddiadau wyth cronfa CPLIL Cymru. Bu i'r Gronfa hefyd ymgysylltu'n rhagweithiol gyda'r Bartneriaeth er mwyn pennu ei pholisi a'i hamcanion Buddsoddi Cyfrifol. Gwnaeth swyddogion y Gronfa gais ffurfiol am ystyried is-gronfa ecwiti gweithredol cynaliadwy fel rhan o'r gronfa gyfunol. Rydym wedi bod yn mynd ati i ymgysylltu â phawb dan sylw, gan gynnwys y Bartneriaeth a Russell, gan arwain datblygiad yr is-gronfa, ac mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo dyraniad o 15% iddo. Er mai Clwyd wnaeth gais i'r gronfa hon gael ei chreu, bydd y rhan fwyaf/pob un o'r cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru bellach yn buddsoddi yn y gronfa. Mae canlyniad ein gwaith 3 i 4 blynedd yn ôl bellach wedi arwain at y cyfle i ni'n hunain ac eraill fuddsoddi mewn cronfa ecwiti gynaliadwy, ar ôl lansio'n llwyddiannus ym mis Mehefin 2023 gyda dros £1 biliwn mewn asedau dan reolaeth adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Rydym ni, ynghyd ag awdurdodau cyfansoddol eraill yng Nghymru, wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn datblygu ymhellach ddatrysiadau buddsoddi sy'n bodloni ein hamcanion cyfrifol.

10.2 Fel un o aelodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, rydym wedi dirprwyo pob hawl pleidleisio i'r Bartneriaeth, sy'n defnyddio Robeco fel darparwr pleidleisio ac ymgysylltu penodedig. Rydym hefyd yn dirprwyo ein hawliau pleidleisio i reolwyr gwaelodol y Portffolio Dyraniad Asedau Tactegol. Rydym yn cael enghreifftiau o bleidleisio ac ymgysylltu yn rheolaidd gan bob un o reolwyr gwaelodol ein portffolio Dyraniad Asedau Tactegol (pan fo'n berthnasol).

10.3 Er mwyn dewis achosion ymgysylltu perthnasol, mae Robeco'n gweithio ar y cyd â buddsoddwyr sefydliadol eraill ar fentrau ar y cyd megis Gweithredu ar Hinsawdd 100+.

Mae Robeco'n ymgysylltu'n frwd â chwmnïau ar ran y Gronfa i hyrwyddo trafodaeth ynghylch Sero Net, Datgarboneiddio, Cydweddu Cyfalaf, Polisi Newid Hinsawdd, llywodraethu Newid Hinsawdd a datganiadau TCFD.

Dros y cyfnod dan sylw, mae Robeco wedi bod yn ymgysylltu'n frwd â chwmnïau ar faterion o'r fath, ac mae rhai enghreifftiau i'w gweld isod. Am resymau cyfrinachedd, mae pob enghraifft yn ddienw ar gais y darparwr.

Cronfa:	Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
Thema:	Nodau Datblygu Cynaliadwy: Hawliau Dynol
Sector	Y Sector Harddwch
Gweithgarwch:	Cyfarfod ag arbenigwyr hawliau dynol a chyrchu
Crynodeb:	

Ar 20 Chwefror, cynhaliodd Robeco sgwrs ymgysylltu yn swyddfa'r Cwmni ym Mharis gyda'r adran Cysylltiadau Diwydiannol a'r cyfarwyddwr hawliau dynol. Cyflog byw oedd prif bwnc y drafodaeth.

Hawliau dynol: Nododd y Cwmni bod hawliau dynol yn flaenllaw yn ei ymagwedd at gynaliadwyedd a bod gan fuddsoddwyr Ewropeaidd yn arbennig ddiddordeb brwd yn hyn. Cafodd eu hadroddiad cyntaf ar hawliau dynol ei gyhoeddi ar ddiwrnod ein sgwrs. Yn yr adroddiad, maent yn dilyn y dull diwydrwydd dyladwy o asesu'r risgiau hawliau dynol amlycaf a sut y maent yn eu rheoli mewn cadwyni cyflenwi. Gan y cyhoeddiad yr adroddiad yn fuan ar ôl ein cyfarfod, bydd Robeco yn ei drafod yn eu galwad ymgysylltu nesaf.

Cyflog Byw: Yn 2020, gwnaeth y Cwmni ymrwymiad cyhoeddus i warantu cyflog byw i'w weithwyr ei hun (88.000 ledled y byd) erbyn 2030, gan gynnwys staff manwerthu. Yr ail ymrwymiad yw bod cyflenwyr strategol yn gwarantu cyflog byw erbyn 2030. Maent yn defnyddio'r meincnod cyflog byw mwyaf datblygedig, sef methodoleg Anker sydd wedi'i seilio ar waith cyn-weithiwr y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, Richard Anker, a'i wraig, Martha Anker. Cyfaddefodd y Cwmni nad yw'r meincnod hwn bob amser ar gael yn eang oherwydd ei ddyfnder, ac yn yr achosion hynny maent yn troi at arbenigwyr y Fair Wage Network (FWN) i bennu meincnodau, e.e. y Wage Indicator Foundation. Yr ardaloedd risg uchel ar gyfer y Cwmni o ran cyflog byw yw America Ladin, rhai o ranbarthau'r Unol Daleithiau a De-ddwyrain Asia. Mae trothwy'r FWN bellach wedi'i ymgorffori yn y systemau AD, mewn adnoddau adrodd AD sydd eisoes yn bodoli. Yn ymarferol, golyga hyn bod rhaid i bob gwlad ddatgelu'r bwlch cyflog rhwng lefelau cyflogau presennol a'r cyflog byw. Yna, mae angen rhoi Cynlluniau Gweithredu Cywirol ar waith i fynd i'r afael â chau'r bwlch hwnnw. Yn 2023, ardystiwyd y Cwmni gan FWN fel cyflogwr cyflog byw byd-eang. Mae Robeco'n cymeradwyo'r gwaith o integreiddio'r cyflog byw wrth sgorio eu cyflenwyr strategol (fel bonws), ac maent yn ystyried hyn yn enghraifft o arfer orau. Er bod Robeco'n croesawu'r gwaith hwn, mae arnynt eisiau gweld y Cwmni'n defnyddio'r gwaith hwn mewn cadwyni cyflenwi, y tu hwnt i gyflenwyr strategol.

Canlyniad:

Mae Robeco'n gwerthfawrogi'r drafodaeth agored gyda'r Cwmni am hawliau dynol. Yn y sgwrs nesaf, maent yn bwriadu cael golwg ar eu hadroddiad hawliau dynol newydd sbon a thrafod rhywfaint o'r risgiau gwaith teilwng mewn cadwyni cyflenwi.

Cronfa:	Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
Thema:	Nature Action 100
Sector:	Cwmni Daliadau Manwerthu a Chyfanwerthu Amlwladol
Gweithgarwch:	Galwad gynadledda gydag aelod bwrdd annibynnol
Crynodeb:	

Siaradodd Robeco gyda Chadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol y Cwmni, y Pennaeth Cysylltiadau Buddsoddwyr a chynrychiolwyr eu hadran cynaliadwyedd ar 18 Ionawr. Cydlynwyd y drafodaeth gydweithredol hon gyda buddsoddwyr eraill gan Eumedion, sef sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau buddsoddwyr sefydliadol o'r Iseldiroedd ar gynaliadwyedd a llywodraethu corfforaethol. Yn ystod yr alwad, bu i ni drafod eu gwybodaeth ddiweddaraf am lywodraethu, eu cynlluniau hinsawdd a'r effaith ehangach ar natur.

Rhannodd y Cwmni bod eu targedau lleihau Cwmpas 1 a 2 ar gyfer 2030 a 2050 wedi cael eu dilysu gan y fenter Targedau wedi'u Seilio ar Wyddoniaeth (SBTi), a'u bod yn aros am ddilysiad ar gyfer eu targedau lleihau Cwmpas 3. Cadarnhawyd bod y targedau ar daflwybr 1.5 gradd. Maent yn gweithio gyda'u cyflenwyr i ddatblygu capasiti ar bennu targedau SBTi a'r adroddiadau ar allyriadau wedi'i seilio ar y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr.

O ran eu hymdrechion ar faterion sy'n ymwneud â natur, bu iddynt ddyfynnu eu strategaeth Refresh, sy'n ceisio dod â'r hinsawdd a natur ynghyd a chydabod eu rhyng-ddibyniaethau. Bydd mwy o fanylion am y strategaeth hon yn cael eu cyhoeddi yn ystod eu Diwrnod Strategaeth yn 2024. Maent wrthi'n gweithio ar hyn o bryd ar sicrhau nad yw eu cadwyn werth ar gyfer eu brandiau eu hunain yn cynnwys datgoedwigo na thrawsnewid, ac ar gynnal dadansoddiad gydag adnoddau fel ENCORE i nodi eu heffeithiau a'u dibyniaethau ar natur. Bu i ni annog y Cwmni i ystyried adrodd am eu hymdrechion yn unol â chanllawiau'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Natur (TNFD), gan fod manwerthwyr eraill fel Carrefour wedi ymrwymo i wneud hynny eleni. Mae'r Cwmni'n asesu hyfywedd adrodd yn erbyn canllawiau'r TNFD ac yn bwriadu cyflawni hyn cyn bo hir.

O ran lleihau eu hamlygiad i broteinau o anifeiliaid, mae brandiau manwerthu bwyd y Cwmni yn Ewrop wedi ymrwymo i bennu llinell sylfaen ar gyfer eu cymhareb brotein bresennol (o anifeiliaid o'i gymharu ag o blanhigion) a phennu targedau i gynyddu swm y proteinau o blanhigion erbyn diwedd 2024. Maent yn cydnabod nad yw'r Unol Daleithiau'n gwneud yr un cynnydd o ran proteinau o blanhigion, ac felly nid ydynt yn bwriadu pennu targed o'r fath yn yr Unol Daleithiau.

Yn ystod yr alwad, dywedodd Robeco wrth y Cwmni ei fod wedi'i gynnwys yn rhestr NA100 o gwmnïau targed dan ymgysylltiad. Darparodd y Cwmni ymateb ysgrifenedig i'r llythyr i fuddsoddwyr a anfonwyd erbyn diwedd 2023, a'u hysbysodd y ffurfiol am y fenter ymgysylltu a'r

disgwyliadau buddsoddwyr oedd ynghlwm â'r drafodaeth ymgysylltu hon. Mae'r Cwmni'n ceisio cyfathrebu mwy am sut y mae'n bwriadu cynnal asesiadau o effaith, dibyniaeth a risg, adolygu targedau presennol a rhai newydd posib, cymryd camau o fewn ei frandiau a sut i ddatgelu'r cynnydd a gyflawnwyd yn ystod 2024. Mae'r Cwmni'n awyddus i gydweithio â'r grŵp buddsoddwyr sy'n cynrychioli NA100 i ddatblygu ei waith ar eu hagenda natur ymhellach, ac mae Robeco wedi trefnu eu hymgysylltiad NA100 cyntaf ar 11 Ebrill.

Canlyniad:

Mae'r Cwmni'n cydnabod perthnasedd strategol natur yn ei fusnes ac wedi cychwyn gwneud gwaith ychwanegol i ddod i ddeall effeithiau a dibyniaethau ei fusnes ar natur. Mae'n disgwyl ehangu'r gwaith hwn drwy gydol 2024, ac yn parhau i fod yn awyddus i gydweithio â buddsoddwyr i gyflymu ei ymdrechion. Mae Robeco'n cadw pob amcan ymgysylltu ar gynnydd gwastad ac yn bwriadu ymgysylltu â'r Cwmni ym mis Ebrill 2024 ar y cyd â'r grŵp buddsoddwyr NA100 i gychwyn y drafodaeth ymgysylltu hon yn ffurfiol gyda'r fenter ehangach.

Ffynhonnell: Robeco

Cronfa:	Is-gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy
Thema:	Mapio NDC
Sector:	Nwyddau Defnyddwyr Amlwladol
Gweithgarwch:	Cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r Pennaeth Ymgysylltu ESG ar reoli cysylltiadau llafur
Crynodeb:	

Ar 18 Mawrth 2024, ymwelodd dirprwyaeth o'r Cwmni â swyddfeydd Robeco yn Rotterdam. Buont yn siarad â'r Pennaeth Ymgysylltu ESG, Arbenigwr Ymgysylltu ESG, y Prif Swyddog Gweithredu Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Cyfreithiol Ewrop. Yn bennaf, tafododd Robeco faterion yn ymwneud â llafur, gan sôn yn fras am strategaeth y cwmni ar gyfer awtomatiaeth a'u hymagwedd at eu cadwyn gyflenwi.

Edrychodd trafodaeth Robeco am gyflyrau llafur yn y Cwmni ar dri phrif bwnc: diogelwch, cyflogau a buddion, a rhaglenni dewis gyrfa. Nododd y Cwmni bod y bwlch mwyaf rhwng craffu allanol a pherfformiad mewnol i'w weld yn eu hymagwedd at ddiogelwch. Darparodd eu diweddariad diogelwch diweddaraf ddata am y gostyngiad yn y gyfradd digwyddiadau cofnodadwy a'r gyfradd ddigwyddiadau colli amser. Bu iddynt sôn bod buddsoddiadau mewn technoleg newydd, cylchdroi swyddi ac offer diogelwch yn newidynnau a gyfrannodd at y gwelliant hwn. Mae'r Cwmni wedi bod yn datgelu data diogelwch ers 2019 ac yn parhau i wneud cynnydd ystyrlon. Yn yr Unol Daleithiau, maent hefyd yn darparu data i'r Weinyddiaeth Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (OSHA), sy'n ei gymharu â chyfartaleddau'r diwydiant. Hoffai Robeco weld datgeliadau mwy manwl ar ddata diogelwch fesul adran a lleoliad. Tynnodd y Cwmni sylw

at godiadau cyflog, buddion a rhaglen dewis gyrfa fel themâu y maent yn falch ohonynt ac sy'n cyd-fynd â'u haddewid i ddod yn "gyflogwr gorau'r ddaear a lleoliad mwyaf diogel y ddaear i weithio". Mae ganddynt 10 o wahanol raglenni uwchsgilio sy'n helpu eu gweithwyr gyda'r sgiliau y maent eu hangen i newid swyddi o fewn y cwmni neu ymuno â chyflogwr arall.

Roedd y pynciau trafod eraill yn ymwneud â strategaeth y Cwmni ar gyfer awtomatiaeth a'u hymagwedd at eu cadwyn gyflenwi. Mae strategaeth awtomatiaeth y Cwmni'n edrych ar eu canolfannau'n unigol. Maent wedi ôl-osod rhai adeiladau a wedi cynnwys technolegau newydd i wella effeithlonrwydd o ran cyflenwi, ond mae'r gweithwyr yn parhau i fod yn bwysig. Roeddent yn pwysleisio eu bod yn annhebygol o ôl-osod yn y canolfannau lle maent yn rhedeg ar gapasiti llawn, gan fod llafur ar hyn o bryd yn fwy cost effeithlon yn yr achosion hyn na buddsoddiadau technolegol ar raddfa fawr. Pan ofynnwyd iddynt am liniaru risgiau cadwyni cyflenwi, nododd y Cwmni eu datgeliadau cyhoeddus o restrau cyflenwyr sy'n caniatáu craffu trydydd parti fel system gadw cydbwysedd.

Canlyniad:

Mae Robeco o'r farn bod y Cwmni'n gwneud buddsoddiadau a chynnydd ystyrlon ym maes diogelwch. Ar gyfer y trafodaethau dilynol, hoffai Robeco ymgysylltu â'r Cwmni ymhellach ar arferion cadwyni cyflenwi hefyd.

Ffynhonnell: Robeco

10.4 Rydym yn cymhwyso gofynion y Cod Stiwardiaeth drwy ein trefniadau gyda rheolwyr asedau a drwy ein haelodaeth o LAPFF. Fel aelod, rydym yn ymgysylltu'n gyson gyda'n buddsoddiadau gwaelodol. Fel y soniwyd eisoes, rydym wedi bod yn aelod ers dechrau'r 2000au.

10.5 Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein cydymffurfiaeth yn erbyn y Cod diweddaraf, ac fel aelod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru mae disgwyl i'r Bartneriaeth a rheolwyr y cronfeydd gwaelodol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth. Rydym yn falch bod Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i'r Cod diweddaraf.

10.6 Rydym yn aelod cysylltiedig o **Pensions for Purpose** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). "Mae Pensions for Purpose yn gweithredu fel pont rhwng rheolwyr asedau, cronfeydd pensiwn a'u cynghorwyr proffesiynol i annog y llif o arian cyfalaf tuag at fuddsoddiad effaith" (Ffynhonnell: Pensions for Purpose, 2022). Bu i Swyddogion y Gronfa hefyd annog y Bartneriaeth i ddod yn aelod cysylltiedig o Pensions for Purpose, ac roeddent yn llwyddiannus.

Yn ystod y cyfnod, roedd Debbie Fielder, cyn Ddirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd (sydd wedi ymddeol adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) yn aelod o fwrdd Pensions for Purpose fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

10.7 Rydym hefyd yn aelod o'r Impact Investing Adopters Forum, y mae Pensions for Purpose yn ei redeg mewn partneriaeth â'r Impact Investing Institute i ddatblygu'r egwyddorion. Fel mabwysiadwr, rydym wedi ymrwymo i Egwyddorion Buddsoddi Effaith y

Sefydliad hwnnw, ac i ddatblygu'r rhaglen fuddsoddi effaith. Mae gwybodaeth fanwl am yr egwyddorion hyn i'w gweld yma: [Pensions with Impact](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

10.8 Rydym yn ymgysylltu'n gyson gyda'r grwpiau, y byrddau a'r pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt, ac yn ceisio dylanwadu arnynt. Mae swyddogion presennol y Gronfa'n aelodau o'r canlynol:

- Grŵp Buddsoddi Cyfrifol Bwrdd Cynghori'r Cynllun
- Grŵp Buddsoddi Cyfrifol ar draws Cronfeydd Cyfunol CPLIL
- Is-Grŵp Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Bwrdd Crwn Buddsoddi Cyfrifol Cynlluniau Pensiwn y DU
- Gweithgor Bwrdd Crwn Perchnogion Asedau Sefydliadol y Rhwydwaith Buddsoddi Effeithiol Byd-eang (GIIN)
- Cyfarwyddwyr Anweithredol Pensions for Purpose (Pro Bono)
- Pwyllgor Awdurdodau Lleol Cymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes (PLSA).

10.9 Rydym yn cael cwestiynau gan aelodau, grwpiau lleol a chyflogwyr am ddull y Gronfa o fuddsoddi'n gyfrifol, ac am reoli'r risg i'r hinsawdd yn arbennig, ac rydym yn parhau i fynd i'r afael â'r rhain yn briodol pan ddônt i law. Mewn cyfnodau blaenorol, mae Trefnu Cymunedol Cymru wedi estyn allan i swyddogion y Gronfa i drafod ein hymagwedd at faterion o'r fath. Hefyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ymgysylltodd Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) ynglŷn â pholisi'r Gronfa ar droi oddi wrth buddsoddi mewn tanwyddau ffosil. Cefnogodd aelodau CBSW ni yn eu dull lleihau carbon. Mae'r trafodaethau hyn yn helpu atgyfnerthu'r flaenoriaeth buddsoddi cyfrifol o fewn ein cynllun busnes ac yn rhoi sicrwydd fod budd-ddeiliaid ehangach yn cefnogi ein hymagwedd.

10.10 Rydym yn gwahodd holl gynrychiolwyr y cyflogwyr a'r aelodau i Gydgyfarfod Ymgynghorol Blynyddol, ble byddwn yn egluro ein ddull buddsoddi (gan gynnwys buddsoddi cyfrifol) ac yn ceisio barn y gynulleidfa.

10.11 Dros y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024, rydym wedi cael ein gwahodd i siarad a chymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn ag eitemau buddsoddi cyfrifol. Mae rhai enghreifftiau o hyn i'w gweld yn y tabl isod.

Dyddiad	Disgrifiad a Siaradwyr	Pynciau Allweddol a Drafodwyd
26 Mehefin 2023	Cynhadledd Awdurdodau Lleol PLSA 26 Mehefin 2023	Sesiwn lawn ar y pwnc ESG 2.0 a rôl panel Cynllunio Dyfodol y CPLIL o ran y camau a'r heriau nesaf ar gyfer ESG, gan bwysu a mesur cerrig milltir cronfeydd ar eu taith sero net, mapio'r newidiadau allai godi i bolisi a rheoliadau – cyfalaf naturiol, TNFD – a mynd i'r afael â data a metrigau.

28 Medi 2023	Fforwm Buddsoddi Strategol Buddion wedi'u Diffinio. Panel ESG	Panel ar ESG Caiff newid hinsawdd ei osod fel risg fel arfer. Ond mae hefyd yn cynnig un o gyfleoedd buddsoddi mwyaf y ddwy ddegawd nesaf. Byddwn yn archwilio gwahanol gamau'r llwybr Sero Net a sut y gall perchnogion asedau ddehongli'r trobwyntiau a fydd yn sbarduno creu cyfoeth.
11 Hydref 2023	Fforwm Trawsnewid Buddsoddwyr Ynni Phil Latham	- Panel ar strategaethau Buddsoddi ar gyfer 2023 a thu hwnt - effaith chwyddiant a chynnydd mewn cyfraddau ar safbwynt ac enillion buddsoddwyr - sut mae nodau'r hinsawdd a gorchmynion ESG / cynaliadwyedd yn cael effaith fewnol ar strategaethau buddsoddwyr wrth ddyrannu cronfeydd - ystyriaethau allweddol buddsoddwyr sefydliadol wrth ddewis buddsoddiadau yn y trawsnewid ynni - safbwyntiau am danwyddau trawsnewid o ystyried geowleidyddiaeth diweddar - diffinio buddsoddiadau trawsnewid ynni yn erbyn bwcedi ecwiti isadeiledd, ac effaith cyfuno - y strategaeth at y dyfodol
14 Mawrth 2024	Podlediad Buddsoddi LGC (Seminar Buddsoddi LGC) Phil Latham Debbie Fielder	Podlediad am ddatblygiadau yn y cynllun, gan gynnwys cydweithrediad o fewn Cronfa Gyfunol Cymru, uchelgeisiau buddsoddi'r llywodraeth a phwysau buddsoddi cynyddol ar y CPLIL.

Egwyddor 11

Ymgysylltu

“Mae llofnodwyr yn uwchgyfeirio gweithgarwch stiwardiaeth i ddylanwadu ar gyhoeddwr yn ôl yr angen”

11.1 Rydym yn disgwyl i’n rheolwyr buddsoddi a Phartneriaeth Pensiwn Cymru gymryd camau priodol ar ein rhan wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro buddsoddiadau ac arferion presennol ar faterion a allai gyflwyno risg ariannol sylweddol i berfformiad hirdymor y Gronfa, gan gynnwys ffactorau ESG.

11.2 Rydym yn disgwyl y lefel uchaf o fonitro gan reolwyr buddsoddi a Phartneriaeth Pensiwn Cymru er mwyn gallu nodi a datrys unrhyw broblemau posib yn brydlon ac yn gynnar.

Y Broses Uwchgyfeirio

11.3 Rydym yn disgwyl i’r Bartneriaeth uwchgyfeirio unrhyw weithgarwch stiwardiaeth ar ein rhan gyda Robeco, fel y nodir yn ein hymateb i Egwyddor 12.

11.4 Mae’r Bartneriaeth yn ystyried bod uwchgyfeirio mewn perthynas ag ymgysylltiadau’n agwedd allweddol ar stiwardiaeth effeithiol, ac maent wedi bod yn gweithio’n agos gyda Robeco i sicrhau bod uwchgyfeirio wedi’i sefydlu yn nulliau Robeco yn ôl yr angen.

11.5 Cred Robeco fod cyfathrebu gyda chwmnïau y mae cleientiaid y Bartneriaeth yn buddsoddi ynddynt yn ddull mwy effeithiol na gwahardd cwmnïau o’r fath o bortffolios, gan fod hyn yn galluogi Robeco i ddylanwadu a chael effaith gadarnhaol. Mae’r Bartneriaeth a Robeco’n ystyried gwahardd fel y dewis olaf, a byddai hynny ond yn digwydd ar ôl ymgysylltu ac uwchgyfeirio. Mae’r Bartneriaeth yn ceisio dylanwadu ar gyhoeddwr pryd bynnag y bo modd.

11.6 Lle bo’r ymgysylltiad cychwynnol â chwmni’n methu, mae Robeco’n rhoi ‘ymgysylltiad uwch’ ar waith, sy’n cynnwys uwchgyfeirio trafodaeth gyda chwmnïau sy’n mynd yn erbyn normau ymddygiadol mewn meysydd megis hawliau dynol, rheolau amgylcheddol, llafur a llygredigaeth.

Mae ymgysylltiadau uwch yn ceisio mynd i’r afael ag achosion o fethu â chydymffurfio â chodau ymddygiad rhyngwladol mewn llywodraethu corfforaethol, cyfrifoldeb cymdeithasol, yr amgylchedd a thryloywder.

Os nad yw ymgysylltiad uwch yn arwain at y canlyniad dymunol, gall Robeco a/neu ei gleientiaid benderfynu gwahardd y cwmni rhag cael eu dewis. Mae ymgysylltiadau uwch Robeco fel arfer yn cael eu cynnal dros dair blynedd, a bydd Robeco’n ymgysylltu â’r cwmnïau dros y cyfnod hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am ddulliau ymgysylltu Robeco i'w gweld yn eu [Polisi Stiwardiaeth](#) a [Hadroddiad Stiwardiaeth](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

11.7 Mae enghraifft o uwchgyfeirio drwy bleidleisio o fewn Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy'r Bartneriaeth i'w gweld isod:

Cronfa	Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru
Thema Ymgysylltu	Arferion cydnabyddiaeth ariannol
Dyddiad	15 Tachwedd 2023
Amcanion	Gwella arferion cydnabyddiaeth ariannol

"Bu cryn graffu ar arferion cydnabyddiaeth ariannol y cwmni technoleg hwn o'r Unol Daleithiau dros y blynnyddoedd diwethaf. Er bod Robeco'n nodi bod yr arferion wedi gwella yn ddiweddar, gan gynnwys ehangu polisi adfachu'r cwmni, nid oedd hyn yn ddigon i gefnogi'r cynnig *Say on Pay*. Un o bryderon Robeco oedd natur ddewisol y dyfarniadau cymhelliant hirdymor i rai swyddogion gweithredol. Cafodd hyn ei gyplysu â chysoni cyflog/perfformiad, a'r dyfarniadau opsiwn stoc seiliedig ar berfformiad ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol a'r Prif Swyddog Technegol. I uwchgyfeirio pryderon, dewisodd Robeco bleidleisio yn erbyn ailethol holl aelodau'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol. Cafodd etholiadau'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol gefnogaeth o 76% o leiaf, tra cafodd y cynnig *Say on Pay* ei basio gyda 73% o'r bleidlais (i fyny o 67% yn 2022).

Mae Robeco'n cadw cofnod o ymgysylltiadau aflwyddiannus ac yn trafod y rhain â'r Bartneriaeth mewn cyfarfodydd rheolaidd.

Mae'r swyddogion, drwy is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth, wedi bod yn cydweithio â'r gronfa gyfunol i greu polisi uwchgyfeirio ar gyfer ymgysylltiadau aflwyddiannus. Caiff hyn ei gydnabod bellach o fewn Polisi Stiwardiaeth y Bartneriaeth (a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2023). Mae'r swyddogion bellach yn gweithio ar fanylion y polisi uwchgyfeirio gyda'r Bartneriaeth, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo yn 2023/24. Bydd y polisi hwn yn edrych ar sefydlu proses i gymryd camau mewn meysydd lle bu'r ymgysylltiad yn aflwyddiannus neu lle mae cryn bryder bod cwmni'n torri polisiâu presennol y Bartneriaeth. Mae hwn yn gam cadarnhaol yng nghynnydd y Bartneriaeth tuag at fod yn stiward gweithredol ac yn cefnogi trefniadau llywodraethu da ar draws pob awdurdod cyfansoddol gwaelodol yng Nghymru.

Egwyddor 12

Arfer hawliau a chyfrifoldebau

“Mae llofnodwyr yn arfer eu hawliau a’u cyfrifoldebau’n gyson”

12.1 Rydym yn fuddsoddwr hirdymor sy’n cefnogi ac yn hyrwyddo safonau stiwardiaeth uchel. Ein cred yw y gall stiwardiaeth effeithiol gryfhau a diogelu buddiannau’r Gronfa a’i buddiolwyr.

12.2 Fel rhan o ddiwygiad buddsoddi’r Llywodraeth, rydym wedi cymryd rhan yn natblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i gyfuno buddsoddiadau 8 cronfa CPLIL Cymru. Er mai ni sy’n gyfrifol am bob dyraniad ased strategol a phenderfyniad polisi, y Bartneriaeth sy’n gyfrifol am weithredu.

12.3 Rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â’r Bartneriaeth wrth bennu polisi ac amcanion Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth, ac yn hyderus y byddwn yn ei galluogi i roi ei pholisïau ei hun ar waith. Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru i ddatblygu ei pholisïau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol i ni.

Dirprwyo hawliau pleidleisio i Bartneriaeth Pensiwn Cymru

12.4 Fel aelod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru, rydym wedi dirprwyo’r holl hawliau pleidleisio i’r Bartneriaeth; mae hawliau pleidleisio’n rhoi cyfle a chyfrifoldeb i gyfranddalwyr ymgysylltu a hyrwyddo cyfranogiad yn stiwardiaeth cwmnïau. Rydym yn disgwyl i’r Bartneriaeth a rheolwyr y cronfeydd gwaelodol gydymffurfio â’r Cod Stiwardiaeth.

Cred y Bartneriaeth y gallai methu ag arfer hawliau pleidleisio neu hawliau eraill sydd ynghlwm ag asedau fynd yn groes i fuddiant buddiolwyr yr awdurdodau cyfansoddol.

12.5 Mae’r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel darparwr pleidleisio ac ymgysylltu sy’n helpu llunio a chynnal polisi pleidleisio ac egwyddorion ymgysylltu sy’n cyd-fynd â LAPFF. Yn ogystal, mae Robeco’n gyfrifol am roi’r polisi pleidleisio ar waith ac adrodd arno.

12.6 Cyn i’r Bartneriaeth benodi Robeco a rhoi polisi pleidleisio’r Bartneriaeth ar waith, roedd rheolwyr unigol o fewn Is-gronfeydd yn gyfrifol am bleidleisio yn unol â’u polisi mewnol. Mae cael un polisi wedi sicrhau bod pob pleidlais yn cael eu bwrw mewn modd cyson.

Polisi Pleidleisio

12.7 Ffurfiodd y Bartneriaeth Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol er mwyn cefnogi polisïau Buddsoddi Cyfrifol y gronfa gyfunol a chraffu ar ei darparwyr yn barhaus. Mae gan y grŵp swyddogion yn cynrychioli pob awdurdod cyfansoddol ac maent yn cyfarfod ddwywaith bob chwarter.

12.8 Yn dilyn eu penodiad, gweithiodd y Bartneriaeth gyda Robeco i gytuno ar bolisi pleidleisio priodol. Yn hytrach na datblygu portffolio wedi'i deilwra, aeth y Bartneriaeth ati i adolygu polisi Robeco ei hun a phenderfynodd ei fabwysiadu fel templed cychwynnol. Cymerodd Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol y Bartneriaeth ddulliau amrywiol yn natblygiad ei bolisi pleidleisio i ystyriaeth, gan gynnwys polisi o'r gwaelod i fyny. Fodd bynnag, penderfynodd y grŵp y byddai mabwysiadu polisi mewnol fel safon gychwynnol yn galluogi'r gronfa i roi safon unigol ar waith yn gynt.

Bydd y Bartneriaeth yn adolygu **Polisi Pleidleisio** (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) Robeco bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol.

Meysydd Pleidleisio

12.9 Roedd y Bartneriaeth yn cydnabod her canolbwyntio ar yr holl weithgareddau pleidleisio ac felly wrth ddatblygu eu polisi pleidleisio, dewisodd ganolbwyntio ar chwe maes allweddol. Dewiswyd y chwe maes hyn gan yr Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol ac maent yn destun craffu manwl. Dyma'r chwe maes:

1. Rheoli Newid Hinsawdd
2. Datgeliadau Risg Hinsawdd
3. Gwella trefniadau llywodraethu cyfranddalwyr
4. Amrywiaeth ar y Bwrdd
5. Cadw a Datblygu Cyfalaf Dynol
6. Cydnabyddiaeth ariannol i swyddogion gweithredol: canolbwyntio ar ganlyniadau hirdymor

Mae'r Bartneriaeth a Robeco wedi trafod y chwe maes allweddol ac wedi cytuno y bydd y rhain yn elfen allweddol o'r trafodaethau a'r camau craffu parhaus a gymerir. Bydd Robeco'n rhagweithiol o ran pleidleisio ar gynigion cyfranddalwyr, gan ganolbwyntio'n benodol ar y chwe maes dethol a nodwyd.

Rhybuddion LAPFF a chyfarwyddyd y Bartneriaeth i Robeco

12.10 Fel aelod o LAPFF, mae LAPFF yn darparu rhybuddion am unrhyw ymgyrchoedd i bleidleisio mewn ffordd benodol. Mae'r Bartneriaeth wedi rhoi cyfarwyddyd i Robeco roi ystyriaeth ddyledus i bob rhybudd gan LAPFF, a phan fo Robeco'n ei ystyried yn briodol, bydd yn pleidleisio yn unol â rhybudd LAPFF. Os bydd barn Robeco'n wahanol i farn LAPFF, bydd y Bartneriaeth yn ymgysylltu gyda Robeco ac yn gofyn am resymau am bob digwyddiad.

Monitro effeithlonrwydd pleidleisio

12.11 Cyn i'r Bartneriaeth roi ei pholisi pleidleisio ei hun ar waith, cynhaliwyd pleidleisiau yn unol â pholisïau pleidleisio rheolwyr unigol gwaelodol. Yn sgil natur wrthgyferbyniol polisïau pleidleisio pob un o'r rheolwyr gwaelodol a'r ffocws ar gael un polisi pleidleisio, penderfynodd y Bartneriaeth beidio â chraffu ar ganlyniadau pleidleisio yn annibynnol cyn rhoi'r un polisi hwnnw ar waith.

Mae'r Bartneriaeth yn cael adroddiadau pleidleisio chwarterol gan Robeco sy'n cynnwys ystadegau a gwybodaeth allweddol am bleidleisio dros y cyfnod.

Ymgysylltu a Phleidleisio

12.12 Rydym yn gofyn i'n rheolwyr roi gwybod i ni sut y gwnaethant bleidleisio ar y cyfranddaliadau a gedwir o fewn eu portffolios. Mae crynodeb o weithgarwch pleidleisio'r rheolwyr ar gyfer 2023/2024 i'w weld yn y tabl canlynol.

Rheolwr	Cyfarfodydd Blynyddol/ Arbennig	Cynigion	Pleidleisi au o Blaid	Pleidleisiau yn Erbyn	Pleidleisiau a Ymatalwyd	Heb Bleidleisio / Atgyfeirio / Tynnu'n ôl
Russell: Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy ¹	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh	Amh
Dyraniad Asedau Tactegol						
BlackRock: Cyfleoedd yr UD	109	1,523	1,492	31	6	0
LGIM: Future World North America Equity Index (GBP Hedged)	560	7,784	5,070	2,697	3	14
LGIM: Future World Japanese Equity Index	323	3,967	3,532	435	0	0

Ffynhonnell: Rheolwyr Buddsoddi.

¹ Nid oedd gwybodaeth bleidleisio Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael dros y cyfnod adrodd, gan fod y Gronfa wrthi'n sefydlu ei systemau adrodd. Mae'r systemau adrodd wedi cael eu diweddarau ers diwedd y cyfnod adrodd, a bydd posib adrodd ar gyfer adroddiad y flwyddyn nesaf.

Sylwch: Nid oes data pleidleisio ar gyfer Cronfa Bondiau Prynu a Chynnal Insight sy'n Aeddfedu 2021-25, Cronfa Prynu a Chynnal Dyddiad Byr Insight, Cronfa Hylifedd Sterling LGIM, Giltiau wedi'u Cysylltu â Mynegai dros 5 mlynedd LGIM, Giltiau Dros 15 mlynedd LGIM, Cronfa Bond Arian Lleol Goddefol Marchnad Newydd y Llywodraeth a Strategaeth Llunio Dewis Gwerthu NB US. Mae'n bosib na fydd y ffigurau'n symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu.

Enghreifftiau Pleidleisio

12.13 Mae Robeco'n darparu crynodeb llawn i'r Bartneriaeth o'r holl bleidleisiau a gaiff eu bwrw dros y cyfnod, y disgrifiad hwn, y math o gyfarfod, yr argymhelliad rheoli, yr eiriolwr a phleidlais Robeco. Mae gwneud hyn yn galluogi'r Bartneriaeth i fonitro gweithgarwch Robeco ar ran y Bartneriaeth a chymharu hyn yn erbyn yr egwyddorion pleidleisio a bennir o fewn y polisi pleidleisio.

Rhagor o Wybodaeth

12.14 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ddull y Bartneriaeth o arfer hawliau a chyfrifoldebau yn y fersiwn ddiweddaraf o [Adroddiad Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru](#).

Mae rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Bartneriaeth i'w gweld ar [wefan](#) a [thudalen LinkedIn](#) Partneriaeth Pensiwn Cymru (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Asedau Heb eu Cyfuno: Enghreifftiau Pleidleisio

12.15 Rydym hefyd yn dal buddsoddiadau y tu allan i'r gronfa gyfunol ac felly mae gennym hawliau pleidleisio o ddaliadau o fewn y portffolio Dyraniad Asedau Tactegol. Mae enghreifftiau o bleidleisiau y mae ein rheolwyr gwaelodol wedi'u bwrw o fewn y portffolio Dyraniad Asedau Tactegol dros y cyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024 i'w gweld isod:

Is-gronfa Dyraniad Asedau Tactegol	LGIM Future World North America Equity Index (GBP Hedged)
Cwmni:	NVIDIA Corporation
Dyddiad y cyfarfod:	22 Mehefin 2023
Penderfyniad:	Ethol y Cyfarwyddwr Stephen C Neal
Pleidleisiwyd:	Yn erbyn
Canlyniad:	Pasiwyd y penderfyniad

Pleidleisiwyd yn erbyn gan fod LGIM yn disgwyl i o leiaf traean aelodau Bwrdd cwmni fod yn ferched. Cyfnod cyfartalog ar y bwrdd: Pleidleisiwyd yn erbyn gan fod LGIM yn disgwyl i'r bwrdd gael ei adfywio'n rheolaidd er mwyn cynnal cymysgedd priodol o annibyniaeth, sgiliau perthnasol, profiad, cyfnod a chefnidir.

Is-gronfa Dyraniad Asedau Tactegol	LGIM Future World North America Equity Index (GBP Hedged)
Cwmni:	Amazon.com, Inc.
Dyddiad y cyfarfod:	24 Mai 2023
Penderfyniad:	Adroddiad ar Fylchau Cyflog Rhywedd/Hil Canolrifol ac Wedi'u Haddasu
Pleidleisiwyd:	O blaid
Canlyniad:	Ni phasiwyd y penderfyniad

Pleidleisiwyd o blaid gan fod LGIM yn disgwyl i gwmnïau ddatgelu gwybodaeth ystyrlon am ei fwllch cyflog rhywedd a'r mentrau y mae'n eu rhoi ar waith i gau unrhyw fwllch a nodwyd. Mae hwn yn ddatgeliad pwysig er mwyn i fuddsoddwyr gael gweld cynnydd mentrau amrywiaeth a chynhwysiad y cwmni. Mae amrywiaeth y Bwrdd yn fater ymgysylltu a phleidleisio, gan fod LGIM o'r farn bod amrywiaeth wybyddol mewn busnes, sef dod â phobl o wahanol oedran, profiad, rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol a chefnidir cymdeithasol ac economaidd ynghyd, yn gam hanfodol tuag at feithrin gwell cwmni, economi a chymdeithas.

Is-gronfa Dyraniad Asedau Tactegol	LGIM Future World North America Equity Index (GBP Hedged)
Cwmni:	JP Morgan Chase & Co.
Dyddiad y cyfarfod:	16 Mai 2023
Penderfyniad:	Adroddiad ar y Cynllun Pontio Hinsawdd yn Disgrifio Ymdrechion i Gydwedu Gweithgarwch Cyllido â Thargedau Nwyon Tŷ Gwydr
Pleidleisiwyd:	O blaid
Canlyniad:	Ni phasiwyd y penderfyniad

Mae LGIM fel arfer yn cefnogi penderfyniadau sy'n ceisio datgeliadau ychwanegol am sut y maent yn bwriadu rheoli eu gweithgarwch cyllido yn unol â'r targedau y maent wedi'u cyhoeddi. Cred LGIM y gall gwybodaeth fanwl am sut y mae cwmni'n bwriadu cyflawni'r targedau y maent wedi'u pennu ar gyfer 2030 ac wedi'u cyhoeddi i'r farchnad (y 'sut' yn hytrach na'r 'beth', gan gynnwys gweithgarwch ac amserlenni) hoelio sylw'r bwrdd ymhellach ar y camau a'r amserlen dan sylw, a rhoi sicrwydd i fudd-ddeiliaid. Mae'r cyfrifoldeb ar y

bwrdd o hyd i bennu'r gweithgarwch a'r polisïau y mae eu hangen i gyflawni eu huchelgeisiau eu hunain, yn hytrach na bod y buddsoddwyr yn rhoi cyfyngiadau ar y cwmni.

Is-gronfa Dyraniad Asedau Tactegol	LGIM Future World Japanese Equity Index
Cwmni:	Toyota Motor Group
Dyddiad y cyfarfod:	14 Mehefin 2023
Penderfyniad:	Diwygio Erthyglau i Adrodd ar Weithgarwch Lobïo Hinsawdd Corfforaethol yn unol â Chytundeb Paris
Pleidleisiwyd:	O blaid
Canlyniad:	Ni phasiwyd y penderfyniad

Mae LGIM yn ystyried bod lobïo hinsawdd yn rhan hanfodol o alluogi'r pontio i economi sero net. Cyfiawnheir pleidlais dros y cynnig hwn gan fod LGIM o'r farn y dylai cwmnïau ddadlau dros bolisïau cyhoeddus sy'n cefnogi uchelgeisiau hinsawdd byd-eang a pheidio ag oedi cynnydd ar amgylchedd reoleiddio sy'n cydweddu â Chytundeb Paris. Mae LGIM yn cydnabod y cynnydd y mae Toyota Motor Corp wedi'i wneud mewn perthynas â'i ddatgeliadau lobïo hinsawdd yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, cred LGIM fod angen mwy o dryloywder o ran y broses y mae'r cwmni'n ei defnyddio i asesu sut mae ei weithgarwch lobïo uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cyd-fynd â'i uchelgeisiau hinsawdd ei hun, a pha gamau sy'n cael eu cymryd pan ganfyddir nad ydynt yn cyd-fynd. Ymhellach, mae LGIM yn disgwyl i Toyota Motor Corp wella ei strwythur llywodraethu i oruchwylio'r adolygiad hwn o weithgarwch lobïo hinsawdd. Cred LGIM bod rhaid i'r cwmni hefyd egluro'n well sut mae ei strategaeth trydaneiddio aml-lwybr yn trosi i fodloni ei dargedau datgarboneiddio, a sut mae ei arferion lobïo hinsawdd yn cyd-fynd â hyn.

Is-gronfa Dyranriad Asedau Tactegol	LGIM Future World Japanese Equity Index
Cwmni:	Mitsubishi UFJ Financial Group, Inc.
Dyddiad y cyfarfod:	29 Mehefin 2023
Penderfyniad:	Diwygio erthyglau corffori i gyhoeddi cynllun pontio i gydweddu portffolios benthycia a buddsoddi â Chytundeb Paris
Pleidleisiwyd:	O blaid
Canlyniad:	Ni ddatgelwyd y canlyniadau

Mae'r LGIM yn parhau i ystyried bod datgarboneiddio'r sector bancio a'i gleientiaid yn allweddol i sicrhau bod nodau Cytundeb Paris yn cael eu cyrraedd. Mae grŵp o gyrff anllywodraethol wedi bod yn weithgar yn y maes hwn yn y farchnad Asiaidd ers rhai blynedd, a arweiniodd at y cynnig cyntaf o'i fath yn ymwneud â hinsawdd yn Mizuho cyn ei Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn 2020. Ers hynny, mae LGIM wedi cefnogi penderfyniadau blaenorol yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol pob un o'r banciau Japaneaidd hyn ers 2020, ac wedi canfod bod y cynigion hyn a'r trafodaethau dilynol rhwng y cyfranddalwyr wedi helpu sbarduno gwell datgeliadau a pholisïau mwy tynn yn y cwmnïau. Felly mae LGIM yn cefnogi'r cynnig hwn i fywiogi ac annog polisïau mwy cadarn yn unol â llwybrau sy'n cydweddu â thymheredd ac wedi'u seilio ar wyddoniaeth tuag at fyd sero net erbyn 2050. Cred LGIM bod drafft testun y penderfyniad yn ddigon cyffredinol i beidio bod yn rhy rhagnodol ar reolaeth, o ystyried natur orfodol diwygio'r erthyglau corffori hyn.

12.16 Arweiniad ar stiwardiaeth ar draws dosbarthiadau asedau amrywiol

Rydym yn cydnabod bod y dull stiwardiaeth gan amlaf yn fwy datblygedig ar gyfer rheolwyr ecwiti rhestredig. Disgwylir iddynt arfer eu cyfrifoldebau pleidleisio ac ymgysylltu'n llawn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn disgwyl i reolwyr ar draws dosbarthiadau asedau eraill arfer eu hawliau a'u cyfrifoldebau stiwardiaeth gymaint ag sy'n bosib. Mae eglurhad cryno i'w weld isod o rai o'r nodweddion allweddol rydym yn disgwyl eu gweld gan bob rheolwr buddsoddi sy'n awyddus i ddangos stiwardiaeth gadarn ar draws dosbarthiadau asedau amrywiol.

- **Incwm Penodol:** gall ymgysylltu â chyhoeddwy'r wella teilyngdod am gredyd, megis ymgysylltu â chwmnïau ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd a hawliau dynol.
- **Ecwiti Preifat:** mae gan gronfeydd gyfrannau sylweddol mewn cwmnïau fel arfer, sy'n golygu bod ganddynt ddylanwad sylweddol a/neu reolaeth lawn dros benderfyniadau a threfniadau rheoli.
- **Dyled Breifat:** llai o reolaeth ar gyfer buddsoddwyr o'i gymharu ag ecwiti preifat fel arfer, ond un ffordd o greu dylanwad yw llunio cyfnod benthyciad i ddylanwadau ar y cyhoeddwr. Mae mentrau diweddar wedi cynnwys mecanweithiau sbarduno yn y

raddfa fenthycha sydd ynghlwm ag amcanion ESG allweddol ar gyfer rhai benthyciadau.

- **Isadeiledd ac Eiddo Tirol:** gellir ehangu a gwella asedau drwy ddefnyddio dull ymarferol gan ymestyn nodweddion cynaliadwyedd yr asedau. Gall sefyllfaoedd perchnogaeth cryf hefyd helpu o ran ymgysylltu'n gyson gyda rheolwyr (gan gynnwys penodi timau cryf) a chydweithio â budd-ddeiliaid allweddol.

Geirfa

Eitem	Disgrifiad
Prisiad Actiwaraidd	Asesiad brisio ffurfiol y Gronfa sy'n nodi'r sefyllfa o ran solfedd ac yn pennu'r cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan y cyflogwyr i gyllido costau buddion a thalu unrhyw ddiffygion presennol fel yr amlinellir yn y Datganiad Strategaeth Gyllido ar wahân.
Awdurdod gweinyddu neu reolwr cynllun	Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu a rheolwr cynllun Cronfa Bensiynau Clwyd, sy'n golygu ei fod yn gyfrifol am reolaeth a stiwardiaeth y Gronfa.
Panel Ymgynghorol	Grŵp sy'n cynnwys Prif Weithredwr a Rheolwr Cyllid Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Ymgynghorydd y Gronfa, Actiwari'r Gronfa a Chynghorydd Annibynnol y Gronfa.
Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Gronfa")	Y Gronfa Bensiynau a reolir gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer gweithwyr awdurdod lleol yn y rhanbarth a gweithwyr cyflogwyr eraill sydd â chysylltiadau â llywodraeth leol yn y rhanbarth.
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ("y Pwyllgor")	Pwyllgor Cyngor Sir y Fflint sy'n gyfrifol am y mwyafrif o benderfyniadau mewn perthynas â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd.
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)	Corff wedi ei leoli yn y DU ar gyfer cyfrifwyr er mwyn gosod safonau.
Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC)	Mae'n cefnogi cymunedau ar draws y DU i ffynnu, gan eu gwneud yn lleoedd gwych i fyw a gweithio ynddynt.
Datganiad Strategaeth Gyllido (FSS)	Y brif ddogfen sy'n amlinellu sut y byddwn yn rheoli cyfraniadau cyflogwyr i'r Gronfa.
Grŵp Cyllido a Rheoli Risg (FRMG)	Is-grŵp o swyddogion a chynghorwyr y Gronfa Bensiynau a sefydlwyd i drafod a gweithredu unrhyw newidiadau i'r fframwaith Rheoli Risg fel y dirprwyir gan y Pwyllgor. Mae'n cynnwys Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Actiwari'r Gronfa, cynghorydd Risg Strategol a Chynghorydd Buddsoddi.

Eitem	Disgrifiad
Cyngor Adrodd Ariannol (FRC)	Mae'n rheoli archwilyr, cyfrifwyr ac actiwariaid, ac yn pennu Codau Llywodraethu Corfforaethol a Stiwardiaeth y DU.
Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi (ISS)	Y brif ddogfen sy'n amlinellu ein strategaeth mewn perthynas â buddsoddi asedau yng Nghronfa Bensiynau Clwyd.
Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF)	Mae hwn yn bartner ymgysylltu ac yn fforwm i gronfeydd sy'n aelodau gael rhannu dealltwriaeth ac arferion gorau a nodi cyfleoedd. Mae'n hyrwyddo buddiannau buddsoddi penodol cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol fel perchnogion asedau.
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)	Y cynllun cenedlaethol y mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhan ohono.
Cyfarwyddiaeth Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol II (MiFID II)	Fframwaith rheoleiddiol gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) a luniwyd i reoli marchnadoedd a sefydliadau ariannol a gwella dulliau gwarchod buddsoddwyr. Ei nod yw safoni arferion ar draws yr UE.
Cymdeithas Pensiynau a Chynilion Oes (PLSA)	Cymdeithas fasnachol ar gyfer y rheiny sydd ynghlwm â dylunio, gweithredu, cynghori a buddsoddi ym mhob agwedd ar bensiynau'r gweithle.
Pensions for Purpose	Mae'n gweithredu fel pont rhwng rheolwyr asedau, cronfeydd pensiwn a'u cynghorwyr proffesiynol i annog y llif o arian cyfalaf tuag at fuddsoddiad effaith.
Buddsoddiadau'r Farchnad Breifat	Ymrwymadau i Ecwiti / Dyledion Preifat, Eiddo, Isadeiledd, Coed, Amaethyddiaeth a Buddsoddiadau Oportiwistaidd eraill.
Actiwari'r Cynllun	Cynghorydd proffesiynol sy'n arbenigo mewn risg ariannol, a benodir gan Gronfeydd Pensiwn i ddarparu cyngor ar faterion ariannol. Yn y CPLIL, un o brif gyfrifoldebau'r Actiwari yw pennu cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan bob cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun fel rhan o'r ymarfer prisiad actiwaraid.

Eitem	Disgrifiad
Stiwardiaeth	Dyrannu, rheoli a goruchwyllo cyfalaf yn gyfrifol er mwyn creu gwerth hirdymor i gleientiaid a buddiolwyr, gan arwain at fuddion cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas.
Rheoliad Datgelu Cyllid Cynaliadwy (SFDR)	Mae hwn yn gosod rhwymedigaethau datgelu ESG gorfodol ar reolwyr asedau a chyfranogwyr marchnad ariannol eraill. Mae'r SFDR yn ceisio darparu tegwch ar gyfer cyfranogwyr marchnad ariannol a chynghorwyr ariannol o ran tryloywder mewn perthynas â risgiau cynaliadwyedd, ystyriaeth o effaith cynaliadwyedd niweidiol ar eu prosesau buddsoddi, a darparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd mewn perthynas â chynhyrchion ariannol.
Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE)	Rhwydwaith aelodau arweiniol ar gyfer gweithwyr proffesiynol y sector cyhoeddus a llywodraeth leol drwy'r DU.
Grŵp Dyrannu Asedau Tactegol (TAAG)	Grŵp sy'n cynnwys Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd a'r ymgynghorwyr buddsoddi, Mercer, sef Ymgynghorydd y Gronfa.
Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD)	Mae argymhellion TCFD yn cynnig canllawiau i holl gyfranogwyr y farchnad ar ddatgelu gwybodaeth am oblygiadau ariannol risgiau a chyfleodd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, er mwyn gallu eu hintegreiddio mewn penderfyniadau busnes a buddsoddi.
Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Natur (TNFD)	Datblygu ar y TCFD, ond gan weithredu ar ran natur. Mae'n fframwaith sy'n gysylltiedig â natur i ysgogi gwell dealltwriaeth a phrosesau adrodd am risgiau a chyfleodd sy'n gysylltiedig â natur.
Cod Stiwardiaeth y DU 2020	Cyfres o safonau uchel i'r rheiny sy'n buddsoddi arian ar ran cynilwyr a phensiynwyr y DU, a'r rheiny sy'n eu cefnogi.
Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig	Sefydliad rhyngwladol sy'n gweithio i hyrwyddo'r arfer o ymgorffori ffactorau ESG (amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu) ym mhob proses o wneud penderfyniadau, gan geisio datblygu system ariannol fwy cynaliadwy.
Partneriaeth Pensiwn Cymru ("y Bartneriaeth")	Cydweithrediad rhwng wyth cronfa CPLIL (awdurdodau cyfansoddol) Cymru gyfan ac un o'r wyth cronfa gyfunol Pensiynau Llywodraeth Leol genedlaethol. Sefydlwyd y Bartneriaeth yn 2017.



cronfabensiynauclywd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Sylwch mai Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd, a'n bod yn defnyddio'ch data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio eich data, gyda phwy y byddwn yn ei rannu a'r hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.